2025

bangor.ac.uk

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Gorffenaf 2025

CYNNWYS

Rhagymadrodd gan Gadeirydd y Cyngor	**4-7**
Rhagarweiniad yr Is-ganghellor	**8-11**
Crynodeb o'n blwyddyn	**12-13**
Ein cynllun strategol	**14-17**
Rhagoriaeth ymchwil	18-21
Addysg drawsnewidiol	22-25
Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig	26-29
Effaith economaidd, gymdeithasol a dinesig	30-31
Ymgysylltu byd-eang	32-33
Ein pobl	34-35
Adolygiad ariannol	**36-41**
Cynaliadwyedd	**42-43**
Undeb Myfyrwyr	**44-47**
Datganiad Budd Cyhoeddus	**48-50**
Adroddiad Taliadau	**51**
Llywodraethu Corfforaethol	**52-67**
Adroddiad yr Archwiliwr	**71**
Datganiad o gyfrifoldebau'r cyngor mewn perthynas â'r datganiadau ariannol cyfunol	**72-73**
Datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr cyfunol a phrifysgol	**74**
Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn cyfunol a phrifysgol	**75**
Mantolenni cyfunnol a phrifysgol	**76**
Datganiad llif arian cyfunol	**77**
Datganiad o'r prif bolisïau cyfrifyddu	**78-87**
Nodiadau am y datganiadau ariannol	**88-113**

RHAGYMADRODD GAN GADEIRYDD Y CYNGOR

Mae Prifysgol Bangor yn gwneud cyfraniad rhagorol at lesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ein dinas a'n cenedl, ac wrth i ni edrych yn ôl ar y flwyddyn, rwy'n falch iawn o gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2024/25. Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu prifysgolion ledled y Deyrnas Unedig, gwelwyd cyflawniadau sylweddol yn y flwyddyn academaidd, a chyfnod arall o drawsnewid, un lle parhaodd Bangor i addasu gyda gwytnwch ac uchelgais, gan harneisio cyfleoedd newydd mewn sector addysg uwch cymhleth a chythryblus.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau pendant i sicrhau cynaliadwyedd academaidd ac ariannol hirdymor y sefydliad yn y dirwedd hon sy'n newid yn barhaus. Er bod cyflawni ein rhaglen arbedion yn ddiamau yn heriol, ac rydym yn cydnabod yr effaith y mae hyn wedi'i chael ar ein cymuned, roedd y mesurau hyn yn hanfodol i ddiogelu'r Brifysgol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae gan fyfyrwyr syniadau clir ynglŷn â beth a sut maen nhw eisiau ei ddysgu. Mae angen inni gydbwyso trylwyredd academaidd ein rhaglenni gradd wrth foderneiddio pynciau traddodiadol a chyflwyno pynciau newydd sy'n berthnasol i'r byd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddo heddiw.

Fel ninnau, bydd llawer o brifysgolion yn cofnodi diffygion ariannol yn dilyn cystadleuaeth arbennig o ffyrnig am fyfyrwyr cartref a thramor. Er y bydd cynnydd diweddar mewn ffioedd yn rhoi rhywfaint o ryddhad, mae'r dirwedd ariannol yn parhau i fod yn heriol ar ôl mwy na degawd o ffioedd sefydlog yng Nghymru, a gostyngiad ledled y sector mewn recriwtio myfyrwyr rhyngwladol. Felly mae'n hollbwysig bod y Cyngor yn parhau i ddarparu cyfeiriad a chefnogaeth i sicrhau bod gennym fodel cynaliadwy yn ariannol ar gyfer ein hanghenion yn y dyfodol.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi dathlu cyflawniadau ar draws addysgu, ymchwil ac ymgysylltu cymunedol, yn ogystal â chydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol trwy wobrau a'n safle ar restrau. Mae'r canlyniadau cadarnhaol yn adlewyrchu cynnydd parhaus Prifysgol Bangor a'i henw da cynyddol am ragoriaeth. Mae'r cynnydd yng nghanllawiau prifysgolion The Times a'r Guardian yn tynnu sylw at safle academaidd cryfach y Brifysgol, tra bod canlyniadau gwell yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr yn dangos llwyddiant parhaus wrth wella profiad myfyrwyr. Gyda'i gilydd, mae'r cyflawniadau hyn yn tanlinellu ymrwymiad Bangor i ddarparu addysgu, ymchwil a chefnogaeth o ansawdd uchel sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w myfyrwyr, i'r rhanbarth ac i Gymru.

Nododd Hydref 2024 garreg filltir bwysig yn hanes balch y Brifysgol, sef 140 o flynyddoedd ers ei sefydlu. Rhoddodd y dathliadau gyfle i adfyfyrio ar ein treftadaeth ac ailddatgan ein hymrwymiad dinesig i wasanaethu Cymru a'r byd ehangach drwy addysg, ymchwil ac ymgysylltu. Cynhaliwyd rhaglen fywiog o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys penwythnos aduniad cyn-fyfyrwyr, darlithoedd academaidd a chyngerdd dathlu dan arweiniad Syr Bryn Terfel. Roeddem wrth ein bodd yn cynnal arddangosfa gyhoeddus yn arddangos dros 650 o weithiau o'n casgliad celfyddyd gain, gan ganiatáu i'n cymuned fwynhau'r dreftadaeth nodedig hon.

Efallai mai'r cyflawniad mwyaf arwyddocaol yn ystod y flwyddyn i ddathlu'r 140 oedd agoriad swyddogol Ysgol Feddygol Gogledd Cymru gan y Prif Weinidog. Cam arwyddocaol a fydd yn trawsnewid hyfforddiant a darpariaeth gofal iechyd yn y rhanbarth am genedlaethau i ddod. Yn 2025, rydym hefyd wedi lansio ein rhaglen Fferylliaeth, datblygiad sy'n cryfhau safle Bangor ymhellach fel arweinydd ym maes iechyd a gwyddorau bywyd.

Roedd yn anrhydedd i ni dderbyn rhodd drawsnewidiol o £10.5 miliwn gan Sefydliad Elusennol Albert Gubay, y rhodd ddyngarol fwyaf yn hanes y Brifysgol. Bydd creu Ysgol Fusnes Albert Gubay yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer menter ac arloesedd, gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ac arweinwyr yng Nghymru a thu hwnt.

Rwy'n falch iawn bod ein hymrwymiad i ymgysylltu â'r gymuned mor gryf ag erioed. Rydym yn parhau i ymfalchïo mewn gwasanaethu ein rhanbarth a Chymru gyfan — drwy gyfleoedd sy'n trawsnewid bywydau, partneriaethau sy'n fuddiol i gymunedau lleol, ein hymchwil a'n cyfraniad at arloesedd lleol a chenedlaethol, neu hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, mae Bangor yn parhau i fod wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn ei chymunedau ac wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Wrth i'r Ddinas ddathlu ei 1,500 o flynyddoedd, roedd y Brifysgol yn falch o chwarae rhan weithredol yn y dathliadau, gan adlewyrchu'r cysylltiadau dwfn a hanesyddol sy'n uno'r Brifysgol a dinas Bangor.

Er bod llawer i'w ddathlu, rhaid inni hefyd gydnabod y pwysau ariannol parhaus sy'n wynebu addysg uwch. Mae Papur Gwyn Addysg a Sgiliau Ôl-16 2025 yn gosod cyfeiriad clir i Loegr, a fydd yn ddiamau yn dylanwadu ar dueddiadau ledled y Deyrnas Unedig o ran symudedd a chyllid myfyrwyr. Wrth i ni edrych ymlaen at etholiadau Senedd 2026, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i hyrwyddo addysg uwch fel blaenoriaeth genedlaethol, ac yn diffinio model sy'n sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor prifysgolion Cymru.

Gyda thirwedd addysg uwch sy'n newid yn barhaus, rhaid i Brifysgol Bangor barhau i reoli ei hadnoddau'n ddoeth, gan nodi cyfleoedd ar gyfer twf ac effeithlonrwydd i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor y Brifysgol.

Wrth i mi gwblhau fy seithfed flwyddyn fel Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor, rwy'n parhau i fod yn falch iawn o Brifysgol Bangor, ei phobl, ei phwrpas, a'i lle yng nghanol ei chymuned.

Ar ran Cyngor y Brifysgol, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'n His-Ganghellor, y Bwrdd Gweithredol, a'n holl gydweithwyr academaidd a phroffesiynol am eu hymrwymiad a'u gwaith caled, ac i'm cyd-aelodau o'r Cyngor am eu mewnwelediad a'u hymroddiad parhaus.

Marian Wyn Jones

Cadeirydd y Cyngor



RAGARWEINIAD

YR IS-GANGHELLOR

Drwy addysgu, ymchwilio ac arloesi, mae Prifysgol Bangor yn parhau i drawsnewid bywydau, cefnogi twf yn y rhanbarth, a gwneud cyfraniad parhaol nid yn unig yng Nghymru ond yn fyd-eang. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafwyd llwyddiannau a heriau, gan adlewyrchu'r dirwedd newidiol ar draws y sector addysg uwch.

Mae prifysgolion ledled y Deyrnas Unedig yn parhau i weithredu mewn amgylchedd ariannol ansicr. Creodd costau gweithredu cynyddol, newidiadau polisi a effeithiodd ar fyfyrwyr rhyngwladol a chyfraniadau cyflogwyr, ymhlith datblygiadau eraill, bwysau parhaus ar gyllid sefydliadau. Mewn ymateb, cynhaliodd Prifysgol Bangor ymarfer ariannol i sicrhau arbedion o £15 miliwn. Roedd hwn yn benderfyniad anodd ond hanfodol i sicrhau bod ein sylfaen costau yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd â'n hincwm hirdymor.

Er gwaethaf yr heriau hyn ar draws y sector, dros y flwyddyn ddiwethaf mae Prifysgol Bangor wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol. Roedd cael Eluned Morgan, Prif Weinidog Cymru, i lansio Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn garreg filltir bwysig i'r Brifysgol a'r rhanbarth. Croesawodd yr Ysgol ei charfan gyntaf o fyfyrwyr meddygaeth gan gryfhau'r gweithlu gofal iechyd yng ngogledd Cymru a darparu cefnogaeth hanfodol i GIG Cymru.

Eleni hefyd derbyniodd y Brifysgol y rhodd fwyaf yn ei hanes, sef rhodd o £10.5 miliwn gan Sefydliad Elusennol Albert Gubay i sefydlu Ysgol Fusnes Albert Gubay. Gyda'r rhodd hon, byddwn yn trawsnewid hen adeilad Ysgol Friars yn ganolfan ar gyfer addysg fusnes. Diben y buddsoddiad hwn yw cysylltu ymchwil a menter, er mwyn rhoi i fyfyrwyr y sgiliau, y wybodaeth a'r uchelgais i arwain mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Mae ymchwil ac arloesedd ym Mhrifysgol Bangor yn parhau i gael effaith fyd-eang. Mae cydweithrediad newydd gyda Verily, sef cwmni technoleg iechyd blaenllaw, yn gam pwysig wrth inni ehangu ein hymchwil dŵr gwastraff yn fenter iechyd cyhoeddus ledled Ewrop. Drwy'r bartneriaeth hon, byddwn yn helpu llywodraethau a chymunedau i ganfod ac ymateb i glefydau heintus yn gyflymach, gan gryfhau diogelwch iechyd Ewrop ac atgyfnerthu rôl Prifysgol Bangor fel cyfrannwr allweddol at fiowyliadwriaeth fyd-eang.

Mae ein henw da am ragoriaeth hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn meincnodau allanol. Yng nghynghrair University Compare 2026, rydym wedi ein rhestru fel y brifysgol orau yng Nghymru ac rydym yn y 15fed safle trwy'r Deyrnas Unedig. Cafodd y Brifysgol ei chydnabod unwaith eto fel arweinydd ym maes cynaliadwyedd, gan gyrraedd safle 64 trwy'r byd a'r deg uchaf trwy'r Deyrnas Unedig yng nghynghrair The Times Higher Education Impact Rankings, sy'n arwydd o berfformiad cryf yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae Prifysgol Bangor hefyd wedi gweld gwelliannau sylweddol yng nghynghrair yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr o ran boddhad myfyrwyr ac ansawdd yr addysgu. Mae'r llwyddiannau hyn yn dangos ymroddiad parhaus ein staff a'n myfyrwyr i ddarparu dysgu o ansawdd uchel ac ymchwil sy'n cael effaith sylweddol.

Mae ymagwedd ryngwladol Prifysgol Bangor yn parhau i fod yn rhan ganolog o'i chenhadaeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf, graddiodd myfyrwyr drwy bartneriaethau trawswladol yn Tsieina, Uzbekistan, Singapore, a Bahrain, gan adlewyrchu cyrhaeddiad byd-eang ynghyd ag adlewyrchu ansawdd addysgu Prifysgol Bangor. Ar y campws, mae myfyrwyr o dros 80 o wledydd yn cyfrannu at gymuned amrywiol a chynhwysol, gan gyfoethogi bywyd y brifysgol a chryfhau ein cysylltiadau rhyngwladol.

Cafodd ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ei gydnabod pan ddyfarnwyd inni Wobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hil, gan amlygu'r cynnydd sydd wedi digwydd wrth gefnogi myfyrwyr a staff sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu'n rhaid i ni edrych yn ofalus ar ein cyllid a gwneud penderfyniadau anodd i ail-lunio'r Brifysgol. Ac eto, wrth feddwl am y flwyddyn yn ei chyfanrwydd, rwy'n falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni a'r llwyddiannau rydym wedi'u cael er gwaethaf yr heriau hynny.

Er bod heriau o hyd, mae Prifysgol Bangor yn dechrau blwyddyn newydd ar sail ariannol sefydlog a chyda hyder newydd. Byddwn yn parhau i wella profiad myfyrwyr, gwella ein rhagoriaeth ymchwil, tyfu ein partneriaethau rhyngwladol, a gwreiddio cynaliadwyedd a chynhwysiant ar draws pob maes o'n gweithgarwch. Drwy gyfuno rhagoriaeth academaidd â phwrpas dinesig, bydd Prifysgol Bangor yn parhau i wasanaethu ei chymunedau, cyfrannu at ffyniant Cymru, a chwarae rhan weithredol wrth fynd i'r afael â heriau byd-eang.

Yn olaf, hoffwn gloi trwy gydnabod a diolch i staff dawnus ac ymroddedig y Brifysgol am eu gwaith caled a'u hymroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yr Athro Edmund Burke

Yr Is–Ganghellor

CRYNODEB O'N BLWYDDYN

Lansio Ysgol Feddygol Gogledd Cymru: Cyfnod newydd ar gyfer addysg feddygol a gofal iechyd yng Ngogledd Cymru

Mae'n garreg filltir bwysig yn yr ymdrechion i fynd i'r afael ag anghenion gofal iechyd Gogledd Cymru. Cafodd yr ysgol ei sefydlu i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o hyfforddi meddygon y dyfodol er mwyn gwasanaethu GIG Cymru a phobl y rhanbarth.

Dewi Bryn Jones o Ganolfan Bedwyr yn derbyn Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod 2025

Roedd hi'n Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus i'r Brifysgol gan i'r darlithydd Dr Peredur Webb-Davies ennill gwobr goffa Daniel Owen am ysgrifennu nofel, ac i Dr Bryn Jones, Cymrawd Ymchwil ennill y Fedal Ryddiaith.

Rhodd o £10.5 miliwn i sefydlu 'Ysgol Fusnes Albert Gubay' ym Mhrifysgol Bangor

Dyma'r rhodd fwyaf yn hanes Sefydliad Elusennol Albert Gubay a fydd yn trawsnewid adeilad hanesyddol sef hen Ysgol Friars yn gyfleuster o'r radd flaenaf.

Prifysgol Bangor yn cael dyfarniad rhagorol yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae'r dyfarniad cadarnhaol hwn yn dangos bod gan y brifysgol drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd academaidd a gwella profiad myfyrwyr.

Hwb Datgarboneiddio Arloesol yn agor ym Mhenygroes – y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig

Bydd y project gydweithredol rhwng Adra, Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor yn sicrhau bod gogledd orllewin Cymru yn flaenllaw ar yr agenda datgarboneiddio, gan weithio gyda chymunedau a busnesau i ôl-osod cartrefi dros y blynyddoedd nesaf.

Race Equality Charter Bronze Award

Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hil i Brifysgol Bangor

Mae'r wobr yn cydnabod y cynnydd mae'r Brifysgol wedi ei wneud o ran deall a mynd i'r afael â'r materion y mae staff a myfyrwyr du, Asiaidd ac ethnig leiafrifiedig yn eu hwynebu mewn addysg uwch.

Gardd Fotaneg Treborth yn ennill grant gan y cynllun Grant Buddsoddi mewn Coetir

Bydd y grant yn mynd tuag at adfer ac adfywio'r coetir naturiol a diwylliannol sydd yn yr ardd a gwella mynediad a darparu profiadau dysgu ystyrlon trwy raglen amrywiol o gyrsiau, gweithdai a hyfforddiant.

Myfyrwyr ffilm a'r cyfryngau yn ennill Gwobr y Gymdeithas Deledu Frenhinol

Enillodd Tape 15, ffilm fer arswydus, wobr yn y categori myfyrwyr ar gyfer Adloniant a Drama Gomedi. Dyma'r 17eg fuddugoliaeth i Tape 15, sydd eisoes wedi'i dangos mewn gwyliau ffilm rhyngwladol.

Clinig Cyngor Cyfreithiol Prifysgol Bangor wedi ennill y Wobr Pro Bono yng Ngwobrau News Legal Wales

Mae'r wobr yn cydnabod y gwaith gwerthfawr a ddarperir gan glinig sy'n rhoi cyngor cyfreithiol am ddim i'r rhai mewn angen.

Prifysgol Bangor â Verily yn cydweithio er mwyn ehangu gwasanaethau profi dŵr gwastraff ledled Ewrop

Bydd y bartneriaeth â chwmni technoleg iechyd yn manteisio ar alluoedd rhaglen gwyliadwriaeth iechyd cyhoeddus sy'n seiliedig ar ddŵr gwastraff y Brifysgol a'i phrif labordy profi.

Daeth y diweddar gyfansoddwr David Cousins, i'r Brifysgol er mwyn traddodi darlith ysbrydoledig i fyfyrwyr

Gyda gyrfa yn ymestyn dros bum degawd, roedd David yn un o gyfansoddwyr caneuon modern gorau Prydain, yn fwyaf adnabyddus fel prif leisydd a phrif gyfansoddwr caneuon y band chwedlonol Strawbs.

ARFer

Ap ARFer: Chwyldroi defnydd iaith yn y gwaith

Prif bwrpas yr ap yw darparu fframwaith hawdd a hwyliog i grwpiau o staff ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle.



Cyfres olaf Michael Mosley: sut wnaeth ymchwilwyr ymchwilio i gorff dan straen

Monitrodd ymchwilwyr sut oedd y diweddar newyddiadurwr radio, cynhyrchydd a'r cyflwynydd yn ymateb i weithgaredd risg uchel, a sut oedd ymateb i straen – er mwyn helpu gwylwyr i ddeall eu cyrff eu hunain yn well.

Prifysgol Bangor yn lansio 'Labordy Plant Bangor' i hybu ymchwil ac ymarfer yn y blynyddoedd cynnar

Bydd tîm amlddisgyblaethol Labordy Plant Bangor yn ymchwilio i feysydd hollbwysig megis datblygiad iaith, llythrennedd a gwybyddiaeth gymdeithasol, ac yn defnyddio cyfuniad o asesiadau ymddygiadol, niwroddelweddu, a modelu cyfrifiadurol.

EIN CYNLLUN STRATEGOL

Mae Prifysgol Bangor mewn sefyllfa gref fel sefydliad byd-eang sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yng ngogledd Cymru. Rydym wedi atgyfnerthu ein safle fel prifysgol ymchwil-ddwys, gyda pherfformiad yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, sef REF2021, sydd wedi ein gosod yn ail yng Nghymru ac yn safle 42 yn y Deyrnas Unedig. Fel pob prifysgol arall, rydym yn wynebu dyfodol sy'n cynnig heriau a chyfleoedd. Rydym felly'n cyflwyno strategaeth sy'n canolbwyntio ar dwf, ac un a fydd yn gofyn i ni weithredu gydag ystwythder.

Bydd gwireddu ein strategaeth uchelgeisiol yn golygu y gallwn fuddsoddi i wella mwy fyth ar y profiad rhagorol yr ydym yn ei gynnig i fyfyrwyr a chynyddu'r ymchwil a wnawn, sydd gyda'r gorau yn y byd ac yn rhyngwladol ragorol. Rydym yn bwriadu parhau i sicrhau buddion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol drwy ein heffaith, sydd gyda'r gorau yn y sector, gan fynd i'r afael â heriau cymdeithasol byd-eang mewn meysydd sy'n cynnwys gofal iechyd, newid yn yr hinsawdd ac atebion ynni ar gyfer y dyfodol. I weld manylion llawn Strategaeth 2030 ewch i:

https://www.bangor.ac.uk/cy/strategaeth-2030

ENHADAETH, GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD

Ein cenhedaeth

Prifysgol dan arweiniad ymchwil sydd wedi ei gwreiddio yng ngogledd Cymru, sy'n ymgysylltu'n fyd-eang ac yn cynnig profiadau dysgu trawsnewidiol ac yn meithrin effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol.

Ein gweledigaeth

Prifysgol fyd-eang ei chysylltiadau, sy'n manteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol sy'n seiliedig ar effaith gydag ymrwymiad i gynaliadwyedd.

Ein gwerthoedd a'n prif egwyddorion

Y pedwar gwerth a'r prif egwyddorion hyn yw conglfeini ein diwylliant. Nhw sy'n llywio'r penderfyniadau a wnawn a'n dull o weithio gyda'n gilydd fel cymuned prifysgol.

Uchelgais

Cawn ein hysbrydoli gan ein hanes a'n pobl i alluogi'r eithriadol. Rydym yn ddewr ac mae gennym uchelgais ar gyfer y Brifysgol, ein cydweithwyr, a'n myfyrwyr, ac rydym hefyd yn cefnogi uchelgais ein partneriaid. Cawn ein sbarduno, fel lleoliad ymdrechion academaidd, arloesi a thrawsnewidiol, i helpu i gyfoethogi cymdeithas. Rydym wedi ymrwymo i ragoriaeth ar bob lefel o'r profiad addysgol a chreadigol.

Cynwysoldeb

Rydym yn darparu mynediad cyfartal, hawliau cyfartal, a chyfiawnder cyfartal i bawb. Byddwn yn hyrwyddo parch at hawliau a rhyddid pobloedd amrywiol a'u syniadau, eu cefndiroedd a'u dulliau o geisio gwybodaeth a dealltwriaeth. Rydym yn ymddiried, yn gwerthfawrogi, yn grymuso ac yn gofalu am ein gilydd, ac rydym yn atebol am yr hyn a wnawn. Fel cydweithredwyr byddwn yn ymatebol ac yn cyflawni mwy gyda'n gilydd.

Uniondeb

Rydym yn gweithredu gyda gonestrwydd a thryloywder a byddwn yn ymdrechu i gydweithredu ym mhopeth a wnawn. Byddwn yn hwyluso twf deallusol trwy ryddid academaidd, mynegiant creadigol, cyfathrebu gwirionedd a gwybodaeth, a datblygiad cymdeithasol a moesol.

Cynaliadwyedd

Rydym yn frwd dros hyrwyddo diwylliant ac ysgolheictod lle rhoddir pwyslais ar stiwar - diaeth amgylcheddol, byw mewn cytgord, a gofalu am y byd mewn ffyrdd sy'n diwallu ein hanghenion economaidd, cymdeitha - sol, amgylcheddol a diwylliannol. Byddwn, gyda'n hymchwil blaenllaw yn sylfaen i ni, yn cefnogi datblygiad Cymru fel gwlad ddwyieithog sy'n dysgu, lle ceir economi a sbardunir gan wybodaeth er budd y byd a chenedlaethau'r dyfodol.

TAIR COLOFN A THAIR THEMA

Mae tair colofn strategol a thair thema drawsnewidiol yn sail i strategaeth y Brifysgol.

Bydd y colofnau strategol yn cynnal ac yn datblygu ein hymdrechion craidd i osod y Brifysgol fel grym ar gyfer addysg uwch ac economi'r gogledd. Bwriedir i'r weledigaeth fod yn wirioneddol drawsnewidiol, gan gryfhau a hyrwyddo potensial y Brifysgol mewn modd sy'n cyd-fynd yn thematig â'i chryfderau cyfredol a'r blaenoriaethau polisi cenedlaethol.



YN SAIL I

Cynaliadwyedd sefydliadol

RHAGORIAETH YMCHWIL

Mae ein strategaeth ymchwil yn parhau i hyrwyddo arloesi ac effaith, gydag ymrwymiad clir i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf dybryd sy'n wynebu cymdeithas. Mae ymchwil a wneir ym Mangor yn cydnabod bod pob disgyblaeth sy'n sail i ddulliau cynaliadwyedd, ymchwil amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, er mwyn cefnogi ein gweledigaeth i ddod yn ganolfan ragoriaeth sy'n cael ei chydnabod yn fyd-eang ym maes cynaliadwyedd.

Ledled y brifysgol, mae ymchwil yn seiliedig ar bedair colofn cynaliadwyedd, sef y dynol, y cymdeithasol, yr economaidd a'r amgylcheddol, gan gyflwyno cyfleoedd parhaus i dimau ymchwil ar draws y brifysgol integreiddio eu harbenigedd i fynd i'r afael â heriau byd-eang.

Mae cynhyrchu gwybodaeth newydd yn gymorth i ni ddeall newidiadau hollbwysig a phwyntiau trawsnewidiol yn ein hamgylchedd, cymdeithasau a diwylliannau, tra bod ymgysylltu â phartneriaid y tu allan i'r byd academaidd yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chymhwyso i sicrhau effaith drawsnewidiol mewn ymddygiad dynol, datblygiad economaidd, gwasanaethau a rheoli adnoddau naturiol.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac mae'n caniatáu i Fangor arwain y gwaith o fynd i'r afael â blaenoriaethau newydd gan sicrhau ehangder a dyfnder rhagoriaeth ymchwil ar draws pob disgyblaeth.

"Eleni, enillodd Bangor grant Ewropeaidd gwerth €3 miliwn i arwain 'ARTHURIAID YR UNDEB EWROPEAIDD: Rhwydwaith hyfforddi doethuriaeth Arthuriaid Ewrop, o'r oesoedd canol hyd y cyfnod modern', gan osod y brifysgol yng nghanol ysgoloriaeth ryngwladol bwysig yn y celfyddydau a'r dyniaethau, mewn partneriaeth gyda'r University of Iceland, Scuola Normale Superiore yn yr Eidal, Université Clermont Auvergne yn Ffrainc, Universiteit van Amsterdam yn yr Iseldiroedd, ac University of Zürich, sefydliad partner. Mae'r rhwydwaith hefyd yn dwyn ynghyd bartneriaid cysylltiedig ledled Ewrop, gan gynnwys Prifysgolion Leiden, Stockholm, Strasbourg ac Utrecht, ynghyd â'r Fondazione Ezio Franceschini (Yr Eidal), Amgueddfa Genedlaethol Gwlad yr Iâ, Clermont Auvergne Métropole, a Quaternio Verlag Luzern (Y Swistir).

Sefydlwyd partneriaeth gyda Verily, cwmni technoleg iechyd fanwl gywir a rhan o'r Alphabet Group sy'n berchen ar Google, i ehangu gwasanaethau profi dŵr gwastraff ledled y Deyrnas Unedig ac Ewrop, gan roi offer hanfodol i lywodraethau ac asiantaethau iechyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Yn dilyn cydnabyddiaeth trwy Wobr Pen-blwydd y Frenhines am y gwaith hwn, gwahoddwyd Bangor i gymryd rhan yn Coronation Challenge CreaTech, menter ymchwil blwyddyn o hyd a gomisiynwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel rhan o raglen Gweledigaeth Sector 2023 i ysgogi twf o fewn diwydiannau creadigol y Deyrnas Unedig.

Mae'r llwyddiannau hyn yn dangos cryfder ymchwil Cymru a'r cyfleoedd y gellir eu datgloi trwy fuddsoddiad cynaliadwy. Mewn adroddiad a gynhyrchwyd gan London Economics ar gyfer UK mhrifysgolion, mae'n dangos bod pob £1 o gyllid cyhoeddus a fuddsoddir mewn ymchwil prifysgolion yn dychwelyd tua £10 i economi'r Deyrnas Unedig, gan gynhyrchu buddion sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r byd academaidd. Trwy adeiladu ar y sylfaen gref hon, gall Prifysgol Bangor barhau i ysgogi arloesi, denu partneriaethau byd-eang, a chreu'r swyddi a'r busnesau gwerth uchel a fydd yn sicrhau ffyniant hirdymor.

Gan edrych ymlaen, bydd Bangor yn parhau i feithrin capasiti ym maes iechyd a chynaliadwyedd, ac arwain mewn meysydd newydd. Gyda chefnogaeth barhaus, mae ein hymchwilwyr mewn sefyllfa dda i gyflwyno rhagoriaeth ac arloesi sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau yng Nghymru ac ar draws y byd.

Mae ein hymchwil wedi ei osod

yn 30fed yn y Deyrnas Unedig

am ei effaith ar gymdeithas yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil mwyaf diweddar

Cynyddu Gweithgareddau Goruchwylio Iechyd Cyhoeddus: Partneriaeth Prifysgol Bangor â Verily

Ym mis Medi 2024, dechreuodd Prifysgol Bangor bartneriaeth unigryw â Verily, cwmni technoleg iechyd fanwl gywir, i wella ei galluoedd gwyliadwriaeth dŵr gwastraff. Mae'r cydweithrediad hwn yn integreiddio technoleg profi uwch Verily â labordy Bangor, dan arweiniad yr Athro Davey Jones. Bydd y rhaglen estynedig yn monitro ystod ehangach o bathogenau, gan gynnwys SARS-CoV-2, Norovirus, a bacteria sy'n gallu gwrthsefyll sylweddau gwrthficrobaidd. Mae labordy'r brifysgol yn gwasanaethu fel canolfan ymchwil a datblygu i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, a'i nod yw cryfhau ymatebion iechyd y cyhoedd ledled y Deyrnas Unedig ac Ewrop trwy'r bartneriaeth arloesol hon.

Gyrru Creadigrwydd a Thechnoleg yn Niwydiannau Creadigol y Deyrnas Unedig

Fel rhan o Wobr Pen-blwydd y Frenhines, gwahoddwyd Bangor i gymryd rhan yn Coronation Challenge CreaTech, menter ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon dan raglen Gweledigaeth Sector 2023 i ysgogi twf diwydiannau creadigol y Deyrnas Unedig. Cynrychiolwyd y brifysgol gan yr Athro Andrew Lewis a'r Athro Andrew McStay, a gyfrannodd at adroddiad cenedlaethol gan 22 o brifysgolion a cholegau ar sut y gall creadigrwydd a thechnoleg newydd drawsnewid sgiliau, arloesi a busnes. Mae'r meysydd a drafodwyd yn cynnwys dylunio sain, cyfryngau trochol a rhyngweithio rhwng pobl a deallusrwydd artiffisial. Roedd y prif argymhellion yn galw am fwy o fuddsoddiad mewn ymchwil a datblygu, llwybrau addysg gwell a phartneriaethau cryfach rhwng diwydiant a'r byd academaidd i gynnal twf y sector.

Prifysgol Bangor yn Arwain ar Broject Astudiaethau Arthuraidd Gwerth €3 Miliwn

Mae Prifysgol Bangor wedi ennill grant Ewropeaidd gwerth €3 miliwn i arwain project ARTHURIAID YR UNDEB EWROPEAIDD, gan wella ei henw da byd-eang ym maes Astudiaethau Arthuraidd. Dan arweiniad yr Athro Raluca Radulescu, bydd y Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd yn cydweithio â 35 o academyddion, cymrodyr doethurol, a sefydliadau diwylliannol ledled Ewrop. Mae'r llwyddiant yn adeiladu ar gydnabyddiaeth ryngwladol hirsefydlog Bangor yn y maes, a gadarnheir ymhellach gan etholiad yr Athro Radulescu yn Llywydd y Gymdeithas Arthuraidd Ryngwladol yn 2024.

Fel rhwydwaith ymchwil sydd â'r nod o ymchwilio i'r berthynas newidiol rhwng traddodiadau canolog a chyrion astudiaethau Arthuraidd, mae'r project hefyd yn ehangu capasiti ymchwil doethuriaeth, yn meithrin cydweithrediadau hirdymor, ac yn cyfrannu at Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2029 trwy gyhoeddiadau mynediad agored a chynadleddau academaidd. Mae'r llwyddiant hwn yn dangos gwerth ymchwil yn y celfyddydau a'r dyniaethau mewn cymdeithas fodern ac yn cryfhau safle Bangor ar y llwyfan rhyngwladol.

PRIFYSGOL BANGOR YN PARHAU I GODI SAFON PROFIAD Y MYFYRWYR

Mae Prifysgol Bangor yn parhau i wella profiad y myfyrwyr drwy gydweithio strategol ac addysgu arloesol, gan adeiladu ar ein cenhadaeth barhaus i ddarparu dysgu trawsnewidiol i bob myfyriwr. Ym mis Chwefror 2025, derbyniodd y Brifysgol ganlyniad rhagorol yn yr Adolygiad Gwella Ansawdd (QER), gan osod meincnod ar ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr.

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS) 2025 yn adlewyrchu effaith ein gweithgarwch i wella ymhellach, gyda bodlonrwydd cyffredinol y myfyrwyr yn cynyddu ynghyd â boddhad ag addysgu. Adroddodd myfyrwyr fod staff addysgu'n egluro cynnwys y cwrs yn glir, yn ymgysylltu'n ystyrlon â nhw yn y broses ddysgu, ac yn ysgogi chwilfrydedd deallusol. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod Bangor yn drydydd yng Nghymru am foddhad ag addysgu ac yn 46ain allan o 124 sefydliad yn y Deyrnas Unedig, gan ddangos tuedd gadarnhaol barhaus o ran profiad myfyrwyr ac ymgysylltiad academaidd.

Yn ganolog i'r llwyddiant hwn mae partneriaeth hirsefydlog y Brifysgol â myfyrwyr ag Undeb Bangor, Undeb y Myfyrwyr. Mae'r cydweithio hwn yn parhau i lywio blaenoriaethau'r sefydliad ac yn sail i weithredu'r Is-Strategaeth Profiad Myfyrwyr, a lansiwyd yn 2024. Datblygwyd y strategaeth drwy ymgynghoriad helaeth â staff a myfyrwyr, gan rymuso dysgwyr i gymryd perchnogaeth o'u haddysg a'u datblygiad personol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r uchelgeisiau hyn wedi dod yn fyw drwy fentrau sy'n cyfoethogi cyfleoedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, yn blaenoriaethu lles, yn cofleidio cynhwysiant, yn gwella amgylcheddau dysgu, ac yn cryfhau cyfathrebu ar draws cymuned y Brifysgol. Mae Grŵp Cyflawni Profiad Myfyrwyr newydd, gyda chynrychiolaeth gan staff a myfyrwyr, wedi sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu monitro ac yn cael eu hymgorffori ar draws pob agwedd ar daith y myfyriwr.

Mae ein cwricwlwm yn parhau i gael ei seilio ar bum priodwedd addysgol craidd: her, ymchwil, cymhwysiad, cydweithio, a hunan-gyfeiriad, ac fe'i cyflwynir drwy raglen eang sy'n cael ei llywio gan ymchwil ac arfer. Mae arloesedd technolegol wedi ehangu'r cyfleoedd dysgu hyn, gan alluogi ystafelloedd dosbarth rhyngwladol rhithwir a llwybrau dysgu hyblyg. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn sicrhau bod graddedigion Bangor yn barod i lwyddo ym marchnadoedd graddedigion rhanbarthol a byd-eang, gan gynnal ymgysylltiad dinesig cryf a chysylltiad â chymdeithas.

Rydym yn ymrwymedig i droi ein nodau strategol yn welliannau ystyrlon mewn addysgu, dysgu, a phrofiad y myfyrwyr. Drwy feithrin cydweithio cryf rhwng myfyrwyr, staff, ac Undeb y Myfyrwyr, mae'r Brifysgol yn parhau i gefnogi dysgwyr i lwyddo'n academaidd a llunio eu dyfodol gyda hyder a phwrpas, gan gadarnhau Bangor fel arweinydd wrth ddarparu addysg sydd wedi'i lywio gan ymchwil o ansawdd uchel.



CANLYNIAD RHAGOROL YN YR ADOLYGIAD GWELLA ANSAWDD

Mae Prifysgol Bangor wedi derbyn dyfarniad rhagorol gyda chwe chydnabyddiaeth yn dilyn ei Hadolygiad Gwella Ansawdd Sefydliadol (QER) diweddar, a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) ar ran Medr. Mae'r Adolygiad sydd yn digwydd oddeutu bob pum mlynedd, yn adolygu darparwyr addysg uwch yng Nghymru i sicrhau safonau uchel mewn addysgu, cefnogaeth i fyfyrwyr, a sicrwydd ansawdd.

Cadarnhaodd yr Adolygiad, a oedd yn seiliedig ar hunanasesiad ac ymweliad ym mis Rhagfyr, fod y Brifysgol yn darparu addysg o ansawdd uchel, yn cefnogi ei myfyrwyr yn effeithiol, ac yn meddu ar systemau cadarn i gynnal a gwella safonau academaidd. Mae'r canlyniad hwn yn adlewyrchu ymrwymiad cryf y Brifysgol i ddarparu rhagoriaeth mewn addysg a meithrin profiad cadarnhaol i fyfyrwyr.

Roedd y chwe chydnabyddiaeth yn cydnabod llwyddiannau Prifysgol Bangor mewn meysydd allweddol: partneriaeth â myfyrwyr, y Gymraeg a dwyieithrwydd, cefnogaeth gynhwysfawr i fyfyrwyr, datblygu staff, y Fframwaith Asesu Cywerthedd, a gwelliannau sy'n seiliedig ar ddata. Mae'r cydnabyddiaethau hyn yn tynnu sylw at ddulliau arloesol y Brifysgol o ymgorffori adborth myfyrwyr, hyrwyddo cynhwysiant, cefnogi staff a myfyrwyr, a sicrhau cysondeb a gwelliant parhaus ac yn gwneud camau sylweddol wrth baratoi ei fyfyrwyr ar gyfer llwyddiant mewn gweithlu byd-eang deinamig.

MYFYRWYR FEL PARTNERIAID

Ym mis Rhagfyr, cynhaliodd Ysgol y Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol ei digwyddiad cyflogadwyedd cyntaf dan arweiniad myfyrwyr, gan ymgysylltu â bron i 300 o fyfyrwyr. Trefnwyd y fenter yn gyfan gwbl gan Grŵp Cyflogadwyedd dan Arweiniad Myfyrwyr yr Ysgol, gan ddangos arweinyddiaeth, creadigrwydd, ac arloesedd cymuned y myfyrwyr.

Gyda dros 20 stondin rhyngweithiol, chwe siaradwr gwadd a sesiynau cyngor gyrfaol, darparodd y digwyddiad lwyfan cynhwysfawr i fyfyrwyr wella eu parodrwydd at yrfa. Cynhaliwyd sawl stondin gan raddedigion, gan alluogi myfyrwyr i rwydweithio â gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant, trafod strategaethau recriwtio, ac archwilio swyddi graddedig, lleoliadau, a chyfleoedd gwirfoddoli.

Mae'r fenter lwyddiannus hon dan arweiniad myfyrwyr yn amlygu ymrwymiad y Brifysgol i gyflogadwyedd, arweinyddiaeth myfyrwyr, a meithrin cysylltiadau cryf rhwng myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr, a'r diwydiant, gan ddarparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad gyrfa a rhwydweithio proffesiynol.

Y GYMRAEG
A DIWYLLIANT CYMRU

Mewn blwyddyn pan fu'r Brifysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 140 oed a neuadd Gymraeg John Morris-Jones (JMJ) yn nodi hanner canrif o'i bodolaeth, bu pwyslais dealladwy ar edrych yn ôl yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Cafodd pen-blwydd y neuadd ei ddathlu yng nghanolfan Pontio mewn diwrnod llawn o hel atgofion trwy sgwrs a chân, a bu rhai o drigolion presennol y neuadd yn rhan o Gôr Aelwyd JMJ a gymerodd ran mewn cyngerdd mawreddog yng nghwmni Bryn Terfel i gofnodi can mlynedd a deugain o addysg uwch ym Mangor.

Ond edrych ymlaen ac arloesi ydy hanfod ymwneud Prifysgol Bangor â'r Gymraeg, fel y mae Strategaeth Gymraeg y Brifysgol yn ei bwysleisio, ac fel y tystiodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd hefyd yn dilyn Adolygiad Gwella Ansawdd yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd yr adolygiad hwnnw gymeradwyaeth benodol "i'r graddau y mae'r Gymraeg a dwyieithrwydd wedi eu hymwreiddio'n ddwfn yn niwylliant y Brifysgol, a hynny'n amlwg er budd y staff a'r myfyrwyr i gyd".

Wrth gwrs, dydy rhagoriaeth o'r fath ddim yn digwydd heb gynllunio a gweithredu parhaus, ac yn hynny o beth, mae Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg yn sicrhau bod nifer o gamau ymarferol yn cael eu cymryd yn flynyddol i greu sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n rhoi bri ar y Gymraeg. Mae'r camau hyn yn sicrhau cyfleoedd astudio drwy'r Gymraeg i'n myfyrwyr ar draws pob maes astudio yn ogystal â rhoi cyfle i'n holl staff a myfyrwyr ymwneud yn gadarnhaol â'r Gymraeg a theimlo perchnogaeth dros ei lle allweddol ym mywyd y Brifysgol.

Gyda lansio Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a'r addewid i sicrhau gofal iechyd dwyieithog ar gyfer y rhanbarth, aethpwyd ati i ofalu bod hyfforddiant iaith ac addysg ymwybyddiaeth iaith yn rhan o'r arlwy i bob un myfyriwr. Datblygwyd y cwrs 'Mwy na Geiriau - y Gymraeg fel sgil glinigol' gan diwtoriaid arbenigol ac arweinwyr polisi yng Nghanolfan Bedwyr, mewn cydweithrediad â staff clinigol a staff cymorth yn yr Ysgol Feddygol. Cyflwynwyd y cwrs ar lefelau Blasu, Canolradd a Hyfedredd i gefnogi polisi 'Mwy na geiriau' Llywodraeth Cymru wrth ymgorffori'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal â gwersi iaith, darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r myfyrwyr, er mwyn rhoi dealltwriaeth lawn iddynt o'r dirwedd ieithyddol y byddan nhw'n gweithio ynddi.

Cafodd pwysigrwydd y Gymraeg ar gyfer byd gwaith ei bwysleisio hefyd mewn cyfres o bodlediadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn o dan y teitl 'Bangor Be Wedyn?' Dros bum pennod, bu cyn-fyfyrwyr Prifysgol Bangor, yn cynnwys y newyddiadurwr, Liam Evans, a'r cyflwynydd pêl-droed, Sioned Dafydd, yn rhannu sut y maen nhw wedi elwa yn eu gyrfaoedd o astudio drwy'r Gymraeg ym Mangor. Dyma neges a gafodd ei hatgyfnerthu mewn digwyddiad 'Dathlu Dwyieithrwydd' yn ystod 'Wythnos fy Ngyrfa Raddedig' ym mis Hydref ac eto yn y 'Ffair Swyddi Cymraeg' a gynhaliwyd ym mis Mawrth a'i threfnu a'i harwain gan fyfyrwyr.

Mae staff y Brifysgol yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldeb parhaus i wella profiad addysgu a dysgu eu myfyrwyr a'u darpar fyfyrwyr. Yn achos myfyrwyr Cymraeg, y mae hynny'n aml yn golygu annerch y bylchau mewn deunyddiau trwy greu adnoddau hygyrch a chyfoes. Gyda golwg ar hynny, neilltuodd Yr Athro Jerry Hunter ar y cyd â'r Athro Richard Wyn Jones o

Brifysgol Caerdydd gyfres arbennig o'u podlediad poblogaidd 'Yr Hen laith' i fynd i'r afael mewn dull hwyliog a difyr â thestunau sydd ar faes llafur lefel A Cymraeg.

Mae'r Brifysgol hefyd yn ymwybodol iawn o'i chyfrifoldeb i gyfrannu at ffyniant y Gymraeg yn y gymuned yn ehangach, ac mae hanes hir yn y Brifysgol o ddatblygu adnoddau er budd sefydliadau a gweithleoedd eraill. O dan nawdd cronfa ARFOR, cafodd Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog, a ddatblygwyd gan dîm o'r Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas, ei lansio mewn digwyddiad a fynychwyd gan hyd at 100 o gyflogwyr ac ymarferwyr o bob rhan o Gymru. Diolch i'r un gronfa, llwyddodd Canolfan Bedwyr i ddatblygu ap i newid arferion iaith mewn gweithleoedd, yn seiliedig ar y project newid ymddygiad, ARFer.

Wrth fwrw golwg yn ôl dros hanes y Brifysgol, mae cyfraniad staff unigol i lenyddiaeth Gymraeg yn un na ellir ei anwybyddu, gydag enwau fel R. Williams Parry, Gwyn Thomas ac Angharad Price yn ffurfio llinach anrhydeddus iawn. Addas iawn felly ym mlwyddyn y dathlu oedd gweld y traddodiad hwnnw yn parhau gydag aelod o Dîm y We yn y brifysgol, Gwenno Gwilym, yn cipio'r wobr Ffuglen Gymraeg yng ngwobrau Llyfr y Flwyddyn am ei nofel gyntaf, V + Fo.

EFFAITH ECONOMAIDD, CYMDEITHASOL A DINESIG

Mae Prifysgol Bangor yn dangos ymrwymiad cryf a chynaliadwy i ymgysylltu cymunedol, ymgysylltu dinesig ac ymgysylltu economaidd trwy raglen eang o fentrau sy'n cysylltu myfyrwyr, staff a chymunedau ledled gogledd Cymru.

Roedd pen-blwydd y Brifysgol yn 140 oed yn 2024 yn gyfle gwerthfawr i ddathlu llwyddiannau a rennir gyda'r gymuned ehangach. Daeth y flwyddyn i ben gyda chyngerdd arbennig yn Theatr Bryn Terfel, Pontio yn cynnwys Syr Bryn Terfel ei hun ac artistiaid gwadd, gan nodi 140 mlynedd o addysg, cydweithio a chyfraniad diwylliannol.

Mae Cronfa Gymunedol Prifysgol Bangor yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi partneriaethau â sefydliadau cymunedol, ysgolion a grwpiau lleol trwy brojectau sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Yn ystod yr alwad gyllido ddiweddaraf, cefnogwyd pedwar project newydd, gan ddod â chyfanswm y mentrau a ariannwyd drwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) i ddau ar hugain.

Derbyniwyd ceisiadau o bob cwr o'r Brifysgol, gan ddangos awydd cryf i gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid allanol, a chyfrannu'n gadarnhaol at lesiant cymunedol. Mae'r projectau llwyddiannus gyda'i gilydd yn canolbwyntio ar themâu grymuso ieuenctid, creadigrwydd, cynaliadwyedd a threftadaeth leol.

Mae gweithgareddau'n cynnwys rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn trafodaethau am iechyd cyhoeddus a hinsawdd, meithrin sgiliau a hyder trwy gyfryngau creadigol, cefnogi mentrau gwledig cynaliadwy, a chryfhau hunaniaeth gymunedol trwy ymgysylltu â threftadaeth. Mae'r mentrau hyn yn enghraifft o Strategaeth Ymgysylltu Dinesig y Brifysgol sy'n ceisio alinio ymchwil ac addysgu ag anghenion a dyheadau cymunedau lleol.

Drwy'r projectau hyn, mae staff a myfyrwyr yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion, mentrau cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol i gyd-ddatblygu atebion i heriau rhanbarthol. Mae'r pwyslais ar effaith ymarferol—boed yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth, cefnogi arloesedd gwledig, neu feithrin cysylltiadau cryfach rhwng cymunedau a'u treftadaeth ddiwylliannol. Mae mentrau dan arweiniad myfyrwyr megis y Project Prydau Poeth a'r Ardd Iachau hefyd yn parhau i wneud gwahaniaeth pendant, gan ddarparu cefnogaeth ymarferol i aelodau'r gymuned sy'n agored i niwed neu'n ynysig, a chynnig cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ddatblygu profiad o arweinyddiaeth, gwirfoddoli a rheoli projectau.

Mae Pontio, sef Canolfan Gelfyddydau'r Brifysgol, yn parhau i fod yn gonglfaen bywyd diwylliannol yng ngogledd Cymru, gan gynnig amrywiaeth eang o gelfyddydau a chyfleoedd i ymgysylltu'n greadigol trwy ddigwyddiadau theatr, dawns a cherddoriaeth yn ogystal â gweithdai ieuenctid a gyflwynir trwy'r rhaglen BLAS. Yn ogystal, parhaodd 2024/25 i fod yn flwyddyn gadarnhaol i'r Brifysgol gyda rhaglen brysur o ddarlithoedd cyhoeddus a digwyddiadau corfforaethol.

Yng Ngardd Fotaneg Treborth, mae Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd gwerth £250,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o adfer ac adfywio cynefinoedd coetiroedd. Mae'r project yn gwella hygyrchedd a dysgu trwy weithdai, hyfforddiant a gweithgareddau cadwraeth dan arweiniad y gymuned, gan sicrhau bod Treborth yn parhau i fod yn ganolfan sy'n cael ei harwain gan wirfoddolwyr ar gyfer llesiant, bioamrywiaeth ac addysg amgylcheddol. Bydd y cyllid hefyd yn galluogi Treborth i ddod yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru, gan atgyfnerthu ei rôl fel canolfan ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar natur ac ymgysylltu cymunedol cynaliadwy.

Mae M-SParc, parc gwyddoniaeth y Brifysgol, yn parhau i sbarduno arloesedd, addysg STEM, a thwf economaidd cynaliadwy. Drwy fentrau megis cynhadledd arloesi digidol Digidol 24, gweithdai STEM Clwb Sparci, Llyfrgell o Bethau sy'n hyrwyddo economi gylchol, a gweithgareddau Gofod Gwneuthurwyr

sy'n canolbwyntio ar dechnolegau gwyrdd a chreadigrwydd, mae M-SParc yn cefnogi menter, datblygu sgiliau ac adfywio cymunedol. Mae ei hyb #ArYLôn ar Stryd Fawr Bangor yn ymestyn yr effaith hon ymhellach trwy hyrwyddo arloesedd ac entrepreneuriaeth yng nghanol y ddinas.

Mae Prifysgol Bangor hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam yn 2025, gan arddangos ymchwil, creadigrwydd a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn atgyfnerthu cysylltiadau rhanbarthol cryf y Brifysgol a'i rôl wrth gefnogi llesiant diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd ledled gogledd Cymru.

Cryfhau Ymchwil gydag Effaith Ddinesig

Mae Cronfa Fwrsariaeth newydd i Fyfyrwyr, a lansiwyd mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Bangor, yn cefnogi ymchwil academaidd sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad ac uchelgais strategol y ddinas. Mae'r gronfa'n cynnig grantiau hyd at £1,000 i fyfyrwyr israddedig ac ôl-radd y mae eu gwaith yn dangos manteision pendant i'r ardal leol. Yn ogystal â chefnogaeth ariannol, mae'r sawl sy'n derbyn grant yn cael cyfleoedd i gydweithio â rhanddeiliaid dinesig a defnyddio eu hymchwil i fynd i'r afael â heriau yn y byd go iawn. Mae'r ymgeisydd sy'n sgorio uchaf hefyd yn derbyn cyllid cyfatebol gan barc gwyddoniaeth y Brifysgol, M-SParc, gan annog arloesedd ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Mae'r bartneriaeth hon rhwng Cyngor Dinas Bangor, Prifysgol Bangor, Undeb y Myfyrwyr ac M-SParc yn enghraifft o genhadaeth ddinesig y Brifysgol, gan gysylltu dysgu, ymchwil ac arloesi ag anghenion lleol i gynhyrchu effaith gymdeithasol ystyrlon, ac yn parhau â'r berthynas gref rhwng y brifysgol a'r ddinas, gan annog ymchwil sy'n fuddiol i'r gymuned leol a'r rhanbarth.

YMGYSYLLTU BYD-EANG

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cymerodd Prifysgol Bangor gamau breision i wella'r ymgysylltiad byd-eang, a rhoi pwyslais ar gydweithio a chynaliadwyedd er lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Caiff hynny ei arwain gan egwyddorion amlieithog ac amlddiwylliannol. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i feithrin cysylltiadau ystyrlon yn lleol ac yn fyd-eang.

Lansiodd Prifysgol Bangor ei Strategaeth Ymgysylltu Byd-eang yn gynharach eleni a'i nod yw diffinio uchelgais y Brifysgol dros y degawd nesaf. Un o nodau canolog y strategaeth yw archwilio cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid byd-eang i drawsnewid bywydau a chyfrannu at ddatblygu cymdeithasol ac economaidd. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod ymdrechion byd-eang y Brifysgol mewn addysg ac ymchwil yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor, gan gwmpasu elfennau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae ymgysylltu byd-eang hefyd yn cynnig llwybrau i fynd i'r afael â heriau byd-eang hollbwysig, megis newid amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd, a hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol. Mae ymchwil ryngwladol gydweithredol yn helaethu effaith a chyrhaeddiad gwaith academaidd. Mae tystiolaeth yn dangos bod cyhoeddiadau a gyd-awdurwyd yn fyd-eang yn aml yn fwy dylanwadol o lawer nag ymdrechion cenedlaethol.

Sicrhaodd yr ymrwymiad hwnnw i ymgysylltu'n fyd-eang ganlyniadau diriaethol eisoes. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu Prifysgol Bangor yn dathlu'r graddau a ddyfarnwyd i'r myfyrwyr a fu'n astudio drwy bartneriaethau rhyngwladol. Cynhaliwyd y seremonïau graddio yn Tsieina, Tashkent, Singapore, a Bahrain. Mae'r llwyddiannau hynny'n tanlinellu ansawdd uchel yr addysg a ddarperir trwy raglenni trawswladol ac maent yn amlygu ymroddiad y Brifysgol i feithrin cymuned academaidd sydd â chysylltiadau byd-eang.

Mae cymuned ryngwladol Bangor ar y campws yn parhau i gyfoethogi bywyd y Brifysgol. Mae myfyrwyr o fwy nag 80 o wledydd yn dewis astudio ym Mangor, gan gyfrannu at amgylchedd bywiog, amrywiol a chynhwysol. Mae'r amrywiaeth eang o glybiau a chymdeithasau rhyngwladol, ynghyd â digwyddiadau megis y Gala Ryngwladol flynyddol yn dathlu cyfnewid diwylliannol ac yn meithrin cysylltiadau gydol oes rhwng myfyrwyr o bob cwr o'r byd. Mae'r gymuned fyd-eang hon yn chwarae rhan bwysig wrth lunio hunaniaeth Bangor fel prifysgol groesawgar ac eangfrydig.

Mae ymdrechion Prifysgol Bangor i ymgysylltu'n fyd-eang yn parhau i adeiladu sylfaen i fynd i'r afael â'r heriau byd-eang cyffredin a chreu cyfleoedd o ran arloesi a chynnydd. Trwy feithrin cydweithio dros ffiniau, mae'r Brifysgol yn sicrhau bod ei heffaith yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r ffiniau daearyddol, a chyfoethogi bywydau a chyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

Myfyrwyr o dros

80

o genhedloedd gwahanol

EIN POBL

Mae Ein Pobl yn un o dair colofn strategol y Brifysgol ac yn ganolog i'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd iach, bywiog a chynhwysol lle gall pob aelod o'n cymuned ffynnu.

Mae'r ymrwymiad hwn wedi parhau i arwain ein gweithredoedd a'n penderfyniadau wrth i ni gryfhau'r ffyrdd rydym yn cefnogi, yn dathlu ac yn buddsoddi yn ein cymuned o staff.

Yn 2024, roeddem yn falch o ennill Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hil, carreg filltir arwyddocaol sy'n cydnabod ein cynnydd o ran deall a mynd i'r afael â'r heriau y mae ein staff a'n myfyrwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn eu hwynebu. Mae gwobr y Siarter Cydraddoldeb Hil, a ddyfernir gan Advance HE, yn darparu fframwaith trylwyr ar gyfer gwella cynrychiolaeth, profiad, dilyniant a llwyddiant grwpiau ethnig leiafrifol.

Mae derbyn y Wobr Efydd hon yn adlewyrchu ymroddiad a gwaith caled ein staff a'n myfyrwyr ac yn dangos ein hymrwymiad sefydliadol i hyrwyddo cydraddoldeb hil. Mae Cynllun Gweithredu Hil pum mlynedd cynhwysfawr yn cyd-fynd â hyn, sy'n nodi blaenoriaethau clir i barhau i ysgogi'r gwaith pwysig hwn.

Mae ein hymrwymiad i lesiant staff ac i gynaliadwyedd amgylcheddol hefyd wedi'i gryfhau trwy ein cyfranogiad yn Siarter Teithio Iach Gwynedd ac Ynys Môn. Drwy ymuno â phartneriaid yn y sector cyhoeddus megis Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, a Chyfoeth Naturiol Cymru, rydym wedi addo hyrwyddo ffyrdd iachach a mwy cynaliadwy o deithio. Mae annog staff ac ymwelwyr i gerdded, beicio, neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus nid yn unig yn cefnogi llesiant unigol ond hefyd yn cyfrannu at ein hymdrechion ar y cyd i leihau allyriadau carbon ac adeiladu dyfodol mwy cynaliadwy.

Daeth y cyfnod hwn hefyd â newid sefydliadol sylweddol, gan ei gwneud yn ofynnol i gydweithwyr ar draws y Brifysgol addasu ac ailflaenoriaethu. Trwy gydol y cyfnod hwn, rydym wedi rhoi pwyslais cryf ar gyfathrebu, tosturi, a mynediad at gefnogaeth. Mae ein Hyrwyddwyr Llesiant Staff a'n Cymhellwyr Llesiant wedi parhau i chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo arferion iach a darparu cefnogaeth un-i-un i gydweithwyr.

Roedd cefnogaeth broffesiynol hefyd yn parhau i fod ar gael yn hawdd drwy'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr (Vivup), a oedd yn cynnig cyngor a chwnsela cyfrinachol ar gyfer amrywiaeth eang o faterion.

Roedd dysgu a datblygu hefyd yn parhau i fod yn rhan allweddol o ymgorffori diwylliant o lesiant ar draws y Brifysgol. Mae cyrsiau megis "i-act" a Deall Eich Hun ac Eraill wedi helpu cydweithwyr i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi ei gilydd. Diolch i gyllid MEDR, roeddem hefyd yn gallu ehangu ein cynnig llesiant drwy fentrau newydd, gan gynnwys cwnsela dwyieithog, sesiynau llesiant ariannol, e-ddysgu am straen a chwythu plwc, a ffair llesiant y campws – a chafodd pob un ohonynt groeso da gan aelodau staff.

Gan edrych ymlaen, rydym yn adeiladu ar y sylfaen gref hon drwy greu ffrwd waith newydd ar gyfer colofn strategol 'Ein Pobl', a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar forâl, llwyth gwaith a llesiant. Bydd y gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein ffyrdd o weithio yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn gefnogol, ac yn cyd-fynd ag anghenion ein cymuned o staff.

Mae ein pobl yn parhau i fod wrth wraidd llwyddiant Prifysgol Bangor. Gyda'n gilydd, rydym yn llunio diwylliant lle mae pob aelod o'n cymuned yn teimlo'n werthfawr, yn cael eu cefnogi, ac yn cael eu grymuso i gyflawni eu gorau.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Uchafbwyntiau

	2024/25	2023/24
Incwm	£157.930 miliwn	£170.118 miliwn
Twf incwm	-7%	-4%
Gwarged / (diffyg) cyn treth (fel % o incwm)	(£18.290) miliwn (-12%)	£29.483 miliwn (17%)
(Diffyg) ac eithrio symudiadau pensiwn USS (fel % o incwm)	(£18.290) miliwn (-12%)	(£13.367) miliwn (-8%)
(Diffyg) ac eithrio costau ailstrwythuro (fel % o incwm)	(£13.285) miliwn (-8%)	(£13.039) miliwn (-8%)
Llif arian gweithredol o weithgareddau gweithredu (fel % o incwm)	(£3,888) miliwn (-2%)	£5.728 miliwn (3%))
Gwariant cyfalaf	£9.355 miliwn	£8.107 miliwn
Arian parod diwedd blwyddyn a buddsoddiadau tymor byr	£15.824 miliwn	£33.480 miliwn

Trosolwg

Roedd 2024/25 yn flwyddyn heriol iawn i'r Brifysgol. Cawsom ostyngiad mawr ym mewnlif myfyrwyr rhyngwladol drwy gydol y flwyddyn oherwydd newidiadau i system fisa myfyrwyr y Deyrnas Unedig. Cawsom ostyngiad hefyd yn ein mewnlif cartref wrth i ni weld mwy o fyfyrwyr yn cael eu recriwtio i brifysgolion tariff uchel gan arwain at gyfran lai o'r farchnad i brifysgolion tariff canolig. O ganlyniad i'r amgylchedd hwn, £157.930 miliwn oedd ein hincwm yn 2024/25, gostyngiad o dros 7% ar y flwyddyn flaenorol.

Roedd ein hymateb i'r heriau hyn yn cynnwys camau gweithredu tymor byr i leihau ein costau drwy ohirio gweithredu'r dyfarniad cyflog cenedlaethol, cyflwyno cynllun diswyddo gwirfoddol, lleihau gwariant ac eithrio cyflogau a gwariant cyfalaf. Er mwyn ailosod ein gwariant yn y tymor hwy, rydym wedi cwblhau rhaglen ailstrwythuro sydd wedi cyflawni arbedion o tua £15 miliwn.

Rydym hefyd wedi rhoi ffocws cryf iawn ar reoli ein balansau arian parod yn ystod y flwyddyn, ac mae rhagolygon manwl ar waith ac mae rhagamcaniadau o'r dyfodol yn cael eu cadw'n gyfredol. Bu gostyngiad yn ein balans arian parod i £15.8 miliwn ar 31 Gorffennaf 2025. Mae gennym gyfleuster credyd cylchol sy'n werth £25 miliwn ar waith. Hyd at adeg llofnodi'r datganiadau ariannol, nid ydym wedi defnyddio'r cyfleuster credyd cylchol eto.

Bydd 2025/26 yn parhau i fod yn flwyddyn heriol. Rydym wedi cyllidebu ar gyfer diffyg gweithredol fel rhan o'r llwybr i symud yn ôl i fod â gwarged o 2026/27 ymlaen. Mae ein recriwtio myfyrwyr yn nhymor yr hydref wedi bod yn agos at y gyllideb, a byddwn yn defnyddio 2025/26 fel blwyddyn allweddol i ailosod ein strategaeth. Ymatebwyd i effaith y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol y llynedd drwy ailosod y sylfaen gostau a oedd yn cynnwys gostyngiad mewn cyflogau o £15m. Mae'r ymarfer ailstrwythuro bellach wedi'i gwblhau, ac rydym bellach yn cynllunio perfformiad cryfach er mwyn sicrhau sefyllfa fwy cynaliadwy yn y tymor hwy.

Perfformiad gweithredu

Daw ein hincwm o sawl ffynhonnell fel y dengys y siart isod..

Cyfanswm incwm £157.930 miliwn



Gostyngodd cyfanswm incwm ffioedd dysgu gan bron i 11% yn 2024/25, gyda ffioedd cartref a ffioedd rhyngwladol i lawr 3% a 25% yn y drefn honno. Mae recriwtio myfyrwyr yn parhau i fod yn farchnad gystadleuol iawn, heb unrhyw gap ar niferoedd ym mhrifysgolion Cymru na Lloegr. Mae cynllun ffioedd wedi'i gytuno gan MEDR sy'n cynnwys ffi o £9,535 ar gyfer israddedigion cartref a TAR a fydd yn dod i rym o 2025/26 ymlaen. Mae'r cynllun ffioedd yn cynnwys buddsoddiadau cynyddol i gefnogi ehangu mynediad, profiad myfyrwyr, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyflogadwyedd, gan gynnwys cefnogi mynediad i glybiau chwaraeon, cymdeithasau a gweithgareddau gwirfoddoli yn undeb y myfyrwyr, a gwell darpariaeth llyfrgell a chwaraeon.

Bu mymryn o ostyngiad yn y portffolio o grantiau a chontractau ymchwil yn ystod y flwyddyn gydag incwm yn gostwng gan 1.5%. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y gostyngiad parhaus yng nghyllid Llywodraeth yr Undeb Ewropeaidd a ostyngodd o £2.7 miliwn yn 2023/24 i £0.259 miliwn yn 2024/25. Mae ariannu gweithgarwch a arferai gael ei ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd yn her sylweddol ers BREXIT.

Mae'r gymhareb rhwng costau a chyflogau wedi cynyddu o 58% o incwm i 60% yn 2024/25 (ac eithrio costau diswyddiadau gwirfoddol) a bwriad y camau sydd nawr ar y gweill yw dod â'r gymhareb hon yn ôl i lefel gynaliadwy.

Mae'r datganiad sefyllfa ariannol yn dangos gostyngiad mewn asedau net o £235.862 miliwn ar 31 Gorffennaf 2024 i £219.307 miliwn ar 31 Gorffennaf 2025. Y prif newid rhwng y ddwy flynedd oedd y gostyngiad mewn arian parod o £33.48 miliwn i £15.82 miliwn.

Y llif arian o weithgareddau gweithredu yn ystod y flwyddyn oedd £3.888 miliwn negatif yn dilyn effaith y perfformiad yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys costau pecynnau diswyddo gwirfoddol a dalwyd fel rhan o'r rhaglen ailstrwythuro. Heb y costau untro hynny byddai ein llif arian gweithredol wedi bod yn bositif. Rydym yn targedu lefel uwch o gynhyrchu arian parod gweithredol er mwyn ariannu'r cynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol.

Niferoedd myfyrwyr

Yn 2024-25, roedd gennym 9,875 o fyfyrwyr yn astudio gyda ni. Roedd hyn yn ostyngiad o tua 8% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd ymrestriadau rhyngwladol wedi gostwng gan tua 24% o gymharu â'r llynedd, gyda myfyrwyr rhan amser yn cynyddu mymryn ac yn parhau i fod dros 1,600 o fyfyrwyr. Dosbarthiad y myfyrwyr* yn 2024-25 oedd:



** Data cyfrifiad myfyrwyr ar 1 Tachwedd, gydag addasiadau pellach mewn perthynas â chofrestriadau semester 2.*

Buddsoddiadau Cyfalaf

Mae ein strategaeth ystadau'n parhau i gael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod gennym y capasiti a'r gallu i ddarparu'n effeithiol ar gyfer ystod eang o weithgarwch addysgu ac ymchwil ar draws portffolio eang o ddisgyblaethau.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni gwblhau'r project i ailgynllunio Parc y Coleg. Mae hyn wedi creu gofod mwy croesawgar i'w rannu â'r gymuned gyfan ac mae bellach yn cysylltu â Pontio. Gwnaed buddsoddiadau sylweddol mewn offer hefyd yn ein Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol i gynyddu gallu ymchwil yn y maes amgylcheddol. Prynodd y Brifysgol hen adeilad Ysgol Friars a chaiff ei ailddatblygu i greu ysgol fusnes newydd o'r enw Ysgol Fusnes Albert Gubay. Mae hyn yn dilyn rhodd o £10.5 miliwn gan Sefydliad Elusennol Albert Gubay.

Parhaodd y Brifysgol â'i buddsoddiadau mewn isadeiledd digidol trwy gwblhau project i uwchraddio'r holl gapasiti diwifr ar y campws.

Prif risgiau ac ansicrwydd

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod yna risgiau ac ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig â sawl agwedd ar ei gweithrediadau. Ei nod yw adnabod, rheoli a lliniaru'r risgiau hynny lle bynnag y bo modd a hyrwyddo diwylliant o reoli risg drwy'r Brifysgol gyfan. Mae'r gofrestr risg sefydliadol yn cael ei hadolygu'n ffurfiol gan y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Cyngor yn rheolaidd.

Y risgiau lefel uchel allweddol sy'n bodoli i'r Brifysgol yw:

Maes Risg	Disgrifiad o'r Risg	Dull o Liniaru'r Risg
Ymchwil	Bod y Brifysgol yn methu â gwella ansawdd yr ymchwil ac yn colli cyllid ymchwil	Mae'r Pwyllgor Ymchwil yn monitro ansawdd ac effaith yr ymchwil drwy adolygiadau blynyddol. Caiff academyddion eu cefnogi trwy gael cymheiriaid i adolygu ceisiadau am grantiau, a thrwy'r rhwydwaith o ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a rowndiau cynllunio blynyddol â ffocws iddynt. Mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil drwy sefydliadau ymchwil y colegau a'r system wybodaeth PURE a gafodd ei chyflwyno'n ddiweddar yn darparu cefnogaeth ychwanegol. Adroddir ar gyllid ymchwil i'r Bwrdd Gweithredol, i'r Pwyllgor Cyllid ac i'r Cyngor fel rhan o'r pecyn adrodd ariannol.
Pobl	Bod y Brifysgol yn methu â gwella morâl staff ac effaith hynny ar weithrediadau	Mae gan y Brifysgol ystod o bolisïau ac offer i gefnogi mentrau ym meysydd hyfforddiant, datblygiad, mentora a llesiant, ynghyd â chynrychiolwyr iechyd galwedigaethol. Caiff newyddlen wythnosol ei chynhyrchu a cheir sesiynau briffio ar y campws gan yr ls-ganghellor a'r uwch dîm arweinyddiaeth.
Gwytnwch Ariannol	Bod y Brifysgol yn methu â sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig i'r tymor hir	Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu dull o welliant parhaus yn ei phrosesau a'i systemau busnes. Mae'r broses gynllunio flynyddol yn llywio'r gwaith o lunio rhagolygon ariannol a phennu cyllidebau sy'n cyd-fynd â recriwtio myfyrwyr ac effeithiau allanol grymoedd y farchnad. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd hwn ar dybiaethau incwm yn modelu ac yn llywio camau rheoli effeithiol ar gyfer lleihau costau.
Marchnata a Recriwtio	Bod y Brifysgol yn methu â recriwtio niferoedd y myfyrwyr a nodir yn y rhagolygon ariannol yn nhermau myfyrwyr cartref a myfyrwyr rhyngwladol.	Rydym yn monitro aliniad y strategaeth drwy'r Pwyllgor Marchnata a Recriwtio i sicrhau bod y cyrsiau'n briodol ar gyfer y galw yn y farchnad. Rydym hefyd yn cynnal perthnasoedd masnachol da gydag asiantau a phartneriaid rhyngwladol, a datblygu partneriaethau byd-eang newydd gyda sefydliadau tramor a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n effeithiol.
Brand ac Enw Da	Bod y Brifysgol ddim yn cyfleu ei brand, ei delwedd a'i henw da	Mae'r Brifysgol yn cynnal presenoldeb cryf ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cyfathrebu a llwyddiannau. Mae'n gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr ar bob pwyllgor, grŵp cyflawni a Bwrdd perthnasol.
Isadeiledd Ffisegol a Digidol	Bod y Brifysgol yn methu ag amddiffyn rhag bygythiadau seiberddiogelwch ac yn methu â chynnal/gwella cyflwr yr ystad	Mae gan y Brifysgol drefniadau seiberddiogelwch wedi eu canoli a gweithdrefnau rheoli mynediad sydd wedi'u harchwilio gogyfer â data personol/sensitif. Mae'n cynnal profion treiddiad seiberddiogelwch yn rheolaidd, ynghyd â hyfforddiant gorfodol blynyddol i staff, ac mae dilysiad dau ffactor ar gyfer rhaglenni Microsoft Office 365. Defnyddir System Rheoli Asedau i fonitro cyflwr yr ystad ac i weithredu mesurau ataliol pan fo angen.
Cyllid	Effaith newidiadau ym Mholisi Addysgu Uwch a chyfundrefnau ariannu Llywodraeth Cymru	Rydym hefyd yn cynnal perthynas agos â gwleidyddion, cyllidwyr, rheoleiddwyr a chyrff comisiynu. Mae prosesau ar waith i fodelu senarios i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau fel rhan o'r prosesau cynllunio blynyddol.

Prif risgiau ac ansicrwydd

Neilltuir pob risg i aelod o'r Bwrdd Gweithredol fel perchennog risg ac i uwch gydweithiwr arall fel arweinydd risg. Mae achos ac effaith pob risg yn cael ei sgorio i roi sgôr gynhenid. Yna mae'r broses risg yn ystyried llinell gyntaf, ail linell a thrydedd llinell y camau rheoli cyn nodi sgôr weddilliol a chamau gweithredu clir i liniaru neu reoli'r risg. Mae'r Cyngor wedi adolygu'r rhagolygon ariannol a'r ffactorau allweddol sy'n cefnogi Cynllun Strategol y Brifysgol. Maent wedi cael eu profi yn erbyn amrywiol senarios, gan gynnwys senarios ochr waethaf, sy'n dangos bod gan y Brifysgol fynediad at adnoddau digonol i barhau i gyflawni ei rhwymedigaethau hyd y gellir rhagweld.

Cynlluniau pensiwn

Roedd y Brifysgol yn gweithredu tri phrif gynllun pensiwn yn ystod y flwyddyn. Mae staff ar raddfa 7 ac uwch wedi'u cynnwys yng nghynllun pensiwn yr USS. Mae staff ar raddau 1-6 yn cael eu cynnwys yn awtomatig yng Nghynllun NEST, sef cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio, ac mae ganddynt yr opsiwn i ymuno â BUPAS, sef cynllun â buddion wedi'u diffinio.

Tua 0.5% o aelodaeth weithredol cynllun pensiwn yr USS sydd gennym ni ac mae'n agwedd bwysig ar ein sefyllfa ariannol. Gan fod y cynllun mewn gwarged, nid oes gennym bellach rwymedigaeth ar ein mantolen mewn perthynas â rhwymedigaethau'r USS ac mae ein taliadau blynyddol i'r USS ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwr yn £7.91 miliwn.

Roedd gan yr USS warged o £7.4 biliwn ar 31 Mawrth 2023 ac mae 20.6% o gyfanswm y cyfraniadau bellach yn cael eu talu i ariannu gwasanaeth yn y dyfodol. 6.1% sy'n daladwy gan aelodau a 14.5% gan y cyflogwyr.

Cynllun â buddion wedi'u diffinio ac sy'n cael ei weithredu gan y Brifysgol yw BUPAS. Ar sail Safon Adrodd Ariannol 102 roedd gan y cynllun asedau o £108.499 miliwn a rhwymedigaethau o £100.989 miliwn ar 31 Gorffennaf 2025 ac felly mae gwarged o £7.51 miliwn a gydnabyddir yn Natganiad Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Gwnaethpwyd prisiad actiwaraidd ar y cynllun ar 31 Gorffennaf 2023 a daethpwyd i gytundeb i leihau cyfraniadau'r Brifysgol fel cyflogwr i 12.5% ar gyfer y cylch prisio hwn o 1 Awst 24.

Cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yw NEST lle mae aelodau'n talu 5% o'u cyflog a'r Brifysgol yn talu 3%. Mae'r Brifysgol wedi cyflwyno cynllun newydd â chyfraniadau wedi eu diffinio ers 1 Awst 2025 ar gyfer yr holl staff ar raddau 1-6.

Ers 1 Awst 2025 rydym wedi cyflwyno cynllun newydd â chyfraniadau wedi'u diffinio i'r rhan fwyaf o staff ar raddfeydd 1-6 a hynny ar delerau mwy hael.

Cronfeydd gwaddoledig

Mae gan y Brifysgol nifer o gronfeydd yn deillio o gymynroddion a rhoddion eraill, sy'n cael eu cydnabod yn y cyfrifon hyn fel naill ai gwaddolion neu roddion gyda neu heb gyfyngiadau. Bu'r cronfeydd hyn yn cael eu buddsoddi ar sail gyfun a'u rheoli gan UBS yn unol â pholisi buddsoddi cynaliadwy'r Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd gwerth y cronfeydd gan £672,000 ochr yn ochr ag incwm o £340,000 a gwaddolion newydd o £136,000. Cyfanswm gwerth y cronfeydd gwaddol ar 31 Gorffennaf 2025 oedd £10.113 miliwn, gan gynnwys incwm cronedig o £2.097 miliwn.

Rhagolygon a busnes hyfyw

Mae gweithgarwch y Grŵp a'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ddatblygiad, perfformiad, sefyllfa ariannol, llifoedd arian, hylifedd a chyfleusterau benthyca, i'r dyfodol wedi'u nodi yn yr Adolygiad Strategol sy'n rhan o'r Adolygiad Blynyddol.

Mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn cyflawni'r gofynion sydd arnynt o ran cyfalaf gweithio o ddydd i ddydd drwy falansau arian parod anghyfyngedig presennol, sy'n ddigonol i gwrdd â rhwymedigaethau fel y dônt yn ddyledus hyd y gellir rhagweld. Mae gan y Brifysgol gyfleuster credyd cylchol gwerth £25 miliwn.

Aeth y Grŵp ati i ailstrwythuro'n sylweddol yn 2024/25 gyda'r nod o leihau cyflogau gan £15 miliwn. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau ynghyd â chyflawni gostyngiad yn y costau gweithredu ac eithrio cyflogau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi paratoi rhagolygon manwl am lif arian ar gyfer 2025/26 a 2026/27. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r Cyngor o'r farn, o ystyried risgiau anfantais difrifol ond credadwy, y bydd gan y Grŵp a'r Brifysgol ddigon o arian i gyflawni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes hyfyw).

Rydym wedi asesu nifer o senarios gan amcangyfrif effeithiau ariannol amrywiol y risgiau a wynebir mewn nifer o feysydd, yn enwedig niferoedd myfyrwyr a chynhyrchu incwm ffioedd ynghyd ag incwm neuaddau ac incwm masnachol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys asesiad o effaith gredadwy gostyngiadau parhaus mewn recriwtio myfyrwyr.

Mae gan y Brifysgol gyllideb ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar y sefyllfa o ran recriwtio myfyrwyr, ynghyd â rheolaeth dros wariant cyfalaf i gynnal hylifedd. Bydd y Brifysgol yn cadw rheolaeth dros ei chostau cyflog i gyd-fynd â'i metrigau fel canran o drosiant, ynghyd â gostyngiad mewn costau gweithredol ac eithrio cyflogau. Ail-negodwyd ein cyfamodau bancio yn gynharach yn y flwyddyn ac ni ragwelir y cânt eu torri yn ystod y cyfnod yr asesiad busnes hyfyw.

Oherwydd yr adolygiad hwn, mae'r Cyngor o'r farn y gall y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol reoli ei risgiau cyllid a'i risgiau busnes a pharhau i gyflawni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly paratowyd datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

M Riddleston, Prif Swyddog Cyllid

E Hepburn, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

CYNALIADWYEDD

Mae Prifysgol Bangor yn parhau i gryfhau ei safle fel arweinydd byd-eang ym maes cynaliadwyedd, gan alinio ei gweledigaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob agwedd ar ein gweithrediadau, gan gynnwys addysgu ac ymchwil a rheoli'r campws, ymgysylltu cymunedol, a chydweithredu byd-eang.

Er mwyn cyflawni'r genhadaeth hon, rydym yn parhau i reoli ein hadnoddau ariannol, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol, gan sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol y myfyrwyr, y staff, a'r gymuned leol a diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Mae Prifysgol Bangor unwaith eto wedi cael ei chydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ei pherfformiad rhagorol o ran cynaliadwyedd. Yn The Times Higher Education Impact Rankings 2025, a aseswyd yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, roedd Prifysgol Bangor yn gyfartal yn safle 64 yn y byd ac yn y 9fed safle yn y Deyrnas Unedig. Fe'n gosodwyd yn 12fed yn fyd-eang hefyd am 'Ddefnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol' - adlewyrchiad o'n hymrwymiad i hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau.

Yn nhabl cynghrair prifysgolion People & Planet, cadwodd Prifysgol Bangor ei Gwobr Dosbarth Cyntaf nodedig am y chweched flwyddyn yn olynol, gan ei gosod yn 19eg allan o 149 o brifysgolion yn y Deyrnas Unedig, a chodi i'r 2il safle yng Nghymru. Ymhlith y cryfderau nodedig roedd cyrraedd y 9fed safle ar y cyd yn genedlaethol am Reoli Carbon, a pherfformiad cryf ar draws meysydd ymgysylltiad myfyrwyr a staff.

Eleni hefyd, gwelwyd staff a myfyrwyr Prifysgol Bangor yn cymryd rhan yn yr Orymdaith dros Ddŵr Glân yn Llundain - digwyddiad cenedlaethol a drefnwyd gan River Action a'r ymgyrchydd Feargal Sharkey, yn galw am gamau cryfach i fynd i'r afael â llygredd dŵr. Bangor oedd y brifysgol gyntaf i ddod yn gefnogwr swyddogol o'r digwyddiad, gan ymuno â sefydliadau gan gynnwys Surfers Against Sewage, yr RSPB, ac Ymddiriedolaeth yr Afonydd. Gorymdeithiodd staff a myfyrwyr o bob cwr o'r brifysgol, yn gwisgo cotiau labordy wedi eu brandio, i dynnu sylw at arweinyddiaeth wyddonol Prifysgol Bangor ym meysydd monitro ansawdd dŵr ac atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer rheoli llygredd.

Mewn cam arloesol arall tuag at leihau effaith amgylcheddol, Prifysgol Bangor oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i fabwysiadu Ecosia fel ei pheiriant chwilio diofyn. Ecosia yw peiriant chwilio nid-er-elw mwyaf y byd, gan ddefnyddio ei elw i ariannu projectau ailgoedwigo byd-eang. O fewn 12 mis o'i lansio, mae chwiliadau o ddyfeisiau Prifysgol Bangor wedi cyfrannu at blannu dros 15,000 o goed mewn projectau adfer bioamrywiaeth ledled y byd.

Carreg filltir bwysig yn 2025 oedd cwblhau Her Lleihau Carbon 25erbyn25 y Brifysgol yn llwyddiannus - gan gyflawni'r nod o leihau allyriadau carbon deuocsid cyfatebol Bangor (CO_2e) Allyriadau Cwmpas 1 a 2 o 25% o gymharu â blwyddyn waelodlin 2018/19, a hynny o fewn dim ond tair blynedd. Rydym hefyd wedi lleihau ein defnydd o nwy a thrydan dros 20% ers 2018/19. Roedd y targed uchelgeisiol hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhan o gymuned y Brifysgol chwarae rhan mewn newid sut rydym yn defnyddio pŵer a thanwydd, ac yn hyrwyddo gwell rheolaeth ar wastraff a dŵr, er mwyn lleihau pob math o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae cyflawni 25erbyn25 o flaen yr amserlen yn dangos effeithiolrwydd ein dull lleihau carbon ac yn tynnu sylw at arweinyddiaeth Prifysgol Bangor o ran gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn y sector addysg uwch.

Mae'r mentrau hyn yn dangos ymrwymiad Prifysgol Bangor i gyplysu gweithredu lleol ag effaith fyd-eang. Mae ein dull lleihau carbon yn parhau i arwain cynnydd tuag at darged Sero Net Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050, gan ganolbwyntio ar ein tri phrif lwybr allyriadau — yr amgylchedd adeiledig, teithio i'r brifysgol, a'r gadwyn gyflenwi.

Mae ein haddysgu a'n hymchwil hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymiad cryf hwn. Mae llawer o gyrsiau gradd Prifysgol Bangor bellach yn tynnu sylw at Nodau Datblygu Cynaliadwy perthnasol, gan sicrhau bod myfyrwyr yn graddio gyda dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn eu disgyblaeth. Ym maes ymchwil, rydym yn parhau i weithredu Concordat Cynaliadwyedd Amgylcheddol Wellcome, gan wreiddio arferion ymchwil cynaliadwy ar draws pob disgyblaeth.

Trwy'r ymdrechion ar y cyd hyn, mae Prifysgol Bangor yn parhau i fod ar y trywydd iawn i sicrhau dyfodol cynaliadwy - i'n cymuned, i Gymru, ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mae rhagor o wybodaeth am adroddiadau a pholisïau cynaliadwyedd y Brifysgol, sy'n dangos ehangder y gwaith y mae'n ymwneud ag ef, ar gael yma:

https://www.bangor.ac.uk/sustainability/policies-and-strategies.php.cy

UNDEB MYFYRWYR

Cafodd Undeb Bangor, sef Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor, flwyddyn drawsnewidiol, wedi'i harwain gan ymroddiad arweinwyr myfyrwyr, staff a gwirfoddolwyr. Roedd datblygiadau strategol ac ymgyrchoedd ar lawr gwlad yn canolbwyntio ar gryfhau llais y myfyrwyr, meithrin cymunedau cynhwysol, a gwella profiad cyffredinol y myfyrwyr.

Llywodraethu a Chynnydd Strategol

Carreg filltir bwysig oedd datblygu Strategaeth Undeb Bangor 2025–2030, a luniwyd drwy weithdai ac arolygon myfyrwyr. Wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, mae'r strategaeth yn amlinellu pedair thema: Llais Myfyrwyr ac Eiriolaeth, Cymunedau Myfyrwyr, Twf a Datblygiad, a Chynaliadwyedd Sefydliadol. Bydd yn lansio ym mis Medi 2025 gyda chynllun gweithredol ategol.

Cynhaliwyd Adolygiad Democratiaeth i wella'r broses gwneud penderfyniadau, etholiadau ac ymgyrchu. Mae'r newidiadau'n cynnwys proses symlach a chyfleoedd cliriach i fyfyrwyr gymryd rhan.

Parhaodd llywodraethu ac adrodd ariannol i berfformio'n gryf. Cafwyd "Sicrwydd Sylweddol" yn dilyn Archwiliad Llywodraethu Undeb y Myfyrwyr, a chafwyd dim ond un argymhelliad yn deillio o'r Archwiliad Ariannol. Lansiwyd proses i recriwtio Ymddiriedolwyr Myfyrwyr ac Ymddiriedolwyr Allanol newydd i gryfhau amrywiaeth ac arbenigedd y bwrdd.

Llais Myfyrwyr a Chynrychiolaeth

Parhaodd llais myfyrwyr i fod yn ffocws canolog drwy gydol y flwyddyn. Cwblhawyd Adolygiad Cynrychiolwyr Cwrs cynhwysfawr, gan arwain at drawsnewid i fodel cynrychiolaeth ar lefel ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025–26, gyda nifer llai o gynrychiolwyr a gwell strwythurau cefnogi. Nod y system newydd hon yw grymuso myfyrwyr i gyfleu pryderon a dyheadau academaidd yn effeithiol i staff a chymuned ehangach y brifysgol.

Cynhyrchwyd Adroddiadau Mewnwelediad Myfyrwyr, gan ganolbwyntio ar brofiadau myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith. Cyfrannodd yr adroddiadau hynny at waith cynllunio'r brifysgol a nodasant feysydd allweddol i'w gwella.

Denodd yr Etholiadau Swyddogion Sabothol 16 o ymgeiswyr a 1,928 o bleidleisiau, sef canran a bleidleisiodd o 16.7%, sy'n uwch na chyfartaledd y sector. Hwyluswyd hefyd ymatebion dan arweiniad myfyrwyr i Achosion Busnes dros Newid y Brifysgol, gan sicrhau bod pryderon yn ymwneud â darpariaeth academaidd, gwasanaethau cefnogi, cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac addysg cyfrwng Cymraeg wedi'u cynrychioli'n glir.

Cododd Undeb Bangor 24 lle yn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2025, gan gyrraedd safle 22 yn y Deyrnas Unedig a 3ydd yng Nghymru am gynrychioli buddiannau academaidd myfyrwyr, gyda sgôr boddhad o 79%.

Ymgysylltu a Chymunedau Cynhwysol

Bu Undeb Bangor yn parhau i feithrin cymunedau bywiog a chynhwysol o fyfyrwyr drwy gydol 2024–25. Cefnogwyd cyfanswm o 175 o grwpiau dan arweiniad myfyrwyr, yn cynnwys 7,157 o aelodau sy'n fyfyrwyr ar draws clybiau a chymdeithasau, a 1,496 o wirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn projectau gwirfoddoli. Denodd yr Wythnos Groeso a Ffair Groeso Serendipedd ym mis Medi a mis Ionawr dros 8,000 o fynychwyr. Roedd gweithgareddau ymgysylltu ychwanegol yn cynnwys sesiynau Ymlacio a Sgwrsio, yn ogystal â digwyddiadau'r Nadolig a'r Pasg i

fyfyrwyr a oedd yn aros ym Mangor dros y gwyliau, a chroesawodd y digwyddiadau hynny dros 170 o gyfranogwyr.

Cydnabuwyd llwyddiannau myfyrwyr drwy'r Gwobrau Cymdeithasau a Gwirfoddoli, Gwobrau'r Undeb Athletau a Gwobrau'r Uchel Siryf, gan ddathlu llwyddiannau cannoedd o fyfyrwyr. Roedd Varsity 2025 yn cynnwys 45 o ddigwyddiadau a ddenodd dros 1,000 o fynychwyr, gan arwain at nawfed fuddugoliaeth Bangor dros Aberystwyth yn olynol.

Cyflwynwyd Sesiynau'r Haf i gefnogi myfyrwyr yn ystod gwyliau'r haf, gan gynnig gweithgareddau a gwibdeithiau cynhwysol, gyda'r nod o leihau unigedd a chynnal ymgysylltiad. Cefnogwyd y rhaglen hon gan Gronfa Bangor a chyllid Iechyd a Llesiant gan Medr.

Chwaraeodd UMCB ran flaenllaw yn hybu diwylliant Cymru trwy ddigwyddiadau megis yr Eisteddfod Ryng-golegol, digwyddiad Dathlu Hanner Canmlwyddiant Neuadd John Morris-Jones (JMJ), a Gwobrau UMCB. Cyfrannodd UMCB yn sylweddol hefyd at yr Adroddiad Mewnwelediad i Brofiad Myfyrwyr Cymraeg, ac arweiniodd ymdrechion eiriolaeth i ddiogelu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod ailstrwythuro'r brifysgol ac eiriol yn llwyddiannus dros ddiogelu Neuadd JMJ.

Ymgyrchoedd ac Eiriolaeth

Roedd ymgyrchoedd yn mynd i'r afael â materion hollbwysig i fyfyrwyr. Cododd gorymdeithiau Adennill y Nos a Hawliau Traws ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd a hawliau LHDTC+. Mewn partneriaeth â'r Uned Cefnogaeth Ariannol, darparwyd cyllid argyfwng a chefnogaeth ariannol tymor byr i fyfyrwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n uniaethu â mynegiant o'u rhywedd, myfyrwyr LHDTC+, myfyrwyr sy'n rhieni sengl, a myfyrwyr beichiog, gyda chefnogaeth ariannol gan Medr.

Roedd yr Ymgyrch Costau Byw yn cynnwys mentrau megis Siop Gyfnewid, Caffi Atgyweirio, a dosbarthu cynhyrchion mislif am ddim, pob un â'r nod o hyrwyddo llesiant a gwytnwch ariannol myfyrwyr.

Cyngor a Chefnogaeth

Roedd cefnogaeth i ymgyrchoedd academaidd ac ymgyrchoedd llesiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Cefnogodd y Gwasanaeth Cyngor Academaidd amrywiaeth eang o achosion, yn enwedig ymhlith myfyrwyr blwyddyn olaf a myfyrwyr Gwyddorau Iechyd. Mae fframwaith newydd yn cael ei ddatblygu i wella eglurder, hygyrchedd a gwerthusiad y gwasanaeth.

Darparodd yr Ymgyrch Cymorth Astudio yn ystod y cyfnod arholiadau adnoddau ymarferol a deunyddiau llesiant, gan gyfrannu at amgylchedd academaidd mwy cefnogol, a helpodd i fynd i'r afael ag anghenion myfyrwyr yn ystod cyfnodau allweddol o straen yn y calendr academaidd.

Edrych Ymlaen

Wrth i ni baratoi i lansio ein strategaeth newydd, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddarparu profiad myfyrwyr cynhwysol, grymusol ac o ansawdd uchel. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithredu ein model ffioedd newydd ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau, datblygiad pellach o'n strwythurau democrataidd, a phartneriaeth barhaus â'r Brifysgol i sicrhau bod myfyrwyr yn bartneriaid gweithredol wrth lunio eu haddysg.

Rydym yn falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd yn 2024–25 ac yn edrych ymlaen at adeiladu ar y momentwm hwn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yakubu Jidda, Llywydd

Huw Williams, Llywydd (UMCB)

DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS

Mae Prifysgol Bangor yn Elusen Gofrestredig (rhif 1141565) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau'r Brifysgol, mae'r Brifysgol wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch adrodd ar fudd cyhoeddus a'r canllawiau atodol i elusennau a sefydlwyd at ddiben addysgol.

Agorodd Prifysgol Bangor ei drysau ym mis Hydref 1884, wedi ymgyrch godi arian gan chwarelwyr a ffermwyr lleol a oedd eisiau rhoi cyfle i bobl gogledd Cymru gael mynediad at addysg uwch. Yn 2024 fe wnaethon ni ddathlu 140 mlynedd. Heddiw, mae gennym dros 10,000 o fyfyrwyr ac oddeutu 1,800 o aelodau staff.

Addysgu

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr ar draws amrywiaeth eang o ddisgyblaethau, wedi'i hategu gan arloesedd, cynwysoldeb a ffocws cryf ar effaith gymunedol.

Cwblhaodd y Brifysgol Adolygiad Gwella Ansawdd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn llwyddiannus, gan dderbyn canmoliaeth am wreiddio'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn gryf, am ymgysylltiad rhagorol rhwng myfyrwyr a staff, ac am flaenoriaethu datblygiad proffesiynol staff. Mae'r llwyddiannau hynny'n dangos ymroddiad parhaus Prifysgol Bangor i gynnal safonau uchel o ran ansawdd addysgu a sicrhau profiad rhagorol i fyfyrwyr.

Yn ogystal, lansiodd y Brifysgol y Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog, a ddatblygwyd gan dîm o Ysgol Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas. Datgelwyd y pecyn, a ariannwyd o dan Gronfa Her ARFOR, mewn digwyddiad a fynychwyd gan hyd at 100 o gyflogwyr ac ymarferwyr o bob cwr o Gymru, ac mae wedi'i gynllunio i gefnogi cyflogwyr i recriwtio staff Cymraeg eu hiaith — a thrwy hynny gysylltu addysgu, addysg ddwyieithog a pharodrwydd y gweithlu mewn cymunedau lleol.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn tynnu sylw at arweinyddiaeth barhaus Prifysgol Bangor wrth hyrwyddo ansawdd addysgol, cefnogi dysgu dwyieithog a chynhwysol, a gwella cyfleoedd i fyfyrwyr ledled Cymru a thu hwnt.

Ymchwil

Mae'r Brifysgol yn gwneud ymchwil effeithiol mewn disgyblaethau amrywiol, gan fynd i'r afael â heriau byd-eang megis iechyd, cynaliadwyedd amgylcheddol, a thechnoleg. Mae allbynnau ymchwil yn cyfrannu at welliant cymdeithasol, gyda Phrifysgol Bangor yn cymryd rhan mewn projectau sydd â buddion lleol a rhyngwladol.

Mae mentrau diweddar yn adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus hwn. Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a sefydliadau academaidd blaenllaw, mae'r Brifysgol wedi arwain ymyriad ar raddfa fawr i wella llythrennedd a sgiliau iaith dwyieithog plant 3–16 oed ledled Cymru. Mae'r fenter hon wedi bod yn datblygu deunyddiau dysgu proffesiynol dwyieithog newydd ac adnoddau ystafell ddosbarth i athrawon, gan ymestyn arbenigedd addysgol Bangor ymhell y tu hwnt i'r Brifysgol a bod o fudd uniongyrchol i ysgolion a chymunedau ledled y wlad. Gan adeiladu ar y project llythrennedd hwn, dyfarnwyd grant o £8 miliwn i'r tîm yn ddiweddar i sefydlu CAL:ON Cymru sy'n uno, datblygu a gweithredu'r gweithgareddau dwyieithog hyn ar raddfa fwy, yn ogystal â chreu rhaglenni ychwanegol ar gyfer yr ystod oedran lawn 3 – 16 oed.

Mae ein hymchwil hefyd yn gwella diogelwch cyhoeddus a gwytnwch mewn cymunedau arfordirol. Gan weithio mewn partneriaeth â Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (RNLI), mae gwyddonwyr Prifysgol Bangor wedi datgelu bylchau sylweddol yn nealltwriaeth y cyhoedd o symudiadau'r llanw, ffactor sy'n cyfrannu at nifer o ddigwyddiadau arfordirol bob blwyddyn. Mae'r gwaith hwn bellach yn hysbysu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac ymyriadau ymarferol sy'n lleihau risg ac yn helpu pobl i fwynhau'r arfordir yn ddiogel.

Mae'r projectau hyn yn dangos ymrwymiad Prifysgol Bangor i ymchwil sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol: gwella bywydau, llunio polisi, a chryfhau llesiant cymunedau yn lleol ac yn genedlaethol.

Cefnogi Mynediad at Addysg

Mae Prifysgol Bangor yn cefnogi ehangu mynediad at addysg uwch trwy ysgoloriaethau, rhaglenni allgymorth, a phartneriaethau, gan sicrhau bod myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol yn cael y cyfle i ddilyn eu dyheadau academaidd. Mae'r mentrau hyn yn ymgorffori ymrwymiad y Brifysgol i gynwysoldeb a hyrwyddo cyfle cyfartal.

Ers dros 23 mlynedd, mae Prifysgol Bangor wedi bod yn sefydliad arweiniol ar gyfer Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r rhaglen bob oed hon yn gweithredu ledled Cymru, gan ymdrechu i ehangu dyheadau addysgol dysgwyr a dangynrychiolir yn draddodiadol mewn addysg uwch. Prifysgol Bangor sy'n arwain Rhaglen Fentora Ymestyn yn Ehangach, sef rhaglen Cymru Gyfan sy'n recriwtio disgyblion o Flynyddoedd 9 i 13, gofalwyr ac unigolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal o ysgolion, colegau a chymunedau blaenoriaeth Ymestyn yn Ehangach, gan eu paru â mentoriaid israddedig sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru. Prifysgol Bangor sy'n arwain Rhaglen Fentora Ymestyn yn Ehangach, sef rhaglen Cymru Gyfan sy'n recriwtio disgyblion o Flynyddoedd 9 i 13, gofalwyr ac unigolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal o ysgolion, colegau a chymunedau blaenoriaeth Ymestyn yn Ehangach. Mae'r disgyblion hyn yn cael eu paru â mentoriaid israddedig sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, mae'r rhaglen hefyd wedi datblygu rhwydwaith cynyddol o gyn-ddisgyblion (cyn-fentoreion) sydd wedi symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg uwch ac sydd bellach yn fentoriaid hyfforddedig eu hunain, gan gefnogi'r genhedlaeth nesaf o gyfranogwyr.

Mae Prifysgol Bangor wedi cadarnhau ei hymrwymiad i'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach ymhellach drwy drefnu digwyddiadau a chyrsiau effeithiol, gan gynnwys rhaglen breswyl tridiau i ofalwyr ifanc yn ystod y Pasg, cyrsiau blasu i oedolion, ac 'ysbyty tedi bêr yr Ysgol Feddygol' a oedd yn ymgysylltu ag ysgol gynradd leol. Mae pob menter wedi'i dylunio'n feddylgar i roi blas gwirioneddol o fywyd prifysgol i gyfranogwyr, gan amlygu'r cyfleoedd academaidd helaeth a'r gefnogaeth llesiant sydd ar gael ym Mhrifysgol Bangor.

Cyrhaeddiad Rhyngwladol

Gyda phartneriaethau ledled y byd, mae Prifysgol Bangor yn denu myfyrwyr a staff o bedwar ban byd, gan feithrin cyfnewid trawsddiwylliannol a throsglwyddo gwybodaeth. Mae'r presenoldeb rhyngwladol hwn yn gwella effaith y Brifysgol a phroffil Gogledd Cymru ar raddfa fyd-eang.

Mae'r Brifysgol yn parhau i ehangu effaith ei hymchwil a'i haddysgu ledled y byd, gan feithrin cydweithio sy'n mynd i'r afael â heriau rhyngwladol brys. Er enghraifft, mae'r Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a

Naturiol yn arwain project PhD sy'n cael ei ariannu'n llawn ac sy'n ymchwilio i fudo ym Madagascar sy'n cael ei ysgogi gan yr hinsawdd. Gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid anllywodraethol lleol a gwneud gwaith maes yn y wlad, mae'r ymchwil hwn yn archwilio canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol mudo, gan gyfrannu at ddealltwriaeth fyd-eang o addasu i'r hinsawdd a chefnogi datblygiad cynaliadwy mewn rhanbarth sy'n wynebu pwysau amgylcheddol sylweddol.

Yn ogystal ag ymchwil, mae mentrau addysgu Prifysgol Bangor yn meithrin cysylltiadau â sefydliadau ledled y byd. Mae partneriaeth ddiweddar â'r China University of Political Science and Law yn Beijing yn galluogi staff Prifysgol Bangor i gyflwyno addysgu ar gaffael iaith i fyfyrwyr dramor, gan wella cyfnewid gwybodaeth drawsddiwylliannol a chryfhau rhwydweithiau academaidd rhyngwladol. Trwy'r mentrau hyn, mae Prifysgol Bangor yn dangos bod ei gwaith yn creu budd cyhoeddus pendant nid yn unig yn lleol, ond hefyd yn fyd-eang — drwy hyrwyddo gwybodaeth, cefnogi atebion cynaliadwy, a meithrin cydweithio rhyngwladol cynhwysol.

Cymuned

Mae Prifysgol Bangor yn ymgysylltu'n agos â'r gymuned leol trwy allgymorth, digwyddiadau, a phrojectau cydweithredol, gan gynyddu bwrlwm diwylliannol, addysgol ac economaidd Gogledd Cymru.

Mae Cronfa Gymunedol Prifysgol Bangor yn chwarae rhan ganolog wrth gysylltu arbenigedd academaidd â blaenoriaethau lleol, gan gefnogi projectau cydweithredol sy'n hyrwyddo llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Cefnogwyd pedwar project newydd yn ystod yr alwad gyllido ddiwethaf, gan ddod â chyfanswm y projectau a ariannwyd drwy Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) i ddau ar hugain.

Mae ceisiadau o bob cwr o'r Brifysgol yn dangos ymrwymiad a rennir i weithio gyda phartneriaid allanol a rhanddeiliaid cymunedol i gyflawni newid cadarnhaol. Mae'r projectau cyfredol yn canolbwyntio ar rymuso pobl ifanc, creadigrwydd, cynaliadwyedd, a threftadaeth leol, themâu sy'n adlewyrchu cysylltiad dwfn Bangor â'i gyd-destun rhanbarthol.

Yn ogystal, cafodd Gardd Fotaneg Treborth Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o adfer ac adfywio cynefinoedd coetiroedd. Mae'r project yn gwella hygyrchedd a dysgu trwy weithdai, hyfforddiant a chadwraeth dan arweiniad y gymuned, gan sicrhau bod Treborth yn parhau i fod yn ganolfan sy'n cael ei harwain gan wirfoddolwyr ar gyfer llesiant, bioamrywiaeth ac addysg amgylcheddol. Mae'r gwaith hwn hefyd yn gweld Treborth yn ymuno â Choedwig Genedlaethol Cymru, gan gryfhau ei rôl fel canolfan ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar natur ac ymgysylltu cymunedol cynaliadwy.

Cynaliadwyedd

Mae Prifysgol Bangor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau ei heffaith amgylcheddol, gan gyflawni carreg filltir bwysig yn 2025 drwy gwblhau Her Lleihau Carbon 25erbyn25 yn llwyddiannus.

Llwyddodd y Brifysgol i ostwng ei hallyriadau cyfwerth â charbon deuocsid (CO_2e) Cwmpas 1 a 2 o 25% o gymharu â gwaelodlin 2018/19 o fewn dim ond tair blynedd, ynghyd â gostyngiad o 20% yn y defnydd o nwy a thrydan.

Mae'r fenter hon yn rhan o ymrwymiad ehangach i gynaliadwyedd, gan arwain cynnydd tuag at darged Sero Net Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050 a chanolbwyntio ar lwybrau allyriadau allweddol y Brifysgol, yr amgylchedd adeiledig, teithio a'r gadwyn gyflenwi.

Mae cynaliadwyedd hefyd wedi'i wreiddio mewn addysgu ac ymchwil: mae llawer o raglenni gradd Prifysgol Bangor bellach yn tynnu sylw at Nodau Datblygu Cynaliadwy perthnasol, gan sicrhau bod graddedigion yn deall yr heriau amgylcheddol a chymdeithasol yn eu maes, tra bod arferion ymchwil yn parhau i gyd-fynd â Choncordat Cynaliadwyedd Amgylcheddol Wellcome, gan hyrwyddo ysgolheictod cyfrifol a chynaliadwy ar draws disgyblaethau.

Trwy'r ymdrechion parhaus hyn, mae Prifysgol Bangor yn dangos arweinyddiaeth mewn gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, gan weithio i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r gymuned, i Gymru, ac i genedlaethau i ddod.

ADRODDIAD TALIADAU

Y Pwyllgor Taliadau sy'n gyfrifol am lunio ac adolygu'r strategaeth wobrwyo gyffredinol ar gyfer uwch-aelodau staff y Brifysgol (diffinnir uwch swyddogion fel yr Is-ganghellor, aelodau'r Bwrdd Gweithredol a staff sydd ar gyflog o £100,000 a mwy).

Tâl Uwch-aelodau Staff

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i Gylch Gorchwyl ac â Chod Cyflogau Uwch-Aelodau Staff Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion. Yn unol â'r Cylch Gorchwyl a'r Cod hwnnw, caiff cyflogau uwch-aelodau staff eu hadolygu gan ddefnyddio proses deg. Mae'r broses hon yn adlewyrchu perfformiad unigol yng nghyd-destun perfformiad cyffredinol y Brifysgol ac mae hefyd yn ystyried ecwiti. Mae'r Pwyllgor yn ystyried fforddiadwyedd, cymesuredd â thâl aelodau staff eraill y Brifysgol, perfformiad, gwybodaeth allanol gymharol ynghylch taliadau a gwybodaeth cydraddoldeb. Defnyddir data o Arolwg Tâl Uwch-Aelodau Staff Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau (UCEA) i ddarparu tystiolaeth am unrhyw addasiadau marchnad.

Tâl yr Is-ganghellor

Y Pwyllgor Taliadau sy'n pennu tâl yr Is-ganghellor. Wrth adolygu'r cyflog, mae'r Pwyllgor yn ystyried ehangder y cyfrifoldebau arweinyddol ac ariannol a chyflawniad yn erbyn amcanion strategol y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y cyd-destun sefydliadol, ochr yn ochr â pherfformiad yr Is-ganghellor, y symudiad cyffredinol yng nghyflogau staff ac unrhyw ystyriaethau marchnad perthnasol, a defnyddir gwybodaeth meincnodi cyflogau prifysgolion tebyg i lywio penderfyniadau. Asesir perfformiad yr Is-ganghellor gan Gadeirydd y Cyngor ar ôl gwrando ar sylwadau ac adborth gan aelodau'r Cyngor.

Tâl grwpiau staff eraill

Mae'r rhan fwyaf o aelodau staff yn cael eu talu yn ôl colofn gyflog y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol ac yn dod o dan strwythur graddfeydd cyflog y Brifysgol, lle ceir 9 graddfa. Caiff staff sy'n rhan o'r strwythur cyflog hwn godiadau cyflog bob blwyddyn ar sail cynnydd mewn sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, nes y byddant yn cyrraedd brig amrediad craidd y raddfa. Maent hefyd yn gymwys ar gyfer dyfarniadau cyflog a gytunwyd yn genedlaethol lle bo'n berthnasol. Mae'r raddfa gyflog i staff clinigol yn dyblygu graddfeydd cyflog y GIG. Mae staff clinigol ar y graddfeydd cyflog hyn yn cael codiadau cyflog cynyddrannol bob blwyddyn ar sail cynnydd mewn sgiliau, gwybodaeth a phrofiad nes iddynt gyrraedd brig amrediad craidd y raddfa. Mae'r raddfa gyflog Athrawol yn cynnwys 3 Band a bydd unigolion sy'n ymgymryd â'u penodiad cyntaf yn cael eu penodi ar Fand 1. Mae Band 2 fel arfer i Athrawon sydd ag enw da rhyngwladol amlwg yn eu maes, neu sydd â phresenoldeb allanol sy'n eu gosod ar lefel sylweddol uwch na'r hyn a ddisgwylir ym Mand 1. Mae Band Athrawol 3 fel arfer i Athrawon sydd â thystiolaeth eu bod yn ffigurau academaidd o bwys, yn enwog yn rhyngwladol ac yr ystyrir eu bod yn dod â bri sylweddol i'r Brifysgol drwy eu record gyson o lwyddiant academaidd ar y lefel uchaf. Mae'r Polisi Dilyniant Cyflog a Chyflog Cysylltiedig â Chyfraniad, yr Adolygiad Cyflogau Staff Athrawol a'r Adolygiad Cyflogau Uwch-Aelodau Staff, yn golygu y gall y Brifysgol wobrwyo a chydnabod pob unigolyn a grŵp o staff sy'n gwneud cyfraniad eithriadol (parhaus neu untro) sy'n hyrwyddo'r nodau ac amcanion y Brifysgol, y Coleg, yr Ysgol neu'r Gwasanaeth Proffesiynol, neu'n bodloni her weithredol eithriadol yn y tymor byr. O ystyried yr heriau ariannol sylweddol eleni, ni chynhaliwyd yr adolygiadau cyflog hyn.

Cyflogwr Cyflog Byw

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig ac o ganlyniad mae'r holl staff yn derbyn cyfradd cyflog y Sefydliad Cyflog Byw o leiaf.

Cymarebau cyflog

Caiff cymhareb rhwng cyflog yr Is-ganghellor a chyflog canolrifol y staff ei ddatgelu yn y datganiad ariannol.

Dyfarniadau cyflog cenedlaethol

Mae holl staff y Brifysgol yn cael codiadau costau byw yn dilyn trafodaethau cyflog blynyddol a gynhelir gan Gymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau (UCEA) ar ran prifysgolion. Yn y flwyddyn gyfredol, gohiriwyd y dyfarniad ond fe'i talwyd yn ddiweddarach.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL
CYNGOR Y BRIFYSGOL

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r Brifysgol. Mae'n gyfrifol, fel y nodir yn ei Siarter, am gyllid, ystadau, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol ac am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad. Mae'r Cyngor yn ceisio gwneud ei waith yn unol â'r Egwyddorion Nolan a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).

Elusen yw'r Brifysgol, ac mae pob un o aelodau'r Cyngor yn ymddiriedolwyr y Brifysgol, gan roi o'u hamser yn ddi-dâl, gan gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau'r sefydliad. Mae'r Cyngor yn parhau i nodi gofynion Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Medi 2020) a gofynion Adolygiad Camm o Lywodraethiant Prifysgolion yng Nghymru (Rhagfyr 2019). Mae'r gofynion hyn yn cael eu cadw o dan arolygiaeth fel rhan o fusnes y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, bydd canlyniad yr adolygiad o Cod Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion sydd ar y gweill yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi.

Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau gwelliannau parhaus wrth lywodraethu, ac yn adolygu effeithiolrwydd y drefn lywodraethu'n rheolaidd. Cwblhawyd yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu diweddaraf gan AdvanceHE ym mis Chwefror 2023, a arweiniodd at asesiad bod y llywodraethu yn y Brifysgol yn effeithiol yn gyffredinol. Lle gwnaed argymhellion ac awgrymiadau yn yr Adolygiad, maent bellach wedi eu cwblhau.

Nodir y materion a neilltuir yn arbennig i'w penderfynu gan y Cyngor yn Siarter a Statudau'r Brifysgol, trwy arfer ac o dan y Cod Rheolaeth Ariannol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gyda Medr. Bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2026.

Mae swyddogaethau'r Canghellor, Cadeirydd y Cyngor, y Dirprwy Gadeirydd y Cyngor ar wahân i swyddogaeth Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-ganghellor. Daw mwyafrif aelodau'r Cyngor o'r tu allan i'r Brifysgol (disgrifir hwy fel aelodau annibynnol) a rhaid dewis Cadeirydd y Cyngor o blith yr aelodau hynny. Hefyd, caiff aelodau eraill o'r Cyngor eu tynnu a blith aelodau'r Senedd, ac aelodau o staff academaidd ac anacademaidd, yn ogystal ag Undeb y Myfyrwyr.

Mae disgrifiadau rôl wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ar gyfer Cadeirydd y Cyngor, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, y Llywodraethwr Annibynnol Uwch, Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor a'r Aelodau o'r Cyngor.

Mae'r Ganghellor yn bennaeth seremoniol y Brifysgol ac yn un o'i llysgennad mwyaf blaenllaw, sy'n gweithio gyda'r Is-Ganghellor a swyddogion uwch eraill i hyrwyddo llwyddiannau'r Brifysgol gartref a thramor. Ganghellor Prifysgol Bangor yw Syr Robin Williams, ac mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi cymeradwyo disgrifiad rôl ar gyfer swydd y Ganghellor.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn ond ymdrinnir â llawer o'i waith manwl gan bwyllgorau sefydlog y Cyngor yn y lle cyntaf. Mae gan y Cyngor nifer o bwyllgorau sefydlog (Cyllid a Strategaeth, Archwilio a Risg, Enwebiadau a Llywodraethu, Pobl a Diwylliant, Materion y Gymraeg a Thaliadau), ac mae pob Pwyllgor wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol â chylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau annibynnol o'r Cyngor. Yn ogystal, mae gan y Pwyllgor Cyllid isbwyllgor – Y Pwyllgor Buddsoddi. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu hefyd yn bwyllgor o'r cyngor, ac maent yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i ystyried enwebiadau ar gyfer graddau anrhydedd. Caiff y pwyllgor hwn ei gadeirio gan Gadeirydd y Cyngor. Mae pob Pwyllgor wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol â chylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau annibynnol o'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn gofyn am sicrwydd blynyddol gan bob Pwyllgor eu bod wedi gweithredu o dan ofynion eu Cylch Gorchwyl yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae materion sydd yn ymwneud oedd yn ymwneud ag iechyd a diogelwch o dan gyfrifoldeb y Pwyllgor Awdit a Risg, sy'n derbyn adroddiadau gan Bwyllgor Rheoli Iechyd, Diogelwch ac Argyfwng.

Nodir isod aelodaeth y Cyngor, ac aelodaeth y Pwyllgorau ynghyd â'r ffigurau presenoldeb ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25

Enw a Swydd	Pwyllgorau Cyfredol	**Presenoldeb yn y Cyngor** (5 cyfarfod fesul blwyddyn galendr yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd eithriadol fel y bo'n ofynnol)
Cadeirydd y Cyngor Mrs Marian Wyn Jones (tan 8 Chwefror 2028)	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (Cadeirydd), Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd (Cadeirydd) Pwyllgor Pobl a Diwylliant Pwyllgor Cyllid Pwyllgor Gwobrwyaeth Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd (Cadeirydd)	**5/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Dirprwy Gadeirydd Syr Paul Lambert tan 31 Gorffenaf 2026	Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd Pwyllgor Archwilio a Risg (Cadeirydd)	**5/5** **1/2 Cyfarfod Eithriadol**
Aelodau Ex officio o'r Cyngor		
Yr Is-ganghellor Yr Athro Edmund Burke	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu Pwyllgor Cyllid Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd Pwyllgor Archwilio a Risg (a oedd yn bresennol)	**5/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Dirprwy i'r Is-ganghellor Yr Athro Oliver Turnbull (tan 31 Gorffenaf 2025)	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd Pwyllgor Cyllid	**5/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Dirprwy i'r Is-ganghellor Yr Athro Andrew Edwards (o Tachwedd 2024)	Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd Pwyllgor Cyllid	**3/3** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Llywydd, Undeb y Myfyrwyr Ms Nida Ambreen (i 30 Mehefin 2025)	Pwyllgor Cyllid Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu Pwyllgor Archwilio a Risg Pwyllgor Pobl a Diwylliant	**3/4** **1/1 Cyfarfod Eithriadol**
Llywydd, Undeb y Myfyrwyr Mr Yakubu Jidda (2024 i 2025)	Finance Committee Nominations & Governance Committee Audit & Risk Committee People & Culture Committee	**1/1** **1/1 Cyfarfod Eithriadol**
Llywydd, UMCB Mr Gwion Rowlands (i 11 Ebrill 2025)	Pwyllgor Materion y Gymraeg	**3/3**
Llywydd, UMCB Mr Huw Williams (o 1 Gorffennaf 2025)	Pwyllgor Materion y Gymraeg	**1/1** **1/1 Cyfarfod Eithriadol**

Enw a Swydd	Pwyllgorau Cyfredol	Presenoldeb yn y Cyngor (5 cyfarfod fesul blwyddyn galendr yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd eithriadol fel y bo'n ofynnol)
Penodwyd gan y Senedd		
Dr Aled Ll. Jones (tan 27 Tachwedd 2026)	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu Pwyllgor Materion y Gymraeg	**4/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards (tan 31 Gorffennaf 2025)	Pwyllgor Pobl a Diwylliant	**4/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Penodwyd gan y Staff		
Dr Ama Eyo (tan 30 Medi 2025)		**4/5** **1/2 Cyfarfod Eithriadol**
Dr John T. Prabhakar (tan 31 Mawrth 2027)	Pwyllgor Cyllid Pwyllgor Pobl a Diwylliant	**4/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Aelodau Annibynnol		
Ms Julie Perkins (tan 12 mai 2025)	Pwyllgor Cyllid Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu Pwyllgor Taliadau (Cadeirydd, o 1 Ionawr 2023) Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd	**3/3** **0/1 Cyfarfod Eithriadol**
Yr Athro Timothy Wheeler (tan 5 Mai 2026)	Pwyllgor Cyllid Pwyllgor Taliadau (Cadeirydd) Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd	**5/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Dr Ian Rees (tan 31 Gorffennaf 2027)	Uwch Lywodraethwr Annibynnol Pwyllgor Archwilio a Risg, Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	**5/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Mr Eric Hepburn CBE (tan 31 Hydref 2028)	Pwyllgor Cyllid Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd Pwyllgor Taliadau	**5/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Mr Atul Devani (tan 31 Hydref 2024)	Pwyllgor Archwilio a Risg Bwrdd MSParc	**1/1**
Yr Athro Jean White CBE (tan Hydref 2029)	Pwyllgor Archwilio a Risg Pwyllgor Pobl a Diwylliant	**5/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**

Name and Position	Current Committees	Presenoldeb yn y Cyngor (5 cyfarfod fesul blwyddyn galendr yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd eithriadol fel y bo'n ofynnol)
Independent Members (continued)		
Ms Elin Wyn (tan 27 Tachwedd 2026)	Pwyllgor Pobl a Diwylliant Pwyllgor Materion y Gymraeg (Cadeirydd)	**5/5** **1/2 Cyfarfod Eithriadol**
Professor David Viner (tan 10 Chwefror 2027)	Pwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Argyfwng	**4/5** **1/2 Cyfarfod Eithriadol**
Mrs Emily Rees (tan 30 Medi 2027)	Pwyllgor Cyllid Is-bwyllgor Buddsoddi (Cadeirydd) Pwyllgor Materion y Gymraeg	**5/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Mr Rheon Tomos (tan 30 Medi 2027)	Pwyllgor Awdit a Risg Pwyllgor Materion y Gymraeg Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu	**5/5** **2/2 Cyfarfod Eithriadol**
Mr Peter Waziri (tan Ebrill 2026)	Pwyllgor Cyllid	**2/2** **1/1 Cyfarfod Eithriadol**
Y Barnwr Meleri Tudur Thomas (tan 30 Mehefin 2029)	Pwyllgor Archwilio a Risg	**1/1** **0/1 Cyfarfod Eithriadol**
Ysgrifennydd y Brifysgol ac Ysgrifennydd y Cyngor: Mrs Gwenan Hine	Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (Ysgrifennydd) Pwyllgor Materion y Gymraeg (Ysgrifennydd) Pwyllgor Pobl a Diwylliant (Ysgrifennydd) Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd (Ysgrifennydd) Pwyllgor Awdit a Risg Pwyllgor Taliadau Pwyllgor Cyllid	**5/5**

Aelodau Annibynnol y Cyngor/Amrywiaeth a Chynhwysiant y Corff Llywodraethol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb ar draws pob categori o aelodaeth. Mae gwaith parhaus y Brifysgol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei oruchwylio, ar ran y Cyngor, gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Caiff pob hysbyseb am aelodau annibynnol eu hysbysebu'n allanol a chroesawir ceisiadau'n arbennig gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Caiff pob swydd wag ar gyfer Aelodau Staff Academaidd ac Anacademaidd ar y Senedd eu hysbysebu i bob aelod perthnasol o staff.

Ystyrir ceisiadau am aelodau annibynnol gan y Panel Dethol sydd wedi'i sefydlu gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, sy'n rhoi awgrymiadau i'r Cyngor. Caiff sgiliau hanfodol eu paru yn erbyn yn y matrics sgiliau cyfredol, a gwnaed hynny ddiwethaf yn haf 2024. Nid oes yr un aelod annibynnol yn derbyn unrhyw dâl, ac eithrio ad-dalu treuliau, am y gwaith a wnânt i'r Brifysgol. Mae holl aelodau annibynnol y Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd yn y lle cyntaf, a gellir eu hailbenodi am ail dymor, hyd at uchafswm o wyth mlynedd, oni bai bod cyfiawnhad eithriadol i'w hargymell i barhau am gyfnod hirach.

Penodir aelodau staff Academaidd ac Anacademaidd y Senedd drwy broses enwebu, a chynhelir pleidlais os derbynnir mwy nag un enw. Mae'r aelodau'n gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd yn y lle cyntaf, a gellir eu hailbenodi am ail dymor, hyd at uchafswm o wyth mlynedd.

Cynefino Aelodau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i aelodau newydd y Cyngor, ym mhob categori, fynychu sesiwn gynefino fanwl gyda Chadeirydd y Cyngor ac Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae'r sesiwn gynefino honno'n cynnwys gwybodaeth am hanes Prifysgol Bangor, gwerthoedd y Brifysgol a'r fframwaith Llywodraethu a Rheoleiddio. Ceir mewnbwn hefyd gan aelodau allweddol o'r Bwrdd Gweithredol ac o Undeb y Myfyrwyr. Yn ogystal, pan mae'n bosibl, gwahoddir aelodau newydd i arsylwi cyfarfod o'r Cyngor cyn ymuno fel aelod. Adolygwyd y broses gynefino yn 2023/24, ac mae'n cael ei adolygu'n barhaus.

Adolygiadau Datblygu Blynyddol

Bydd Cadeirydd y Cyngor yn gweithio gyda phob aelod o'r Cyngor ar Adolygiadau Datblygu Blynyddol unigol er mwyn sicrhau datblygiad parhaus a gwella effeithiolrwydd, yn ogystal â nodi gofynion a / neu gyfleoedd datblygu ychwanegol. Caiff canlyniad yr Adolygiadau hyn eu dwyn ynghyd mewn Cynllun Gweithredu dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

Annibyniaeth Aelodau'r Cyngor

Yn A Review of Governance of the Universities in Wales, argymhellodd yr awdur Gillian Camm y dylid codi'r bar o ran annibyniaeth llywodraethwyr o gymharu â'r sefyllfa a fodolai pan gynhaliwyd yr adolygiad (2019); ac y dylid llunio a chyhoeddi canllawiau o ran yr hyn a olygir wrth annibyniaeth a'r materion hynny a allai gyfaddawdu annibyniaeth llywodraethwyr. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r Guide on Independence for Lay Members a ddatblygwyd ac y cytunwyd arno gan Ysgrifenyddion a Chlercod Cymru ym mis Mehefin 2020 fel ymateb i'r argymhelliad hwn. Rhannwyd y Canllaw gydag aelodau'r Cyngor ac mae'n cael ei adolygu gan yr Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

Fel corff llywodraethu'r Brifysgol, mae'r Cyngor yng ngofal arian cyhoeddus, ac felly mae ganddo ddyletswydd arbennig i fodloni safonau uchaf llywodraethu corfforaethol bob amser. Cafodd prifysgolion eu cynnwys ymhlith y cyrff cyhoeddus sy'n cael eu harchwilio gan y 'Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus' (Pwyllgor Nolan) ac o ganlyniad mae'n rhaid i aelodau'r Cyngor gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a luniwyd gan y Pwyllgor, sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Rhaid i aelodau'r Cyngor beidio â chaniatáu iddynt eu hunain gael eu dylanwadu'n ormodol gan fuddiannau eraill sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol megis staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr neu undebau llafur. Mae angen i aelodau'r Cyngor allu herio mewn modd effeithiol ac adeiladol ac ni allant wneud hynny os oes ganddynt fuddiant mewn mater sy'n cael ei drafod.

Trafodir yr egwyddorion hyn gydag aelodau newydd y Cyngor yn ystod y broses gynefino.

Datgan Buddiannau

Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor ddilyn gweithdrefn ffurfiol i ddatgan buddiannau ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, ac mae'r gofrestr ar gael ar-lein.

Yn ychwanegol, gofynnir i aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda, ar ddechrau pob cyfarfod o'r Cyngor a pob un Pwyllgor, a nodir y rhain yn ffurfiol yn y cofnodion.

Manylion Bywgraffyddol: Aelodau annibynnol y Cyngor

Cadeirydd: Mrs Marian Wyn Jones

Cyn newyddiadurwr a gwneuthurwr ffilmiau dogfen yw Marian a enillodd sawl gwobr yn ystod ei gyrfa ddisglair yn y BBC cyn datblygu gyrfa fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar lefel uchaf bywyd cyhoeddus, gan gynnwys gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Celfyddydau Cymru, lle roedd yn Is-gadeirydd. Mae hi'n Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru, lle mae'n cyfrannu at drawsnewid digidol gwasanaethau iechyd ledled y wlad. Mae hefyd wedi gwasanaethu ar gyrff llywodraethu nifer o elusennau eraill a sefydliadau addysgol. Yr oedd eisoes wedi bod yn aelod o'r Cyngor, ac o'r herwydd mae ganddi ddealltwriaeth drylwyr o'r Brifysgol a'r heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch.

Dirprwy Gadeirydd y Cyngor – Yr Is-lyngesydd Syr Paul Lambert

Mae'r Is-Lyngesydd Syr Paul Lambert wedi meithrin sgiliau strategol, ariannol ac arweinyddiaeth mewn cyfres o swyddi ac apwyntiadau amlwg yn Whitehall a'r sector elusennol. Mae wedi gwasanaethu fel Ysgrifennydd Cyffredinol St John International a bu gynt yn Ddirprwy Bennaeth y Staff Amddiffyn (Gallu i Weithredu), yn gyfrifol am gyllideb offer a chefnogaeth gwerth £14bn ac am roi cyngor annibynnol i Weinidogion. Cafodd ei urddo'n farchog yn 2012 ac mae wedi ymrwymo i ddysgu gydol oes. Mae ganddo brofiad rhyngwladol helaeth.

Uwch Lywodraethwr Annibynnol - Dr Ian Rees

Mae Dr Rees yn gyn Brifathro Coleg Menai ac yn Uwch Gyfarwyddwr gyda chyfrifoldeb am faterion allanol gyda Grŵp Llandrillo Menai. Cyn hynny roedd yn Bennaeth/Prif Weithredwr Coleg Meirion-Dwyfor ac yn Bennaeth Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog. Dros y blynyddoedd mae hefyd wedi bod yn gyfarwyddwr nifer o gyrff, gan gynnwys Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, Fforwm a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Roedd hefyd yn aelod o Bwyllgor Rhanbarthol Canolbarth Cymru, ELWa. Rhwng 2006 a 2012 roedd yn aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru. Rhwng 2012 a 2015 bu Ian yn cadeirio Panel Ymgynghorol Comisiynydd y Gymraeg ac yn 2018 penodwyd ef yn gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg y Comisiynydd. Mae Ian yn Aelod Anweithredol ac yn Gadeirydd y Bwrdd Archwilio Cymru.

Aelod Annibynnol – Mr Atul Devani

Mae Atul wedi dal nifer o uwch swyddi mewn cwmnïau technoleg meddalwedd yn gweithio mewn amryw o sectorau gan gynnwys cyllid, sector symudol, telathrebu, bwyd a diod, iechyd a deunydd fferyllol. Ef oedd sylfaenydd a phrif swyddog gweithredol United Clearing Plc, a restrwyd gan AIM ac a werthwyd i BSG yn 2006. Ar hyn o bryd mae Atul yn brif swyddog gweithredol darparwr gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig ac yn gadeirydd ymddiriedolaeth cyfalaf menter yn Maven Capital ac yn fuddsoddwr mewn nifer o gwmnïau preifat. Mae hefyd yn fentor i entrepreneuriaid yn y Company of Information Technologists yn Llundain. Mae gan Atul radd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Peirianneg Electronig o Brifysgol Bangor.

Aelod Annibynnol – Professor Jean White CBE

Mae Jean yn Gymrawd Prifysgol Bangor. Jean oedd Prif Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru rhwng Hydref 2010 ac Ebrill 2021. Gyda gyrfa nyrsio sy'n ymestyn dros 40 mlynedd, dechreuodd ei bywyd proffesiynol fel nyrs gyffredinol yn Abertawe ac mae wedi ymarfer yng Nghymru ac yn Llundain. Mae hi wedi dal sawl swydd ym myd addysg nyrsio, gyda Bwrdd Cenedlaethol Cymru (corff rheoleiddio), Proffesiynau Iechyd Cymru ac fel gwas sifil yn Llywodraeth Cymru. Bellach, mae'n Athro Nyrsio ar Ymweliad ym Mhrifysgol De Cymru, yn fentor ar raglen Merched o Leiafrifoedd Ethnig yng Ngofal Iechyd Cymru, mae'n aelod o banel beirniadu Gwobrau Dewi Sant. Jean oedd Uchel Siryf Sir Morgannwg Ganol 2023-24. Mae Jean yn Gymrawd Prifysgol Abertawe, yn ogystal â Chymrawd Sefydliad Nyrsio'r Frenhines a Chymrawd Anrhydeddus Coleg Brenhinol y Bydwragedd. Dyfarnwyd gwobr Cyflawniad Oes Llywodraeth Cymru iddi hi yn 2021.

Aelod Annibynnol – Mr Eric Hepburn CBE

Cyn ymddeol (2020) cafodd Eric yrfa amrywiol yng Ngwasanaeth Sifil DU. Ymunodd â Swyddfa'r Cabinet yn Rhagfyr 2001 fel Cyfarwyddwr Seilwaith, swydd oedd yn cwmpasu Technoleg Gwybodaeth, Diogelwch, Ystadau a Rheoli Cyfleusterau. Yn 2006 penodwyd Eric yn Brif Swyddog Gweithredu ar gyfer 10 Stryd Downing, gan wasanaethu o dan dri Phrif Weinidog (Blair, Brown, Cameron). Yn 2012 cafodd ei benodi'n Gonswl Cyffredinol EM a Chynghorydd Gwasanaethau Corfforaethol (UDA) gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, wedi'i leoli yn Llysgenhadaeth Prydain, Washington DC. Pan ddychwelodd i Lundain, penodwyd Eric yn Gyfarwyddwr Diogelwch ar gyfer y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu gyda thimau wedi'u lleoli ledled y byd. Yn 2016 symudodd i Senedd y DU fel Cyfarwyddwr Diogelwch y Senedd, rôl a oedd yn cwmpasu diogelwch ffisegol, gweithredol a phersonél Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Mae'n Gyfrifydd Rheoli Siartredig, yn Fanciwr Siartredig ac mae ganddo MBA gyda rhagoriaeth o Henley Management College ac mae wedi graddio o'r 'Major Projects Leadership Academy' a redir gan Brifysgol Rhydychen/Awdurdod Projectau a Seilwaith Trysorlys Ei Fawrhydi. Eric yw Prif Lywodraethwr Dyletswydd Atal Prifysgol Bangor, mae'n eistedd ar y Pwyllgor Archwilio ar y Cyd ar gyfer Heddlu Sussex ac ar y panel disgyblu ar gyfer Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheoli.

Aelod Annibynnol – Mrs Julie Perkins

Mae Julie yn gyn-fyfyrwraig o Fangor ac yn weithiwr technoleg gwybodaeth proffesiynol profiadol gyda hanes o gyflawni newid cymhleth trwy gydol ei gyrfa weithredol hir gyda'r Lloyds Banking Group. Mae ganddi brofiad helaeth fel arweinydd ysgogol dros dimau mawr amrywiol ar draws nifer o ddaearyddiaethau gyda'r gallu i ymgorffori newid trawsnewidiol ar raddfa fawr. Bu'n hyrwyddo a chyflwyno datrysiad gweithle digidol newydd ar draws sefydliad enfawr yn cyflogi 90 mil o weithwyr gan greu llwyfan trawsnewid i gydweithwyr a busnesau ymgysylltu a chydweithredu'n fwy effeithiol wrth ymdrin â chysylltiadau cydweithwyr a chleientiaid. Mae ganddi sgiliau craidd mewn cynllunio strategol, trafodaethau masnachol a rheoli gwerthwyr. Mae Julie wedi gweithio ar draws nifer o dechnolegau gan gynnwys arwain ar atebion canghennau, teleffoni a llif gwaith a'i chynllun cyflwyno diweddaraf oedd model gweithredu i ymgorffori cynaliadwyedd yn rhan o brosesau busnes craidd, gan ymgysylltu â phob cydweithiwr i gyflawni targed y Grŵp i fod yn Sero Net erbyn 2050 a 50% Sero Net erbyn 2030.

Aelod Annibynnol – Professor Tim Wheeler DL L

Penodwyd Tim yn Brifathro Coleg Caer ym 1998 ac wedyn yn Is-Ganghellor Prifysgol Caer yn 2005. Ymddeolodd o'r swydd honno yn 2020. Yn ystod ei gyfnod yno tyfodd y sefydliad o 4,200 o fyfyrwyr i 20,700, o un safle i naw gan gynnwys Canolfan Prifysgol Amwythig. Ehangodd y cwricwlwm o addysg, nyrsio, y celfyddydau a gwyddoniaeth i gynnig y gyfraith, meddygaeth, busnes, peirianneg a gwelwyd y trosiant yn cynyddu o £14M i £130M gyda gwarged o £3M. Roedd Tim yn Ddirprwy Gadeirydd LEP (Partneriaeth Menter Leol) Swydd Gaer a Warrington ac yn aelod o Gynghrair Merswy Dyfrdwy, sef melin drafod economaidd trawsffiniol. Mae'n gyn-ddirprwy Gadeirydd Gwasanaeth Derbyniadau Prifysgolion a

Cholegau (UCAS. Mae'n Ddirprwy Raglaw Swydd Gaer ac mae ganddo ran amlwg ag Eglwys Gadeiriol Caer fel Canon Lleyg. Mae'n rhyddfreiniwr dinasoedd Llundain a Chaer. Mae wedi bod yn llywodraethwr ysgol a llywodraethwr corfforaeth orfforaeth Addysg Bellach ers dros 35 mlynedd. Tim yw Cadeirydd Bwrdd Coleg Cambria.

Aelod Annibynnol – Ms Elin Wyn

Yn ystod gyrfa o 24 mlynedd fel newyddiadurwraig gyda BBC Cymru, bu Elin yn is-olygydd, cynhyrchydd a golygydd ar nifer o raglenni newyddion, rhaglenni materion cyfoes a rhaglenni gwleidyddol ar y radio a'r teledu. Ym 1999, pan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Elin oedd yn gyfrifol am sefydlu sianel S4C2 i ddarlledu holl drafodion byw y Cynulliad. Yn 2006, sefydlodd Elin gwmni ymgynghori a hyfforddi sy'n arbenigo mewn cyfathrebu. Mae wedi hyfforddi newyddiadurwyr yn Nigeria, Ghana, Swaziland (Eswatini bellach, Pacistan, Cwrdistan, a Kuwait. Yng Nghymru, mae wedi darparu hyfforddiant yn y cyfryngau i nifer o sefydliadau gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, a Chydbwyllgor Addysg Cymru ac S4C. O ran gwaith gwirfoddol, bu Elin yn llywodraethwr yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac Ysgol Treganna, yn aelod o Bwyllgor Cymru UNESCO, ac yn un o sylfaenwyr rhwydwaith Menywod mewn Rheolaeth Cymru. Am 12 mlynedd, bu Elin yn aelod o Fwrdd ac yna'n Gadeirydd Canolfan Gelfyddydau'r Chapter yng Nghaerdydd.

Aelod Annibynnol – Professor David Viner

Mae gan David dros 30 mlynedd o brofiad yn gweithio ym maes newid hinsawdd byd-eang a chynaliadwyedd. O 2007 roedd David yn brif arbenigwr newid hinsawdd yn Natural England lle datblygodd yr ymchwil a'r dull o addasu ar raddfa tirwedd. O 2008 David oedd cyfarwyddwr newid hinsawdd y Cyngor Prydeinig. Yno, datblygodd raglen ymgysylltu fyd-eang i helpu cefnogi'r Deyrnas Unedig a darparu cefnogaeth ehangach i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd, gan weithio ym maes gwyddoniaeth, y celfyddydau ac addysg. Yn 2012, ymunodd David â Mott MacDonald, lle bu'n darparu'r sylfaen dystiolaeth i sefydlu'r Climate Resilience Initiative a helpodd i drawsnewid y grŵp a'i wneud yn arweinydd byd ym maes datblygu datrysiadau i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Yn 2020, ymunodd David â'r Green Investment Group yn Macquarie Capital lle bu'n goruchwylio'r egwyddorion gwyrdd ar gyfer buddsoddiadau ariannol ar draws y grŵp. Ers 2022 ymunodd David â chwmni gwyddor yr amgylchedd i CGG, cwmni technoleg geowyddoniaeth byd-eang, ble ddatblygodd y strategaeth a'r fethodoleg i ddefnyddio AI a dysgu Peiriant ar gyfer risg hinsawdd integredig a llwyfan cyfalaf naturiol. Mae David wedi bod yn ymwneud â Phanel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd ers 1992, yn fwyaf diweddar fel Prif Awdur Cydlynol ar gyfer y Chweched Adroddiad Asesu.

Mrs Emily Rees

Mae Emily yn dod â phrofiad mewn cyllid strategol ac gweithredol, yn ogystal â llywodraethu cadarn, fel Prif Swyddog Ariannol (CFO) Grŵp Cyberfort Ltd. Mae ei gyrfa fyd-eang yn cynnwys swyddi uwch mewn cyllid a chyfriniaeth cwmni o fewn busnesau blaenllaw, wedi'u rhestru ar AIM ac wedi'u cefnogi gan ecwiti preifat. Mae pob rôl wedi cynnwys profiad masnachol a gweithredol cryf a phartneriaeth fusnes sylweddol ar draws timau rheoli. Mae Emily hefyd bod yn arweinydd Adnoddau Dynol, lle cyflwynodd strategaethau pobl i wella arferion ar draws profiad cyfllogaeth y gweithiwr. Mae Emily wedi defnyddio ei phrofiad i gynorthwyo dau elusen fel trysorydd, yn ogystal â bod yn llywodraethwr ysgol yn y gorffennol, lle bu'n arwain y pwyllgor cyllid, pobl a safleoedd. Mae hi wedi bod yn dysgu Cymraeg ers tair blynedd. Mae Emily yn aelod o'r Sefydliad Siartredig o Reolwyr Cyfrifon ac mae ganddi radd BSc (Anrh) mewn Llywodraeth ac Economeg o'r London School of Economics and Political Science.

Mr Rheon Tomos

Cyfrifydd cymwysedig yw Rheon ac maewedi dal swyddiuwch yn y Comisiwn Archwilio a Deloitte cyn gweithio'n annibynnol ac fel Partner TDE Associates. Mae ei feysydd arbenigedd yn cynnwyscyfrifeg ac archwilio, gwellaperfformiad ac asesu/rheoli risg. Mae Rheon yn arbenigo ym mhob agweddo lywodraethu ac maewedi cynnal sawl adolygiad ac aseiniad ymgynghorimewn ystod o sefydliadau bacha mawr yn y sector cyhoeddus. Bu'n cydweithio â'r Sefydliad SiartredigCyllid Cyhoeddus aChyfrifyddiaeth i ddatblygu eucyrsiau diploma a thystysgrif mewn Llywodraethu Effeithiol,tra hefyd yn cefnogi mentrau hyfforddi eraill mewn meysydd sy'n gysylltiedig â rheolaeth ariannol a risg.Mae Rheon wedi bod yn cymryd rhanweithredol mewn meysydd sy'ncefnogi plant a phobl ifanc yn ogystal â'r Gymraeg. Yn llywodraethwr ysgol cyn hynny, ymunodd â'r Urdd felTrysorydd a bu'n Ymddiriedolwr i'r sefydliad amdros 15 mlynedd. Mae'n GyfarwyddwrGŵyl Hanes Cymru i Blant, y sefydliad sy'n darparu profiadau byw ar-lein a byw unigolion neu sefydliadau allweddol sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at hanes Cymru. Ar hyn o bryd mae'n Aelod Anweithredol o Awdurdod Cyllid Cymru,ar ôl cael rolau tebygblaenorol yn S4C, Estyn a Cymwysterau Cymru.Mae wedi ymgymryd â rolau Pwyllgor Archwilioa Risg yng Nghomisiynydd y Gymraegac Amgueddfa Cymru ac maewedi cadeirio'r Bwrdd Cynghori yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Roedd hefyd yn gyfarwyddwr National Theatre Wales (Productions) Limited.

Mr Peter Waziri

Mae Peter yn weithredydd sy'n meddu ar feddylfryd byd-eang a thros 30 mlynedd o brofiad gan gynnwys gwasanaethau ariannol, rheoli gofal iechyd, strategaeth fusnes ac ymgynghoriaeth. Bu'n gwasanaethu fel Prif Swyddog Cyllid mewn gofal iechyd yn yr Unol Daleithiau a dros 20 mlynedd yn gweithio yn y sectorau bancio buddsoddi/corfforaethol, ecwiti preifat, rheoli buddsoddiadau a marchnadoedd cyfalaf yn yr Unol Daleithiau. Gweithiodd Peter fel dadansoddwr yn Sefydliad Cyllid Ewropeaidd cyn symud i'r Unol Daleithiau fel derbynnydd Ysgoloriaeth Sefydliad y Rotari yn cynrychioli Clwb Rotari Bangor. Gwasanaethodd fel llysgennad diwylliannol ac ewyllys da, oedd yn cynrychioli Cymru a gogledd Lloegr. Wedi hynny, derbyniodd MBA mewn Rheolaeth a Chyllid Rhyngwladol o Brifysgol Case Western Reserve yn Cleveland, Ohio. Ar hyn o bryd mae Peter yn eistedd ar fwrdd Xpress Wellness Urgent Care yn yr Unol Daleithiau, cwmni a gynheliir gan ecwiti preifat sy'n eiddo i Goldman Sachs, mewn dros 60 o leoliadau ledled Kansas, Oklahoma, a Texas. Mae Peter yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Bangor, mae'n frwdfrydig am roi'n ôl i'r Brifysgol ac mae'n aelod o'r Bwrdd Cynghori Alumni.

Judge Meleri Tudur Thomas

Magwyd Meleri Tudur ym Mangor ac aeth i Brifysgol Aberystwyth i astudio. Cafodd ei derbyn fel cyfreithwraig ym 1983 yn gweithio gyda Morgan Bruce a Nicholas ym Mhontypridd nes iddi symud i weithio fel cyfreithwraig fewnol i Gyngor Sir Gwynedd. Wedi hynny, dychwelodd i bractis preifat ym Mangor ac yng Nghaernarfon cyn ymuno â'r farnwriaeth, fel barnwr tribiwnlys am ffi i ddechrau. Cafodd ei phenodi i amryw o swyddi tribiwnlys yn ystod y 1990au, ledled Cymru a Lloegr, gan greu "gyrfa bortffolio" cyn i'r term gael ei ddyfeisio, tra'n magu teulu o bump o ferched yng Nghaernarfon.

Yn 2009, cododd y cyfle am swydd lawn-amser gyflogedig, fel barnwr yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol.

Penodwyd Meleri yn Ddirprwy Lywydd y Siambr Addysg Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Hydref 2014 fel Dirprwy Farnwr Uchel Lys yn Is-adran Mainc y Brenin yn Uchel Lys Lloegr a Chymru ym mis Awst 2019. Cafodd ei hawdurdodi i eistedd yn y Llys Gweinyddol yn 2021 a chafodd ei hawdurdodi i eistedd yn Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys a daeth yn Llywydd Panel Dyfarnu Cymru ym mis Gorffennaf 2024. Ar ei hymddeoliad o swydd Dirprwy Lywydd y Siambr ar 1 Mehefin 2025, cadwodd ei swydd yn y Tribiwnlys Uchaf a swyddi yn yr awdurdodaeth ddatganoledig.

Mae Meleri wedi bod yn hyfforddwr uwch i'r Coleg Barnwrol ymgynghorydd i'r Coleg Barnwrol ar hyfforddiant TG barnwrol. Mae hi'n parhau i fod yn aelod o fwrdd golygyddol Clarke Hall and Morrison on Children ac mae'n aelod o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol.

Dyfarnwyd Cymrodoriaeth er Anrhydedd i Meleri gan Brifysgol Bangor am ei gwasanaethau i'r gyfraith ac yn 2019.

Ymwneud â'r Rhanddeiliaid

Mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac mae gan y Brifysgol Fwrdd Cymunedol sy'n gweithredu fel llwyfan i ddwyn ynghyd ystod eang o randdeiliaid ym Mangor a gogledd orllewin Cymru. Mae'r Bwrdd yn rhoi llwyfan i'r Brifysgol drafod materion strategol allweddol gyda rhanddeiliaid allanol, codi materion brys, nodi meysydd ar gyfer cydweithredu a dyfnhau a chryfhau cysylltiadau â phartneriaid yn y gymuned. Mae'r Bwrdd yn rhan allweddol o genhadaeth ddinesig y Brifysgol, gan helpu i wella a hyrwyddo lles ein cymunedau.

Mae'r Brifysgol yn parhau i gynnal Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd yn rheolaidd gydag Undebau Llafur y Campws, cyn pob cyfarfod o'r Cyngor. Mae'r Fforwm yn galluogi uwch aelodau annibynnol Cyngor y Brifysgol i ymgysylltu'n effeithiol ag Undebau Llafur y Campws ar bob agwedd o gylch gorchwyl a chyfrifoldebau'r Cyngor ac i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â materion strategol a gweithredol. Yn ogystal, mae'r Fforwm yn gyfle i drafod materion strategol allweddol, galluogi cynrychiolwyr Undebau Llafur y Campws i gael eu briffio ynglŷn â materion sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd gan y Cyngor, a chaniatáu i gynrychiolwyr gyflwyno barn eu haelodau am y materion hynny cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud gan y Cyngor. Rhennir cofnodion y Fforwm gyda'r Cyngor.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Cadeirydd: Syr Paul Lambert

Caiff y Pwyllgor Archwilio a Risg ei gadeirio gan aelod annibynnol o'r Cyngor ac mae'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'n cynnwys pum aelod annibynnol o'r Cyngor a bydd archwilwyr mewnol ac allanol y Brifysgol hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd. Mae'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymatebion y rheolwyr a chynlluniau gweithredu. Mae aelodau'r tîm gweithredu ac uwch staff eraill yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn ôl yr angen.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar reoli risgiau a phenodi a thalu'r archwilwyr mewnol ac allanol. Yn unol â'r Polisi Rheoli Risg, mae gan y Brifysgol brosesau ffurfiol ar waith i werthuso a rheoli risgiau sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Bydd yn derbyn adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risg allweddol ac yn ystyried materion posibl yn ymwneud â chamau rheoli y tynnir sylw atynt gan fecanweithiau rhybuddio cynnar sydd wedi eu hymgorffori o fewn unedau gweithredol y Brifysgol ac a atgyfnerthir gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r pwyslais ar gael mesur addas o sicrwydd ac nid ar adrodd yn ôl eithriadau yn unig. Mae'r pwyllgor yn ystyried dogfennaeth prosesau rheoli risg ac archwilio mewnol y Brifysgol, ac yn ystyried y pethau a ddigwyddodd ers diwedd y flwyddyn flaenorol.

Risg a Chamau Rheoli Mewnol

Mae Cyngor y brifysgol yn gyfrifol am system camau rheoli mewnol y brifysgol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion y brifysgol, gan ddiogelu cyllid cyhoeddus a chyllid arall.

Cynlluniwyd systemau'r camau rheoli mewnol hyn i reoli, yn hytrach na dileu, risgiau sylweddol sy'n bygwth amcanion busnes y Brifysgol; felly dim ond sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd absoliwt a geir rhag camddatganiad neu golled faterol berthnasol.

Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol ar waith yr archwiliwr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae hyn yn darparu sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd system camau rheoli mewnol a phrosesau rheoli risg a llywodraethu'r Brifysgol.

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2025, mae'r adroddiad yn mynegi meysydd pellach gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn, a bod gan y Brifysgol weithdrefnau rheoli risgiau a llywodraethiant rhesymol ac effeithiol ar waith. Mae'r Cyngor yn fodlon y bu hyn ar waith yn y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, ei fod yn unol â chanllawiau Medr; a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y Brifysgol brosesau digonol ac effeithiol ar waith mewn perthynas â rheoli

risgiau, camau rheoli a llywodraethiant; darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a rheoli a sicrhau ansawdd y data a gyflwynir i gyrff statudol - gan gofio na all unrhyw system camau rheoli mewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, eithr nid diamod, rhag camddatganiad neu golled.

Mae elfennau allweddol system reoli gyllidol fewnol y Brifysgol, a gynlluniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodwyd uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau eglur o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academaidd a gweinyddol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt
- proses gynllunio gynhwysfawr tymor canolig a byr, wedi ei hategu â chyllidebau incwm, gwariant a chyfalaf blynyddol manwl
- adolygiadau rheolaidd o berfformiad academaidd ac adolygiadau chwarterol o ganlyniadau ariannol gan gynnwys adrodd ar amrywiant a diweddaru canlyniadau a ragwelwyd
- gofynion a ddiffiniwyd ac a ffurfiolwyd yn eglur ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, gyda'r penderfyniadau buddsoddi sy'n cynnwys gwariant cyfalaf neu refeniw yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol ac yn fanwl a'u hadolygu yn unol â lefelau cymeradwyo a bennir gan y Cyngor
- rheoliadau ariannol cynhwysfawr, yn nodi manylion am gamau rheoli a gweithdrefnau ariannol, wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth
- swyddogaeth archwilio mewnol broffesiynol a drefnir trwy gontract allanol, y caiff ei rhaglen flynyddol ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Pwyllgor Cyllid

Cadeirydd - Mr Eric Hepburn

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am adolygu, ar ran y Cyngor, iechyd ariannol cyffredinol y sefydliad, a pherfformiad y Brifysgol yn erbyn ei strategaethau arfaethedig, ac am gadw trosolwg a gwneud argymhellion ar gyfeiriad strategol a strategaeth ariannol y Brifysgol.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan Aelod Annibynnol o'r Cyngor, roedd hefyd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, tri aelod annibynnol arall o'r Cyngor, aelod o staff sy'n aelod o'r Cyngor, Llywydd Undeb y Myfyrwyr. yn ogystal ag uwch-aelodau o staff y Brifysgol gan gynnwys yr Is-ganghellor, Dirprwy Is-ganghellor, Prif Swyddog Cyllid a Ysgrifenydd y Brifysgol.

Mae'r Is-bwylgor Buddsoddi, dan Gaderiyddiaeth Mrs Emily Rees, yn adrodd i'r Pwyllgor Cyllid, gan ddarparu trosolwg o bortffolio buddsoddi'r Brifysgol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith, gyda chyfarfodydd eithriadol ychwanegol ar ben hynny, ac, yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor, trafodwyd y materion a ganlyn:

- monitro chwarterol ar berfformiad ariannol y Brifysgol gan gynnwys sefyllfa ariannol a recriwtio myfyrwyr;
- adolygiad o gytundebau benthyciad; adolygu cyfrifon blynyddol y Brifysgol ar ran y Cyngor;
- goruchwylio rhaglen gyfalaf y Brifysgol gan gynnwys adroddiadau rheolaidd gan brosiectau cyfalaf ystadau a digidol;
- ystyried cofnodion yr Is-Bwyllgor Buddsoddi, a chymeradwyo'r Polisi Buddsoddi Cynaliadwy;
- Gweithdrefnau Caffael diwygiedig;
- diweddariadau'r Grŵp Cynllunio a Thrawsnewid;
- Ystyriaeth o Adroddiad Prifysgol Dundee;
- goruchwylio cyflwyniadau i gyrff statudol: cynllun ffioedd a mynediad Medr, rhagolygon ariannol Medr, adolygiad Trothwy Benthyca Tairblynyddol Medr, dychweliad TRAC;

- gwneud argymhellion i'r Cyngor fel y prif gyflogwr mewn materion sy'n ymwneud â phob cynllun pensiwn; ac
- ystyried a phenderfynu ar yswiriant y Brifysgol, penodi bancwyr ac ymgynghorwyr ariannol eraill
- Diweddariadau ar gyfer Is-gwmnïau

Cynhaliwyd Cyfarfod ar y Cyd gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd

Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd

Cadeirydd: Mrs Marian Wyn Jones

Caiff y Pwyllgor Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd ei gadeirio gan Mrs Marian Wyn Jones, Cadeirydd y Cyngor ac, roedd yn cynnwys pedwar aelod annibynnol ychwanegol o'r Cyngor, ynghyd â'r Is-ganghellor, y Dirprwy i'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-ganghellor (Y Gymraeg, Cenhadaeth Ddinesig a Phrojectau Strategol), tri Dirprwy Is-ganghellor/Pennaeth Coleg, y Prif Swyddog Marchnata ac Ysgrifennydd y Brifysgol.

Bydd y Pwyllgor, ar ran y Cyngor, yn ystyried yr enwebiadau a gafwyd am Raddau er Anrhydedd a Chymrodoriaethau ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor ynglŷn â'r graddau er anrhydedd a'r cymrodoriaethau y dylid eu dyfarnu.

Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu

Cadeirydd: Mrs Marian Wyn Jones

Caiff y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ei gadeirio gan Mrs Marian Wyn Jones, Cadeirydd y Cyngor ac, yn ystod 2024/25, roedd yn cynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor, Llywydd Undeb y Myfyrwyr a'r aelod staff academaidd ar y Cyngor. Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn ogystal â rhai o uwch swyddogion y brifysgol hefyd yn aelodau.

Mae'r Pwyllgor, ar ran y Cyngor, yn goruchwylio Llywodraethiant y Brifysgol, aelodaeth a chylch gorchwyl y Cyngor a'i Is-bwyllgorau, ac effeithiolrwydd llywodraethu yn y Brifysgol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 cyfarfu'r Pwyllgor ar dau achlysur gan roi ystyriaeth ym mhob cyfarfod i aelodaeth y Cyngor, presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor, cynllunio olyniaeth mewn perthynas ag uwch-aelodau staff, aelodaeth o Is-bwyllgorau'r Cyngor a'r cynnydd a wnaed gyda chynlluniau gweithredu. Yn ogystal â chyfarfod eithriadol ychwanegol i ystyried moderneiddio'r Ordinhadau Adnoddau Dynol cyfarfu'r:

- Cylch Gorchwyl Is-bwyllgorau'r Cyngor;
- Adroddiadau Adolygiad Sicrwydd Blynyddol Is-bwyllgorau'r Cyngor
- Adolygiadau Datblygu Blynyddol: Aelodau'r Cyngor a Chadeirydd y Cyngor
- Diweddariadau ynghylch cynlluniau gweithredu;
- Cynllun ymgysylltiad aelodau'r Cyngor;
- Y Cynllun Dirprwyo a'r Pwerau Gwneud Penderfyniadau
- Cofrestr o Fuddiannau
- Adroddiad Archwiliad Sgiliau ac Amrywiaeth
- Adroddiad Holiadur Aelodau'r Cyngor
- Adolygiad o'r Ordinadau yn unol â'r Siarter Atodol newydd
- Canllaw i Aelodau'r Cyngor
- Aelodaeth o Is-bwyllgorau'r Cyngor

- Aelodaeth o Fyrddau Allanol
- Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu 2023: Adolygiad o'r Adroddiad a'r Argymhellion

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cadeirydd - Dr Ian Rees

Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn gyfrifol am oruchwylio datblygiad a gweithrediad y themâu pobl a diwylliant yng Nghynllun Strategol y Brifysgol, gan dderbyn sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, sicrhau bod gweithdrefnau trylwyr a thryloyw ar waith fel rhan o bolisïau'n ymwneud â chyflogeion a bod systemau ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus a monitro sut y caiff strategaeth y Brifysgol ei chyflawni mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb, gan gynnwys cydraddoldeb hil a rhoi ystyriaeth i'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil. Yn ogystal, caiff y Pwyllgor ei ddiweddaru ynghylch hyfforddiant sy'n ymwneud â'r themâu pobl a diwylliant yn ogystal â derbyn diweddariadau ynglŷn â chyfraddau cwblhau adolygiadau datblygu perfformiad ac asesu effaith ar brofiad myfyrwyr. Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses mewn perthynas â staff ar gontractau cyfnod penodol ac yn monitro gweithrediad arolygon staff a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan Aelod Annibynnol o'r Cyngor, ac, yn ystod 2024/25, roedd hefyd yn cynnwys Dirprwy Is-ganghellor, yr aelod staff anacademaidd ar y Cyngor (fel arsylwr), Llywydd Undeb y Myfyrwyr a dau aelod annibynnol ychwanegol o'r Cyngor. Mae gan y Pwyllgor hefyd ddau aelod cyd-gyfetholedig, sy'n allanol i'r Brifysgol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 cyfarfu'r Pwyllgor ar dri achlysur a thrafodwyd yr eitemau canlynol:

- Sicrhad ac adolygiad blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor;
- Fframwaith Datblygu Sefydliadol;
- Cynaliadwyedd Ariannol a Chynllun Gwirfoddol Diswyddo;
- Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol;
- Adroddiad y Bwlch Tâl rhwng y Rhywiau;
- Adroddiad Blynyddol Atal Dyletswydd
- Adroddiad Concordat Ymchwil Blynyddol
- Darpariaeth Hyfforddi a Mentora
- Yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol/ Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau;
- Datganiad ar Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl;
- Siarter Cydraddoldeb Hil;
- Ceisiadau am wobr Arian Athena Swan;
- Diweddariad ynghylch materion Iechyd a Lles;

Yn ogystal, trafodwyd yr eitemau canlynol ym mhob cyfarfod:

- Cofnodion a Diweddariadau gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles;
- Cofnodion a Diweddariadau gan y Pwyllgor Materion y Gymraeg
- Log Deddfwriaeth a Diweddariad ynghylch Deddfwriaeth Berthnasol;
- Adroddiad ar Recriwtio, Trosiant a Gwaith Achos;
- Ceisiadau am statws Athro Emeritws;
- Adolygu Contractau Cyfnod Penodol

Pwyllgor Taliadau

Cadeirydd –Mrs Julie Perkins (tan 31 Rhagfyr 2024) Yr Athro Tim Wheeler (o Ionawr 2025)

Caiff y Pwyllgor Taliadau ei gadeirio gan Aelod Annibynnol o'r Cyngor, ac yn ystod 2022/23 roedd ei aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, cynrychiolydd staff academaidd a dau aelod annibynnol o'r Cyngor. Mae'r Prif Swyddog Pobl hefyd yn bresennol. Mae ei gylch gorchwyl wedi ei bennu yn unol â Chod y Pwyllgor Is-ganghellor, Prif Swyddog Pobl, Dirprwy Swyddog Pobl a Ysgrifenydd y Brifysgol hefyd yn bresennol. Y Pwyllgor hwn sy'n pennu cyflog yr Is-ganghellor, aelodau'r Bwrdd Gweithredol a staff sy'n derbyn cyflogau o £100,000 a mwy, ac yn adolygu'r penderfyniadau hynny. Yma y pennir y strategaeth ar gyfer taliadau diswyddo i uwch-aelodau staff y Brifysgol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 cyfarfu'r Pwyllgor ar ddau achlysur gan roi ystyriaeth i'r eitemau canlynol:

- Datganiad Blynyddol y Polisi Cyflogau
- Adroddiad Taliadau;
- Adolygiad Cyflogau Uwch-Aelodau Staff
- Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a'r Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- Amcanion y Bwrdd Gweithredol
- Newidiadau i'r Bwrdd Gweithredol
- Diweddariad am y Dyfarniad Cyflog

Pwyllgor Materion y Gymraeg

Cadeirydd –Dr Ian Rees (tan fis Mai 2024) Ms Elin Wyn (o fis Mai 2024)

Pwyllgor Materion y Gymraeg sy'n gyfrifol am sicrhau bod dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo o fewn y Brifysgol, ac fel rhan o genhadaeth ddinesig y Brifysgol, ac mewn perthynas ag unrhyw un o amcanion y Brifysgol, ar ran y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol. Mae hefyd yn sicrhau y cydymffurfir â fframwaith deddfwriaethol y Gymraeg, gan graffu ar ddatblygu a gweithredu strategaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol a'i Pholisi Iaith Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor ac yn paratoi Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan Aelod Annibynnol o'r Cyngor, ac yn ystod 2024/25, roedd ei aelodaeth yn cynnwys dau aelod annibynnol ychwanegol o'r Cyngor, ac aelod o staff sydd ar y Cyngor,, y Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg, Ymgysylltu Dinesig a Phartneriaethau Strategol) a'r Llywydd UMCB, yn ogystal ag uwch swyddogion perthnasol eraill o'r Brifysgol.Mae gan y Pwyllgor hefyd aelod cyfetholedig, allanol i'r Brifysgol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 cyfarfu'r Pwyllgor ar dri achlysur a thrafodwyd yr eitemau canlynol:

- Sicrwydd Blynyddol ac Adolygiad o'r Termau Cyfeirio;
- System gofrestru ddiofyn;
- Dadansoddiad o ddata ymgeiswyr meddygol;
- Technoleg i hyrwyddo defnydd ac i newid ymddygiad;
- Adroddiad Profiad Myfyrwyr Cymraeg UMCB;
- Diweddariadau ar y Strategaeth Iaith Gymraeg a Chynllun Gweithredu'r Strategaeth Iaith Gymraeg;
- Diweddariad ar weithgareddau'r Eisteddfod Genedlaethol;
- Diweddariad ar y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg;
- Ystadegau HESA 2023/24;

Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan Lywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB), a Chofnodion Grŵp Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant ym mhob cyfarfod.

Pwyllgorau Allweddol Eraill y Brifysgol

Y Senedd

Y Senedd yw awdurdod academaidd y brifysgol a daw ei haelodaeth yn gyfan gwbl o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2024/25 cynhaliwyd adolygiad o'r Senedd, gyda'r aelodaeth yn cael ei lleihau i 25. Cyfarfu'r Senedd bedair gwaith. Mae aelodaeth y Senedd wedi ei bennu yn Ordinhad 12 a'r Is-ganghellor yw'r cadeirydd. Mae'r aelodaeth ar gyfer 2024/25 hefyd yn cynnwys y Dirprwy i'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, pob Pennaeth Ysgol, tri cynrychiolydd myfyrwyr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr, hyd at tri aelod cyfetholedig.

Mae'r is-bwyllgorau canlynol yn adrodd i'r Senedd: Panel Apeliadau'r Senedd, Byrddau Arholi, y Pwyllgor Gwobrau a Dyfarniadau, y Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig, y Pwyllgor Llywodraethu Ymchwil a Moeseg, Pwyllgor Enwebiadau'r Senedd a'r Bwrdd Disgyblu.

Y Llys

Corff mawr, ffurfiol yw'r Llys sydd i raddau'n debyg i gyfarfod rhanddeiliaid. Mae'n gyfrwng i gysylltu'r sefydliad â'r buddiannau ehangach y mae'r Brifysgol yn eu gwasanaethu, ac mae'n fforwm cyhoeddus lle gall aelodau'r Llys godi unrhyw faterion yn ymwneud â'r Brifysgol. Fel rheol mae'r Llys yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i dderbyn adroddiad blynyddol a chyfrifon y brifysgol. Daw mwyafrif aelodau'r Llys o'r tu allan i'r brifysgol, gan gynrychioli cymunedau gogledd Cymru a chyrff penodol eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y brifysgol, ond mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith staff y brifysgol (academaidd a gwasanaethau proffesiynol) ac o blith y myfyrwyr. Nodir aelodaeth y Llys yn Ordinhad 13.

Y Bwrdd Gweithredol

Y Bwrdd Gweithredol yw uwch grŵp rheoli'r Brifysgol, ac mae'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiad cyffredinol y Brifysgol. Caiff ei gadeirio gan yr Is-ganghellor ac yn ystod 2024/25 mi oedd yr aelodaeth yn cynnwys y Dirprwy i'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, y Prif Swyddog Cyllid, y Prif Swyddog Trawsnewid, y Prif Swyddog Pobl, y Prif Swyddog Strategaeth a Chynllunio, y Prif Swyddog Marchnata ac Ysgrifennydd y Brifysgol.

ADRODDIAD YR ARCHWILLYDD

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Bangor ("Y Brifysgol") gogyfer â'r flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025 sy'n cynnwys Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol a Phrifysgol, y Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn Cyfunol a Phrifysgol, y Mantolenni Cyfunol a Phrifysgol, a'r Datganiad Llif Arian Cyfunol a nodiadau am y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2025 ac o symudiad net y Brifysgol o ran cronfeydd, gan gynnwys yr incwm a'r gwariant, gogyfer â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifo'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland, a chyda'r Statement of Recommended Practice – Accounting for Further and Higher Education 2019; ac
- wedi cael eu paratoi'n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch 2004, Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Medr.

Sail y farn

Rydym wedi cael ein penodi fel archwiliwr o dan Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac o dan adran 144 Deddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sydd mewn grym oddi tani. Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) a chyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwiliad y datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn sail ddigonol ac addas ar gyfer ein barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Cyngor o sail cyfrifo busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol. Yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi ei wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol berthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r grŵp i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â busnes hyfyw yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Y Cyngor (y mae ei aelodau'n Ymddiriedolwyr i'r Brifysgol at ddibenion cyfraith elusennau) sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd ar y datganiadau hynny. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â gweddill yr wybodaeth ac felly nid ydym yn mynegi barn archwilio nac yn dod i unrhyw fath o gasgliad o ran sicrwydd ynghylch yr wybodaeth honno, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod. Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn ei hanfod yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gawsom yn yr archwiliad neu a yw mewn unrhyw ffordd arall yn ymddangos fel pe bai yn ei hanfod wedi'i chamddatgan. Os ydym yn nodi anghysondebau materol berthnasol o'r fath neu

gamddatganiadau ymddangosiadol berthnasol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os ydym, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi ei wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol berthnasol o'r wybodaeth arall, mae'n ofynnol i ni adrodd am y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion y mae angen i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi amdanynt os, yn ein barn ni:

- nad oes cofnodion cyfrifo digonol wedi'u cadw gan y rhiant-Brifysgol elusennol; neu
- nad oes digon o gofnodion cyfrifo wedi'u cadw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-Brifysgol yn gytûn â'r cofnodion cyfrifo a'r dychwelebau; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ydym eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Cyngor o ran y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a amlinellir ar dudalen 72-73, mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am unrhyw gamau rheoli mewnol y mae'r Cyngor o'r farn eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau materol berthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r rhiant-Brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, yn ôl y galw, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifo busnes hyfyw oni bai bod y Cyngor naill ai'n bwriadu datod y grŵp neu'r rhiant-Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes dewis arall realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwiliwr o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol, drwodd a thro, yn rhydd rhag camddatganiad materol berthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyflwyno ein barn mewn adroddiad archwiliwr. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) bob amser yn canfod camddatganiad materol berthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn faterol berthnasol, os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu'n yn gyfun, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr sy'n cael eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol. Mae anghysondebau, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol berthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Mae manylion isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twyll.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r grŵp a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, fe wnaethom nodi bod y prif risgiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â chydymffurfio â gofynion Medr o ran rheoleiddio Addysg Uwch a chydymffurfiaeth â chyfraith elusennol sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, ac fe wnaethom ystyried i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfiaeth gael effaith faterol berthnasol ar y datganiadau ariannol. Ystyriom hefyd y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol megis y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Addysg Bellach ac Addysg Uwch 2019, y Cyfarwyddyd i Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ynglŷn â'u Cyfrifon 2024/25, Deddf Elusennau 2011, deddfwriaeth trethiant a deddfwriaeth pensiynau.

Bu i ni werthuso cymhellion y rheolwyr a chyfleoedd i fanipiwleiddio'r datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o wrth-wneud camau rheoli), a phenderfynom bod y prif risgiau'n gysylltiedig â thorri refeniw ac eithrio refeniw ffioedd myfyrwyr mewn modd amhriodol a gwrth-wneud camau rheoli gan reolwyr.

Roedd y gweithdrefnau archwilio a wnaed gan y tîm ymgysylltu'n cynnwys:

- Archwilio gohebiaeth gyda rheoleiddwyr ac awdurdodau treth;
- Trafodaethau gyda'r rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu achosion a amheuir o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Gwerthuso'r camau rheoli a gymerwyd gan y rheolwyr gyda'r nod o atal a chanfod anghysondebau;
- Nodi a phrofi cofnodion dyddlyfr, yn benodol cofnodion dyddlyfr a wnaed gyda chyfuniadau anarferol o gyfrifon, cofnodion gan ddefnyddwyr anarferol neu gyda disgrifiadau anarferol; a
- Herio tybiaethau a barn a wnaed gan y rheolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifo.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid unrhyw archwiliad, mae risg na fyddwn yn canfod pob afreoleidd-dra, gan gynnwys y rhai sy'n arwain at gamddatganiad materol berthnasol yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau. Mae'r risg hon yn cynyddu po fwyaf y caiff cydymffurfiaeth â chyfreithiau neu reoliadau eu gwaredu o'r digwyddiadau a'r trafodion sy'n cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol, gan y byddwn yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae'r risg hefyd yn fwy o ran afreoleidd-dra sy'n digwydd oherwydd twyll yn hytrach na gwall, gan fod twyll yn cynnwys bwriad i guddio, ffugio, cydgynllwynio, hepgor neu gamliwio.

Ceir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwiliwr.

Adroddiad ar ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eraill

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion canlynol a ragnodir yn y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd i Sefydliadau Addysg Uwch ynglŷn â'u Cyfrifon 2023/24 a gyhoeddwyd gan Medr ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon").

Cafodd y gwaith o reoleiddio sector Addysg Uwch Cymru ei drosglwyddo o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('HEFCW') i Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar 1 Awst 2024. Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol a Thelerau ac Amodau Cyllido 2024/25 a gyhoeddwyd gan HEFCW yn parhau mewn grym ar ddyddiad ein hadroddiad. O ganlyniad i'r trosglwyddiad hwnnw o gyfrifoldebau, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at Medr yn ein hadroddiad fel pe bai hefyd yn cyfeirio at HEFCW.

.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd faterol berthnasol:

- mae arian o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac wedi'u rheoli'n unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm, lle bo'n briodol, wedi'i gymhwyso gan y Grŵp neu'r Brifysgol yn unol â pharagraff 145 o God Rheolaeth Ariannol HEFCW;
- Mae grantiau gan Gynghorau Cyllido wedi'u cymhwyso'n unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt ac wedi eu defnyddio at y dibenion y cawsant eu derbyn, gan gynnwys Telerau a'r Amodau Cyllido 2023/24 a gyhoeddwyd gan HEFCW; ac
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon Medr wedi'u bodloni

Defnyddio ein hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gyngor y Brifysgol yn unig, fel corff, yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Gwnaed ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i'r Cyngor y materion hynny y mae angen i ni eu datgan mewn adroddiad Archwiliwr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un ac eithrio'r Cyngor fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn y daethom iddi

Steve Harper

Ar ran HaysMac LLP, Archwilwyr Statudol

10 Queen Street Place

Llundain

EC4R 1AG

28 Tachwedd 2025

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion y Telerau a'r Amodau Cyllido 2024/25 a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), y Cyfarwyddyd i Sefydliadau Addysg Uwch ynglŷn â'u Cyfrifon 2024/25 a gyhoeddwyd gan Medr (Cyfarwyddyd cyfrifon), y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae'n ofynnol iddo baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp a'r rhiant-brifysgol yn unol â safonau cyfrifo'r Deyrnas Unedig a chyfraith berthnasol (yr arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys FRS 102 The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland a gofynion Deddf Elusennau 2011. Mae'r Telerau a'r Amodau Cyllido yn ei gwneud yn ofynnol bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi'n unol â Datganiad o'r Arfer a Argymhellir – Cyfrifo ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch 2019, yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd i Sefydliadau Addysg Uwch ynglŷn â'u Cyfrifon ar gyfer 2024/25 a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant- brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, enillion a cholledion a newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llif arian y Grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiantbrifysgol, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifo addas, ac yna'u defnyddio'n gyson;
- dod i farn ac amcangyfrif mewn modd sy'n rhesymol a doeth;
- datgan a yw safonau cyfrifo perthnasol y Deyrnas Unedig wedi'u dilyn a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, yn amodol ar unrhyw wyriadau materol berthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw; a
- defnyddio sail cyfrifo busnes hyfyw oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r rhiant-brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y rhiant- brifysgol a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y rhiant-brifysgol. Y Cyngor sy'n gyfrifol am unrhyw gamau rheoli mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Cyngor i alluogi paratoi datganiadau ariannol lle na cheir camddatganiad materol berthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac yn gyfrifol yn gyffredinol dros gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol (parhad)

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- mae arian o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac wedi'u rheoli'n unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm, lle bo'n briodol, wedi'i gymhwyso yn unol â pharagraff 145 o'r Cod Rheolaeth Ariannol;
- mae grantiau'r Cyngor Cyllido wedi'u cymhwyso yn unol â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrthynt a'u defnyddio at y dibenion y cawsant eu derbyn, gan gynnwys y Telerau a'r Amodau Cyllido;
- sicrhau fod camau rheoli ariannol priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol dros adnoddau a gwariant y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a geir ar wefan y Brifysgol ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

	Nodiadau	2024/25 Cyfunol £'000	2024/25 Prifysgol £'000	2023/24 Cyfunol £'000	2023/24 Prifysgol £'000
Incwm					
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	1	**79,577**	**79,577**	90,500	90,500
Grantiau cyrff cyllido	2	**24,911**	**24,911**	22,141	22,141
Grantiau a chontractau ymchwil	3	**21,587**	**21,587**	22,534	22,506
Incwm arall	4	**29,622**	**25,912**	32,111	29,107
Incwm buddsoddi	5	**1,371**	**1,371**	2,009	2,009
Gwaddolion a rhoddion	6	**862**	**862**	823	823
Cyfanswm incwm		**157,930**	**154,220**	170,118	167,086
Gwariant					
Costau staff	7	**94,622**	**92,243**	98,772	96,756
Symudiad yn Narpariaeth Pensiwn USS	7	**0**	**0**	(42,850)	(42,850)
Costau ail-strwythuro	7	**5,055**	**5,055**	398	398
Treuliau gweithredu eraill		**55,507**	**54,790**	66,231	65,583
Dibrisiad	11	**16,345**	**15,793**	16,158	15,730
Amhariad asedau sefydlog	11	**561**	**561**	2,234	2,234
Llog a chostau ariannu eraill	8	**4,718**	**4,718**	313	313
Cyfanswm gwariant	9	**176,808**	**173,160**	141,256	138,164
Gwarged/(Diffyg) cyn enillion/(colledion) eraill a chyfran o warged gweithredu menter ar y cyd		**(18,878)**	**(18,940)**	28,862	28,922
Enillion / (Colled) ar waredu asedau sefydlog		**0**	**0**	0	0
Enillion / (Colled) ar fuddsoddiadau		**693**	**693**	647	647
Cyfran o (ddiffyg) / gwarged gweithredu mewn mentrau ar y cyd	15	**(105)**	**0**	(26)	0
Gwarged/(Diffyg) cyn treth		**(18,290)**	**(18,247)**	29,483	29,569
Trethiant	10	**0**	**0**	0	0
Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn wedi ei briodoli i:		**(18,290)**	**(18,247)**	29,483	29,569
Symudiad yn y Ddarpariaeth Pensiwn	21	**1,735**	**1,735**	(3,717)	(3,717)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		**(16,555)**	**(16,512)**	25,766	25,852
Cynrychiolir gan:					
Incwm gwaddol cynhwysfawr am y flwyddyn	22	**923**	**923**	1,013	1,013
Incwm cyfyngedig cynhwysfawr am y flwyddyn	23	**560**	**560**	389	389
Incwm anghyfyngedig cynhwysfawr am y flwyddyn		**(18,038)**	**(17,995)**	24,364	24,450
		(16,555)	**(16,512)**	25,766	25,852
Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn wedi ei briodoli i:					
Budd anrheolaethol		**(105)**	**0**	(26)	0
Prifysgol		**(18,185)**	**(18,247)**	29,509	29,569
Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr am y flwyddyn wedi ei briodoli i:					
Budd anrheolaethol		**(105)**	**0**	(26)	0
Prifysgol		**(16,450)**	**(16,512)**	25,792	25,852

Mae holl eitemau cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau.
Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 78 i 113 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn Cyfunol a Phrifysgol
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

Cyfunol

	Cyfrif incwm a gwariant: Gwaddol £'000	Cyfyngedig £'000	Anghyfyngedig £'000	**Cyfanswm £'000**
Ar 1 Awst 2023	**8,176**	**739**	**201,177**	**210,096**
Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant	1,155	612	27,716	**29,483**
Incwm cynhwysfawr arall	0	0	(3,717)	**(3,717)**
Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn	(141)	(223)	364	**0**
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	1,014	389	24,363	**25,766**
Ar 1 Awst 2024	**9,190**	**1,128**	**225,540**	**235,862**
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	1,148	721	(20,159)	**(18,290)**
Incwm cynhwysfawr arall	0	0	1,735	**1,735**
Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn	(225)	(161)	386	**0**
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	923	560	(18,038)	**(16,555)**
Ar 31 Gorffennaf 2025	**10,113**	**1,688**	**207,502**	**219,307**

Prifysgol

	Cyfrif incwm a gwariant: Gwaddol £'000	Cyfyngedig £'000	Anghyfyngedig £'000	**Cyfanswm £'000**
Ar 1 Awst 2023	**8,176**	**739**	**196,860**	**205,779**
Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant	1,155	612	27,803	**29,570**
Incwm cynhwysfawr arall	0	0	(3,717)	**(3,717)**
Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn	(141)	(223)	364	**0**
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	1,014	389	24,450	**25,853**
Ar 1 Awst 2024	**9,190**	**1,128**	**221,310**	**231,632**
Gwarged/(diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant	1,148	721	(20,116)	**(18,247)**
Incwm cynhwysfawr arall	0	0	1,735	**1,735**
Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn	(225)	(161)	386	**0**
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	923	560	(17,995)	**(16,512)**
Ar 31 Gorffennaf 2025	**10,113**	**1,688**	**203,315**	**215,120**

Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 78 i 113 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Datganiad Sefyllfa Ariannol Cyfunol a Phrifysgol
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

		2025		2024	
		Cyfunol	**Prifysgol**	Cyfunol	Prifysgol
	Nodiadau	**£'000**	**£'000**	£'000	£'000
Asedau anghyfredol					
Asedau sefydlog	11	**282,058**	**277,743**	289,612	285,413
Ased Pensiwn	30B	**7,510**	**7,510**	6,232	6,232
Buddsoddiadau	14	**7,978**	**8,028**	7,449	7,499
Buddsoddiad mewn menter ar y cyd	15	**627**	**0**	732	0
		298,173	**293,281**	304,025	299,144
Asedau cyfredol					
Stoc	16	**72**	**76**	89	88
Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill	17	**24,480**	**25,830**	25,111	26,918
Buddsoddiadau	18	**40**	**0**	16,321	16,281
Arian parod a chywerthoedd arian parod	25	**15,784**	**14,652**	17,159	16,181
		40,376	**40,558**	58,680	59,468
Llai: Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	19	**(37,605)**	**(37,479)**	(42,852)	(42,814)
Asedau cyfredol net		**2,771**	**3,079**	15,828	16,654
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		**300,944**	**296,360**	319,853	315,798
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	20	**(79,546)**	**(79,161)**	(83,898)	(84,088)
Darpariaethau					
Darpariaethau eraill	21	**(2,091)**	**(2,079)**	(93)	(78)
Cyfanswm asedau net		**219,307**	**215,120**	235,862	231,632
Cronfeydd Cyfyngedig					
Cronfa gwaddol	22	**10,113**	**10,113**	9,190	9,190
Cronfa incwm a gwariant	23	**1,688**	**1,688**	1,128	1,128
Cronfeydd Anghyfyngedig					
Cronfa incwm a gwariant		**207,607**	**203,420**	225,570	221,340
		219,408	**215,221**	235,888	231,658
Budd anrheolaethol		**(101)**	**(101)**	(26)	(26)
Cyfanswm Cronfeydd		**219,307**	**215,120**	235,862	231,632

Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 78 i 113 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2025 a chawsant eu llofnodi ar ei ran ar 28 Tachwedd gan:

Yr Athro Edmund Burke
Yr Is-ganghellor

Mrs Marian Wyn Jones
Cadeirydd y Cyngor

Mr Martyn Riddleston
Prif Swyddog Cyllid

Datganiad Llif Arian Cyfunol
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

		2024/25	2023/24
Llif arian o weithgareddau gweithredu	Nodiadau	**£'000**	£'000
Gwarged / (Diffyg) am y flwyddyn		**(18,290)**	29,483
Addasiad ar gyfer eitemau nad arian parod mohonynt			
Dibrisiad	11	**16,345**	16,158
Amhariad asedau sefydlog	11	**561**	2,234
Colled / (Enillion) ar fuddsoddiadau		**(693)**	(647)
(Cynnydd) / Gostyngiad mewn stoc	16	**17**	(2)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn dyledwyr		**631**	9,278
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn credydwyr		**(5,227)**	(4,078)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn darpariaeth / ased pensiwn	21	**457**	(47,933)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn darpariaethau eraill	21	**1,998**	(8)
Cyfran o warged gweithredu mewn mentrau ar y cyd	15	**105**	26
		14,194	(24,972)
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu gyllido			
Incwm grant cyfalaf		**(3,003)**	(1,458)
Adenillion ar werthu asedau sefydlog		**0**	0
Incwm buddsoddi	5	**(1,371)**	(2,009)
Llog sy'n daladwy	8	**4,718**	4,732
Incwm gwaddol	6	**(136)**	(48)
		208	1,217
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu		**(3,888)**	5,728
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Derbyniadau grant cyfalaf		**3,003**	1,458
Derbyniadau o werthu asedau sefydlog		**7**	70
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog		**(9,355)**	(8,107)
Incwm buddsoddi	5	**1,371**	2,009
Buddsoddiadau asedau cyfredol newydd	18	**0**	(818)
Gwerthiant o fuddsoddiadau asedau cyfredol	18	**16,281**	0
Buddsoddiadau asedau anghyfredol newydd		**(1,575)**	(1,214)
Gwaredu buddsoddiadau asedau anghyfredol		**1,735**	1,322
		11,467	(5,281)
Llifoedd arian o weithgareddau cyllido			
Llog a dalwyd	8	**(931)**	(940)
Elfen log prydles gyllidol a thaliadau consesiwn gwasanaeth	8	**(3,787)**	(3,792)
Arian parod gwaddol a dderbynnir	22	**136**	48
Ad-dalu prydlesi cyllidol a chonsesiynau gwasanaeth	19/20	**(1,622)**	(1,510)
Benthyciadau ansicredig newydd	19/20	**0**	0
Ad-dalu benthyciadau ansicredig	19/20	**(2,750)**	(3,057)
		(8,954)	(9,251)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn arian parod a chywerthoedd arian parod yn y flwyddyn		**(1,375)**	(8,804)
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	25	**17,159**	25,963
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	25	**15,784**	17,159
		(1,375)	(8,804)

Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 78 i 113 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

Datganiad Prif Bolisïau Cyfrifo
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

1. Gwybodaeth gyffredinol

Mae Prifysgol Bangor wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1141565). Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG.

2. Sail paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol Cyfunol a Phrifysgol yn unol â Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifo ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch a gyhoeddwyd yn 2019. Fe'u paratowyd hefyd yn unol â phwerau a dyletswyddau a 'ddygwyd ymlaen' o ddeddfwriaeth flaenorol (Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004) a phwerau newydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn ystod y cyfnod trosglwyddo hyd 31 Gorffennaf 2023, y Siarter Frenhinol a'r Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi gweithredu gofynion budd cyhoeddus perthnasol deddfau a safonau cyfrifeg y Deyrnas Unedig.

Paratowyd y datganiadau ariannol Cyfunol a Phrifysgol o dan y confensiwn cost hanesyddol (a addaswyd trwy ailbrisio rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol ar werth teg).

Paratoir y datganiadau ariannol mewn sterling sef arian cyfred gweithredol y grŵp a chaiff y symiau eu talgrynnu i'r £'000 agosaf.

3. Eithriadau o dan FRS 102

Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad a geir o dan adran 3.3 SORP (1.12(b) yn FRS 102) i beidio â chynhyrchu datganiad llif arian ar gyfer y Brifysgol yn ei datganiadau ariannol ar wahân.

4. Sail cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ynghyd â chyfran canlyniadau mentrau ar y cyd a chwmnïau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2025.

Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi eu cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad gwaredu. Caiff trafodion rhyng-grŵp eu dileu pan gânt eu cyfuno.

Mae enillion neu golledion ar unrhyw drafodion rhyng-grŵp yn cael eu dileu yn llawn. Mae symiau mewn perthynas â dyledion a hawliadau rhwng ymgymeriadau sydd wedi'u cynnwys wrth gyfuno hefyd yn cael eu dileu. Ni chaiff balansau rhwng y Brifysgol a'i chwmnïau cysylltiedig a'i mentrau ar y cyd eu dileu. Mae trafodion masnachu arferol nad ydynt wedi'u setlo erbyn dyddiad y fantolen yn cael eu cynnwys fel asedau neu rwymedigaethau cyfredol. Mae unrhyw enillion neu golledion wedi'u cynnwys yn swm cario asedau'r naill endid neu'r llall, a chaiff y rhan sy'n ymwneud â chyfran y Brifysgol ei dileu.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr gan nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol dros benderfyniadau polisi.

Defnyddir y dull ecwiti i roi cyfrif am fentrau ar y cyd.

5. Busnes Hyfyw

Mae gweithgarwch y Grŵp a'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ddatblygiad, perfformiad, sefyllfa ariannol, llifoedd arian, hylifedd a chyfleusterau benthyca, i'r dyfodol wedi'u nodi yn yr Adolygiad Strategol sy'n rhan o'r Adolygiad Blynyddol.

Mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn cyflawni'r gofynion sydd arnynt o ran cyfalaf gweithio o ddydd i ddydd drwy falansau arian parod anghyfyngedig presennol, sy'n ddigonol i gwrdd â rhwymedigaethau fel y dônt yn ddyledus hyd y gellir rhagweld. Mae gan y Brifysgol gyfleuster credyd cylchol gwerth £25 miliwn.

Datganiad Prif Bolisïau Cyfrifo (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

Mae'r Cyngor wedi paratoi rhagolygon manwl am lif arian ar gyfer 2025/26 a 2026/27. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r Cyngor o'r farn, o ystyried risgiau anfantais difrifol ond credadwy, y bydd gan y Grŵp a'r Brifysgol ddigon o arian i gyflawni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes hyfyw).

Rydym wedi asesu nifer o senarios gan amcangyfrif effeithiau ariannol amrywiol y risgiau a wynebir mewn nifer o feysydd, yn enwedig niferoedd myfyrwyr a chynhyrchu incwm ffioedd ynghyd ag incwm neuaddau ac incwm masnachol.

Roedd hyn hefyd yn cynnwys asesiad o effaith gredadwy gostyngiadau parhaus mewn recriwtio myfyrwyr.

Mae gan y Brifysgol gyllideb ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar y sefyllfa o ran recriwtio myfyrwyr, ynghyd â rheolaeth dros wariant cyfalaf i gynnal hylifedd. Bydd y Brifysgol yn cadw rheolaeth dros ei chostau cyflog i gyd-fynd â'i metrigau fel canran o drosiant, ynghyd â gostyngiad mewn costau gweithredol ac eithrio cyflogau. Ail-negodwyd ein cyfamodau bancio yn gynharach yn y flwyddyn ac ni ragwelir y cânt eu torri yn ystod y cyfnod yr asesiad busnes hyfyw.

Oherwydd yr adolygiad hwn, mae'r Cyngor o'r farn y gall y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol reoli ei risgiau cyllid a'i risgiau busnes a pharhau i gyflawni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly paratowyd datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

6. Cydnabod incwm

Caiff incwm o werthiant nwyddau neu wasanaethau ei gredydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol pan gaiff y nwyddau neu'r gwasanaethau eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan fo telerau'r contract wedi cael eu bodloni.

Caiff incwm ffioedd ei ddatgan fel ffigwr gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol dros y cyfnod y mae'r myfyrwyr yn astudio. Lle mae swm y ffioedd dysgu wedi ei ostwng, er enghraifft, drwy ddisgownt am dalu'n brydlon neu ffurf arall ar hepgoriad, dangosir yr incwm a dderbynnir fel ffigwr net o unrhyw ostyngiadau o'r fath. Mae taliadau bwrsariaethau ac ysgoloriaethau wedi eu cyfrifo'n gros fel gwariant ac nid ydynt wedi'u didynnu o incwm.

Caiff incwm buddsoddi ei gredydu i'r datganiad incwm a gwariant ar sail dderbyniadwy.

Nid yw cyllid y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn a'i alldalu fel asiant talu ar ran corff cyllido wedi ei gynnwys yn incwm a gwariant y Brifysgol lle nad oes fawr ddim risg na budd economaidd i'r Brifysgol mewn perthynas â'r trafodyn.

Cyllid grant

Mae grantiau refeniw'r llywodraeth gan gynnwys grantiau bloc cynghorau cyllido a grantiau ymchwil yn cael eu cydnabod mewn incwm dros y cyfnodau y mae'r Sefydliad yn cydnabod y costau cysylltiedig y bwriedir i'r grant eu digolledu. Lle bo rhan o grant gan y llywodraeth yn cael ei gohirio, caiff ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr a'i ddyrannu rhwng credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn ac yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn fel y bo'n briodol.

Mae grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cydnabod mewn incwm pan fydd gan y Sefydliad hawl i'r incwm a phan fydd amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Caiff incwm a dderbynnir ymlaen llaw cyn cyflawni amodau'n ymwneud â pherfformiad ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'i ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu cyflawni.

Rhoddion a gwaddolion

Mae trafodion digyfnewid nad oes iddynt amodau'n ymwneud â pherfformiad yn rhoddion a gwaddolion.

Caiff rhoddion a gwaddolion sydd â chyfyngiadau gan y rhoddwr yn gysylltiedig â nhw eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cyllid. Cedwir yr incwm o fewn y gronfa gyfyngedig hyd nes caiff ei

ddefnyddio yn unol â'r cyfryw gyfyngiadau pryd y caiff yr incwm ei ryddhau drwy drosglwyddiad i gronfeydd cyffredinol.

Caiff rhoddion heb gyfyngiadau eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cyllid.

Cofnodir incwm buddsoddi ac adbrisiant gwaddolion mewn incwm yn y flwyddyn pan mae'n codi naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r gronfa waddol unigol. Ceir pedwar prif fath o roddion a gwaddolion o fewn cronfeydd:

1. Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid defnyddio'r rhodd ar gyfer amcan neilltuol.

2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod y cyllid i'w fuddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.

3. Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu amcan neilltuol ac eithrio prynu neu adeiladu asedion diriaethol sefydlog, ac mae gan y Brifysgol rym i ddefnyddio'r cyfalaf.

4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod y cyllid i'w fuddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan neilltuol.

Grantiau cyfalaf

Caiff grantiau cyfalaf eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cyllid yn amodol ar gyflawni unrhyw amodau'n ymwneud â pherfformiad.

7. Cyfrifo buddion ymddeol

Y ddau brif gynllun pensiwn i staff y Brifysgol yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) a Chynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS). Mae'r cynlluniau'n gynlluniau â buddion wedi'u diffinio a gyllidir yn allanol ac sydd wedi eu contractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (S2P).

Caiff y ddwy gronfa eu prisio bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol gyda chymwysterau proffesiynol.

Cynllun aml-gyflogwr â buddion wedi'u diffinio yw'r USS ac nid yw'n bosibl nodi'r asedau a'r rhwymedigaethau yn ôl y prifysgolion sy'n aelodau oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun ac felly cyfrifir y cynllun hwn fel cynllun buddion ymddeol â chyfraniadau wedi'u diffinio. Cofnodir rhwymedigaeth o fewn y darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad contract i ariannu diffygion yn y gorffennol yng nghynllun yr USS.

Cynllun â Chyfraniadau wedi'u Diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio lle mae'r Brifysgol yn talu cyfraniadau sefydlog i endid ar wahân ac ni fydd unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol na thrwy ddehongliad arno i dalu symiau pellach. Caiff rhwymedigaethau am gyfraniadau i gynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pryd y rhoddwyd gwasanaethau gan weithwyr.

Cynlluniau aml-gyflogwr

Pan na all y Brifysgol nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol mewn cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, bydd yn cyfrifo fel pe bai'r cynllun yn gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio. Pan fo'r Brifysgol wedi mynd i gytundeb â chynllun aml-gyflogwr o'r fath sy'n pennu sut y bydd y Brifysgol yn cyfrannu at gynllun adfer diffyg, mae'r Brifysgol yn cydnabod ei rhwymedigaeth dros y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n deillio o'r cytundeb, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg, a chaiff y draul o ganlyniad i hynny ei chydnabod fel gwariant.

Cynlluniau â buddion wedi'u diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth nad yw'n gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yw cynllun â buddion wedi'u diffinio. Dan gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion y cytunwyd arnynt i weithwyr presennol ac i gyn-weithwyr, ac mae'r risg actiwaraidd (y bydd y buddion yn costio mwy neu lai nag a ddisgwyliwyd) a'r risg buddsoddi (y bydd adenillion ar asedau a neilltuwyd i gyllido'r buddion yn wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd) yn cael eu dwyn, yn eu hanfod, gan y Brifysgol.

Datganiad Prif Bolisïau Cyfrifo (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

Cydnabyddir y rhwymedigaeth net yn y fantolen mewn perthynas â phob cynllun a dyma werth presennol y rhwymedigaeth ar gyfer buddion wedi'u diffinio ar y dyddiad adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Dylai'r Grŵp gydnabod rhwymedigaeth am ei ymrwymiadau dan gynlluniau â buddion wedi'u diffinio yn net o asedau'r cynllun. Caiff y rhwymedigaeth hon am fuddion net wedi'u diffinio ei mesur fel amcangyfrif o swm y buddion y mae gweithwyr wedi ei ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnod cyfredol ac mewn cyfnodau blaenorol, wedi'i ddisgowntio i bennu ei werth presennol, llai gwerth teg asedau'r cynllun (ar bris bidio).

Gwneir y cyfrifiad hwn gan actiwari cymwysedig yn defnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. O dan adran 28.22 (Buddion Gweithwyr - ased cynllun â buddion wedi'u diffinio) yn FRS 102 nid yw'r Brifysgol yn cydnabod gwarged y cynllun gan nad yw'n gallu adennill y gwarged trwy gyfraniadau is yn y dyfodol na thrwy ad-daliadau o'r cynllun. Mae darpariaeth yn y Weithred Ymddiriedolaeth i'r Brifysgol, yn unochrog, ddirwyn Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor i ben, ac os digwydd hynny bod unrhyw symiau gweddilliol ar ôl setlo holl rwymedigaethau'r cynllun yn cael eu had-dalu i'r Brifysgol. O ganlyniad, mae'r Brifysgol wedi penderfynu bod ganddi hawl ddiamod i gael ad-daliad wrth ddirwyn i ben. Fodd bynnag, mae darpariaeth yn y Weithred Ymddiriedolaeth hefyd i Ymddiriedolwyr y Gronfa drosglwyddo polisïau blwydd-dal i enwau aelodau unigol heb fod angen cydsyniad y Brifysgol. Oherwydd bodolaeth yr hawliau hynny i Ymddiriedolwyr y Gronfa, mae'r Brifysgol o'r farn ei bod yn briodol peidio â chydnabod y gwarged o fewn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'r Gronfa Bensiwn.

Bob blwyddyn mae'r Brifysgol yn cyflogi actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cynllun. Pennir y gwerth presennol trwy ddisgowntio taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol ar gyfradd ddisgowntio sy'n seiliedig ar gynnyrch y farchnad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel mewn sterling sydd â thelerau sy'n cyfateb i gyfnod amcangyfrifedig y taliadau yn y dyfodol.

Caiff gwerth teg asedau cynllun ei fesur yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer asedau tebyg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiad a newidiadau i dybiaethau actiwaraidd eu codi neu eu credydu i incwm cynhwysfawr arall. Caiff y symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, llai symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net, eu datgelu fel enillion a cholledion actiwaraidd.

Mae cost y cynllun â buddion wedi'u diffinio, a gydnabyddir mewn gwariant fel costau staff, ac eithrio pan gaiff ei gynnwys yng nghost ased, yn cynnwys y cynnydd o ran y rhwymedigaeth buddion pensiwn sy'n deillio o wasanaeth gweithwyr yn ystod y cyfnod a chost cyflwyno i'r cynllun, newidiadau i fuddion, cwtogiadau, a setliadau. Cyfrifir cost llog net trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgowntio i'r rhwymedigaeth net. Cydnabyddir y gost hon mewn gwariant fel cost cyllid.

Darperir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn penodol yn Nodyn 30 y cyfrifon.

8. Buddion cyflogaeth

Caiff buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau digolledol eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn pryd y rhoddodd y gweithwyr wasanaeth i'r Brifysgol. Cronnir unrhyw fuddion na ddefnyddir a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawl na ddefnyddiwyd.

9. Prydlesi cyllidol

Caiff prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo yn eu hanfod yr holl risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased ar brydles eu dosbarthu fel prydlesi cyllidol. Mae asedau ar brydles a gafodd eu caffael drwy brydles gyllidol a rhwymedigaethau'r prydlesi hynny'n cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar swm sy'n hafal â'r isaf o blith eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf ar gychwyniad y brydles.

Caiff y taliadau prydles isaf eu dosrannu rhwng y tâl cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth sy'n ddyledus. Pennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod oes y brydles er mwyn rhoi cyfradd gyfnodol gyson o log ar y balans sy'n weddill o'r rhwymedigaeth.

Datganiad Prif Bolisïau Cyfrifo (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

10. Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth

Mae trafodion Mentrau Cyllid Preifat (PFI), sydd o fewn diffiniad trefniant consesiwn gwasanaeth, yn cael eu cyfrifo fel bod 'ar y Fantolen' gan y Brifysgol. Caiff yr asedau sylfaenol eu cydnabod fel Asedau Sefydlog ar eu gwerth teg fel y pennir hynny ym model y gweithredwyr. Cydnabyddir rhwymedigaeth ariannol gyfwerth yn unol â FRS 102.

Caiff taliadau blynyddol y contract eu dosrannu rhwng ad-dalu'r rhwymedigaeth, cost cyllid a'r taliadau am wasanaethau. Cyfrifir y gost cyllid gan ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg ar gyfer y cynllun.

Caiff y tâl gwasanaeth ei gydnabod yn y treuliau gweithredu a chodir y gost cyllid i Gostau Cyllid yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Caiff elfen o'r cynnydd yn y tâl unedol blynyddol o ganlyniad i fynegeio cronnus ei dyrannu i'r brydles gyllidol. Yn unol â FRS 102, ni chaiff y swm hwn ei gynnwys yn y taliadau prydles isaf, ond yn hytrach caiff ei drin fel rhent amodol. Mewn gwirionedd, mae'r swm hwn yn gost cyllid mewn perthynas â'r rhwymedigaeth a chyflwynir y draul fel cost cyllid amodol yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Caiff costau adnewyddu cylch oes eu cydnabod mewn treuliau gweithredu yn seiliedig ar y rhaglen adnewyddu y mae'r gweithredwyr wedi ei chynllunio.

11. Prydlesi gweithredol

Codir costau'n ymwneud â phrydlesi gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff unrhyw bremiymau neu gymhellion prydles eu gwasgaru dros y cyfnod prydlesu lleiaf.

12. Arian cyfred tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian swyddogaethol endidau'r Grŵp ar y gyfradd gyfnewid dramor ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau mewn arian tramor ar ddyddiad y fantolen eu trosi i'r arian swyddogaethol ar y gyfradd gyfnewid dramor ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau cyfnewid tramor a geir wrth drosi eu cydnabod fel Gwarged neu Ddiffyg.

Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol mewn arian tramor a gaiff eu datgan ar werth teg eu haildrosi i'r arian swyddogaethol ar gyfraddau cyfnewid tramor ar y dyddiadau y pennwyd y gwerth teg.

13. Eiddo, Peirianwaith ac Offer

Tir ac adeiladau

Caiff tir ac adeiladau eu cyfalafu ar gost wrth eu cydnabod y tro cyntaf.

Ar ôl cael eu cydnabod y tro cyntaf caiff tir ac adeiladau eu mesur ar gost dybiedig llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Cafodd rhai tiroedd ac adeiladau eu hailbrisio i werth teg ar ddyddiad y trawsnewid i FE HE SORP 2015, ac fe'u mesurir ar sail cost dybiedig, sef swm yr ailbrisiad ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw. Gwnaed y prisiad gan gwmni proffesiynol cymwys o Syrfewyr Siartredig. Ni chafodd rhai asedau eu cynnwys yn y prisiad gan eu bod yn cael eu hystyried i'w gwaredu, eu dymchwel neu eu hadnewyddu'n sylweddol.

Caiff costau a gafwyd mewn perthynas â thir ac adeiladau ar ôl y prynu neu'r adeiladu cychwynnol eu cyfalafu i'r graddau eu bod yn cynyddu'r buddion a ddisgwylir i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliol gan yr ystyrir bod iddo oes fuddiol amhenodol. Oni bai eu bod yn cael eu cydrannu, caiff adeiladau rhydd-ddaliol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes fuddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Adeiladau	50 mlynedd
Adnewyddiadau i adeiladau	15 mlynedd

Datganiad Prif Bolisïau Cyfrifo (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

Lle bo'n briodol, caiff adeiladau eu cydrannu'n dair rhan: adeiladwaith, ffitiadau ac elfennau mecanyddol a pheirianegol. Nodir y rhain fel eitemau ar wahân o asedau sefydlog a chaiff pob rhan ei dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod eu hoes fuddiol:

Adeiladwaith	Hyd at 50 mlynedd
Ffitiadau	Hyd at 20 mlynedd
Elfennau Mecanyddol a Pheirianegol	Hyd at 20 mlynedd

Pan fo eitem o dir ac adeiladau'n cynnwys dwy neu ragor o brif elfennau a chanddynt oes economaidd ddefnyddiol sy'n sylweddol wahanol i'w gilydd, mae pob elfen yn cael ei chyfrif ar wahân a'i dibrisio dros ei hoes economaidd ddefnyddiol unigol. Mae gwariant sy'n ymwneud ag amnewid elfennau wedi hynny yn cael ei gyfalafu wrth i hynny ddigwydd.

Dibrisir gwelliannau i eiddo prydles dros gyfnod oes y brydles.

Mae dibrisiad yn cael ei gymhwyso'n llawn i'r flwyddyn y dechreuwyd defnyddio'r ased. Ni chodir dibrisiad ar asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

Adolygir dulliau dibrisio, oes fuddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Offer

Caiff offer ei gyfalafu ar gost wrth eu cydnabod y tro cyntaf ac wedi hynny ar gost llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Caiff offer, gan gynnwys cyfrifiaduron a meddalwedd, sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol de minimus, neu grŵp o eitemau cysylltiedig, ei gydnabod fel gwariant oni bai ei fod wedi ei gyllido gan grantiau cyfalaf. Caiff pob offer arall eu cyfalafu.

Nodir offer a gyfalafwyd ar gost a chaiff ei ddibrisio dros ei oes fuddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Offer Cyfrifiadurol	5 years
Offer ar gyfer projectau ymchwil penodol	5 years
Cyfarpar Arall	Hyd at 10 years
Cerbydau Modur	5 years

Adolygir dulliau dibrisio, oes fuddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Datganiad Sefyllfa Ariannol.Mae dibrisiad yn cael ei gymhwyso'n llawn i'r flwyddyn y dechreuwyd defnyddio'r ased.

Amhariad

Adolygir amhariad i eiddo, peirianwaith ac offer os oes digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd modd adennill swm cario eiddo, peirianwaith ac offer.

Costau benthyca

Cydnabyddir costau benthyca fel gwariant yn y cyfnod pryd maent yn digwydd.

14. Asedau treftadaeth

Mae'r Brifysgol yn berchen ar gasgliad helaeth o weithiau celf, a chasgliadau amgueddfa eraill, yn cynnwys llestri, offerynnau cerdd, eitemau byd natur, arteffactau daearegol a llawysgrifau, sydd gan mwyaf wedi eu rhoi neu eu gadael i'r Brifysgol yn ystod y 130 mlynedd ddiwethaf. Nid yw'r eitemau hyn wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol gan fod y Brifysgol yn ystyried na fyddai'n ymarferol cael prisiad ystyrlon ohonynt yn y rhan fwyaf o achosion, oherwydd eu natur unigryw. Ychydig iawn o asedau treftadaeth y gallai'r Brifysgol

eu gwerthu oherwydd natur gyfyngiadol eu caffael. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 12. Nodir cost cadwraeth ac adfer y casgliad treftadaeth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn pryd y digwyddodd.

15. Buddsoddiadau

Rhoddir buddsoddiadau asedau anghyfredol mewn gwarantau heb eu rhestru ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar gost llai amhariad.

Caiff buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, cwmnïau cysylltiedig ac is-gwmnïau eu cario ar gost llai amhariad yn Natganiadau Ariannol y Brifysgol.

Rhoddir buddsoddiadau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol fel asedau ariannol sylfaenol a chânt eu mesur yn unol â Nodyn 18 y polisi cyfrifyddu.

16. Stoc

Caiff stoc ei ddal ar yr isaf o blith cost a gwerth gwireddadwy net, a chaiff ei fesur yn defnyddio fformiwla costau cyfartalog.

17. Arian parod a chywerthoedd arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon sy'n ad-daladwy ar gais. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael o fewn 24 awr heb gosb.

Buddsoddiadau tymor byr hynod hylifol yw cywerthoedd arian parod y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau hysbys o arian parod heb risg sylweddol y bydd newid mewn gwerth.

18. Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan:

(a) mae gan y Brifysgol rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu trwy ddehongliad) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

(b) mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; a

(c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy ddisgowntio'r llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu risgiau penodol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Brifysgol ond y cadarnheir ei bodolaeth yn unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu fel arall, na fydd yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Mae rhwymedigaethau amodol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.

Mae ased amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Brifysgol ond y cadarnheir ei bodolaeth yn unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu fel arall, na fydd yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau amodol eu cydnabod yn y Fantolen ond maent yn cael eu datgelu yn y Nodiadau.

19. Cyfrifo ar gyfer Gweithrediadau ar y Cyd, Asedau a Reolir ar y Cyd a Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd

Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r dull ecwiti i roi cyfrif am ei chyfran o fentrau ar y cyd.

Mae'r Brifysgol yn rhoi cyfrif am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant.

20. Trethiant

Caiff y dreth gyfredol, gan gynnwys treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig a threth dramor, ei darparu ar symiau y disgwylir eu talu (neu eu hadennill) gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a'r cyfreithiau a ddeddfwyd erbyn dyddiad y fantolen.

Ystyrir bod y Brifysgol yn pasio'r profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 o Ddeddf Gyllid 2010 ac felly mae'n cyflawni'r diffiniad o gwmni elusennol i ddibenion treth gorfforaethol y Deyrnas Unedig. Felly, mae'r Brifysgol o bosibl wedi ei heithrio o drethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau a ddaw dan adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu adran 256 Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y defnyddir y cyfryw incwm neu enillion i ddibenion elusennol yn unig.

21. Offerynnau Ariannol

Mae'r Brifysgol wedi dewis mabwysiadu Adrannau 11 a 12 FRS 102 mewn perthynas â chydnabod, mesur a datgelu offerynnau ariannol.

Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau ariannol pan ddaw'r Brifysgol yn rhan o ddarpariaeth gontractol yr offeryn, ac fe'u dosbarthir yn ôl sylwedd y trefniadau contractol yr ymrwymwyd iddynt.

Caiff ased ariannol a rhwymedigaeth ariannol eu gwrthbwyso dim ond pan fo hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwyso'r symiau a gydnabyddir a bwriad naill ai i setlo ar sail net, neu i wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

Asedau ariannol

Mae asedau ariannol sylfaenol yn cynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, arian parod a chywerthoedd arian parod, a buddsoddiadau mewn papur masnachol (h.y. adneuon a bondiau). Caiff yr asedau hyn eu cydnabod y tro cyntaf ar bris y trafodyn oni bai bod y trefniant yn drafodyn cyllido, pan gaiff y trafodyn ei fesur yn ôl gwerth presennol y derbyniadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Yn dilyn hynny, caiff asedau o'r fath eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Asesir asedau ariannol i weld a oes arwyddion o amhariad ar bob dyddiad adrodd. Os oes tystiolaeth wrthrychol bod amhariad, caiff colled amhariad ei chydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Yn achos asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio y golled amhariad yw'r gwahaniaeth rhwng swm cario'r ased a gwerth presennol llifoedd arian amcangyfrifedig yn y dyfodol, wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased.

Mae asedau ariannol eraill, gan gynnwys buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti nad ydynt yn is-gwmnïau, yn gwmnïau cysylltiedig nac yn fentrau ar y cyd, yn cael eu mesur y tro cyntaf ar werth teg, sef pris y trafodyn fel arfer. Wedi hynny, caiff yr asedau hyn eu cario ar werth teg a chaiff newidiadau mewn gwerth teg ar y dyddiad adrodd eu cydnabod yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Pan nad yw'r buddsoddiad mewn offerynnau ecwiti'n cael ei fasnachu'n gyhoeddus a phan na ellir mesur y gwerth teg yn ddibynadwy, caiff yr asedau eu mesur ar gost llai amhariad.

Caiff asedau ariannol eu dad-gydnabod pan fo hawliau contractol i lifoedd arian o'r ased yn dod i ben neu'n cael eu setlo neu pan fo holl risgiau a manteision bod yn berchen ar yr ased yn cael eu trosglwyddo yn eu hanfod i barti arall.

Rhwymedigaethau ariannol

Mae rhwymedigaethau ariannol sylfaenol yn cynnwys symiau masnach a symiau taladwy eraill, benthyciadau banc a benthyciadau rhyng-grŵp. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu cydnabod y tro cyntaf ar bris y trafodyn oni bai bod y trefniant yn drafodyn cyllido, pan gaiff yr offeryn dyled ei fesur ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Yn dilyn hynny, caiff offerynnau dyled eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Caiff ffioedd a delir wrth sefydlu cyfleusterau benthyciad eu cydnabod fel costau trafod y benthyciad i'r graddau ei bod yn debygol y bydd peth neu'r cyfan o'r cyfleuster yn cael ei dynnu i lawr.

Rhwymedigaethau yw symiau masnach taladwy i dalu am nwyddau a gwasanaethau a gafwyd fel rhan o'r busnes arferol oddi wrth gyflenwyr. Dosberthir cyfrifon taladwy fel rhwymedigaethau cyfredol os ydynt yn daladwy o fewn blwyddyn neu lai. Os nad ydynt, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Caiff symiau masnach taladwy eu cydnabod y tro cyntaf ar bris y trafodyn ac wedi hynny cânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Nid yw deilliadau ariannol, gan gynnwys blaen-gontractau cyfnewid tramor, yn offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff deilliadau ariannol eu cydnabod y tro cyntaf ar werth teg ar ddyddiad ymrwymo i'r contract deilliadol ac wedi hynny cânt eu hail-fesur yn ôl eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Caiff newidiadau yng ngwerth teg deilliadau ariannol eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn costau cyllid neu incwm cyllid fel y bo'n briodol, oni bai eu bod wedi eu cynnwys mewn trefniant ymddiogelu.

I'r graddau y mae'r Brifysgol yn ymrwymo i flaen-gontractau cyfnewid tramor sy'n parhau i fod heb eu setlo ar y dyddiad adrodd, adolygir gwerth teg y contractau ar y dyddiad hwnnw. Mesurir y gwerth teg cychwynnol fel pris y trafodyn ar ddyddiad sefydlu'r contractau. Caiff prisiadau dilynol eu hystyried ar sail blaen-gyfraddau'r contractau hynny sydd heb eu setlo ar y dyddiad adrodd. Nid yw'r Brifysgol yn defnyddio cyfrifyddu ymddiogelu mewn perthynas â blaen-gontractau cyfnewid tramor a ddelir er mwyn rheoli achosion o amlygu llifoedd arian i drafodion arian tramor sy'n cael eu rhagweld.

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dad-gydnabod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei rhyddhau, ei chanslo neu pan ddaw i ben.

22. Cronfeydd wrth gefn

Dosberthir cronfeydd yn rhai cyfyngedig neu anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys rhai balansau sydd, drwy waddol i'r Brifysgol, yn cael eu dal fel cronfa gyfyngedig barhaol y mae'n rhaid i'r Brifysgol ei dal yn fythol barhaus.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi pennu diben penodol ac felly mae'r Brifysgol wedi ei chyfyngu o ran defnyddio'r cyllid hwn.

23. Barn gyfrifyddu gritigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi datganiadau ariannol y Brifysgol mae angen i'r rheolwyr ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar sut y defnyddir polisïau cyfrifo ac ar symiau asedau a rhwymedigaethau, incwm a threuliau yr adroddir amdanynt. Mae'r farn, yr amcangyfrifon a'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ran digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Anaml, trwy ddiffiniad, y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu a geir yn hafal i'r canlyniadau gwirioneddol cysylltiedig.

Mae'r rheolwyr o'r farn mai'r meysydd a nodir isod yw'r rhai lle cafodd barn gyfrifyddu gritigol ei defnyddio a gall yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sy'n deillio o hynny arwain at addasiadau i symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn y dyfodol:

Cydnabod incwm

Defnyddir barn wrth bennu gwerth ac amseriad rhai eitemau incwm sydd i'w cydnabod yn y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys penderfynu pryd y mae amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi cael eu bodloni, a phenderfynu ar y refeniw sy'n gysylltiedig â chyrsiau a hyfforddiant a gyflwynwyd yn rhannol pan nad yw'r gweithgareddau wedi'u cwblhau'n llawn ar y dyddiad adrodd.

Oes fuddiol eiddo, peirianwaith ac offer

Mae eiddo, peirianwaith ac offer yn cynrychioli cyfran sylweddol o gyfanswm asedau'r Brifysgol. Felly, gall amcangyfrif oes fuddiol gael effaith sylweddol ar y dibrisiad a godir ac ar y perfformiad y mae'r Brifysgol yn adrodd yn ei gylch. Pennir oes fuddiol pan gaiff ased ei chaffael a chaiff ei adolygu'n rheolaidd o ran priodoldeb. Mae'r oes yn seiliedig ar brofiad hanesyddol o ymwneud ag asedau tebyg yn ogystal â rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol. Dangosir manylion gwerthoedd cario eiddo, peirianwaith ac offer yn Nodyn 11.

Datganiad Prif Bolisïau Cyfrifo (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

Adenilladwyedd dyledwyr

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn seiliedig ar amcangyfrif i ba raddau y gellir adennill y dyledion hynny. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar sefyllfa bresennol y cwsmer, proffil oedran y ddyled a natur y swm sy'n ddyledus.

Mae balans Symiau Masnach Derbyniadwy, Nodyn 17, y Brifysgol yn datgelu'r swm sy'n ddyledus i'r Brifysgol ac i'r Grŵp ar ôl didynnu'r ddarpariaeth drwgddyled o £3,494k (2024: £5,404k) a £3,494k (2024: £5,404k) yn y drefn honno. Mae'r ddarpariaeth drwgddyled yn ymwneud yn bennaf â ffioedd neuaddau a ffioedd dysgu sy'n ddyledus gan fyfyrwyr.

Mae'r rheolwyr wedi adolygu dyledion unigol ac wedi asesu i ba raddau y gellid eu hadennill gan ystyried oedran, statws y dyledwr, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â'r oedi wrth dalu.

Cytundebau consesiwn gwasanaeth

Mae gan y Brifysgol ddau gytundeb consesiwn gwasanaeth ar ei Mantolen, sef cynlluniau Ffordd Ffriddoedd a'r Santes Fair (Nodyn 13). Cafwyd y rhwymedigaethau cyllid cysylltiedig drwy ddefnyddio offeryn modelu ar gyfer cytundebau consesiwn gwasanaeth dan gyfarwyddyd ymgynghorwyr proffesiynol y Brifysgol, gyda mewnbynnau'n deillio o'r modelau gweithredwyr a oedd yn sail i'r contractau a luniwyd â'r partneriaid o'r sector preifat. Mae gwerth yr asedau'n seiliedig ar gostau a gymerwyd o'r un modelau gweithredwyr, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu am amhariad bob blwyddyn. Ni chododd unrhyw amhariad yn 2024/25 (2023/24 - Dim).

Tybiwyd bod unrhyw wariant cylch oes yn refeniw yn ei natur yn seiliedig ar yr wybodaeth yn y modelau gweithredwyr.

Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Darpariaeth pensiwn USS

Pennir cost cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn defnyddio prisiadau actiwaraidd. Mae'r prisiad actiwaraidd yn golygu gwneud tybiaethau ynghylch cyfraddau disgowntio, codiadau cyflog yn y dyfodol, cyfraddau marwolaethau a chodiadau pensiwn yn y dyfodol. Oherwydd cymhlethdod y prisiad, y tybiaethau sylfaenol a natur tymor hir y cynlluniau hyn, mae ansicrwydd sylweddol yn gysylltiedig ag amcangyfrifon o'r fath. Rhoddir rhagor o fanylion yn Nodyn 30.

Mae'r rheolwyr yn fodlon bod Cynllun Pensiwn y Prifysgolion yn cyflawni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr ac felly wedi cydnabod gwerth teg disgowntiedig y cyfraniadau contractol dan y cynllun ariannu sydd mewn bodolaeth ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Gan fod y Brifysgol yn rhwym o dan gontract i wneud taliadau adfer diffyg i'r USS, caiff hyn ei gydnabod fel rhwymedigaeth ar y fantolen. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gynllun adfer diffyg yr USS y cytunwyd arno ar ôl prisiad actiwaraidd 2023, sy'n diffinio'r taliad adfer diffyg sy'n ofynnol fel canran o gyflogau'r dyfodol tan 2034. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu hailasesu ym mhrisiad y cynllun bob tair blynedd.

Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif y rheolwyr o chwyddiannau cyflog disgwyliedig yn y dyfodol, newidiadau yn nifer y staff a chyfradd gyffredinol y disgownt. Nodir manylion pellach yn Nodyn 30A.

Buddion ymddeol (BUPAS)

Mae sefyllfa'r rhwymedigaeth pensiwn, fel y ceir yn y cyfrifon, yn seiliedig ar nifer o asesiadau cymhleth ac ar farn yn ymwneud â chyfraddau disgowntio, codiadau cyflog rhagamcanol, newidiadau i oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac elw a ddisgwylir ar asedau'r cynllun. Mae'r Brifysgol yn cyflogi cwmni proffesiynol o actiwariaid i roi cyngor arbenigol ar y tybiaethau i'w gweithredu ac i gyfrifo rhwymedigaeth y cynllun.

Manylir ar y tybiaethau a ddefnyddir yn y flwyddyn gyfredol yn Nodyn 30B.

Nodiadau am y Datganiadau Ariannol
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

		2024/25		2023/24	
		Cyfunol	**Prifysgol**	Cyfunol	Prifysgol
		£'000	**£'000**	£'000	£'000
1	**Ffioedd dysgu a chontractau addysg**				
	Myfyrwyr llawn amser o'r DU/UE	**43,002**	**43,002**	44,547	44,547
	Myfyrwyr rhyngwladol llawn amser	**23,329**	**23,329**	30,960	30,960
	Myfyrwyr rhan amser	**2,895**	**2,895**	2,791	2,791
	Grantiau cefnogi hyfforddiant ymchwil	**1,344**	**1,344**	1,106	1,106
	Ffioedd cyrsiau byr	**629**	**629**	693	693
	Contractau addysg	**8,378**	**8,378**	10,403	10,403
		79,577	**79,577**	90,500	90,500
2	**Grantiau cyrff cyllido**				
	Grant rheolaidd				
	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	**12,378**	**12,378**	11,751	11,751
	Grantiau penodol				
	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru				
	Grantiau Cyfalaf	**2,138**	**2,138**	750	750
	Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru	**1,999**	**1,999**	2,366	2,366
	Mentrau Cyfrwng Cymraeg	**994**	**994**	887	887
	Gradd-brentisiaethau	**927**	**927**	890	890
	Cyfalaf Ymchwil	**865**	**865**	708	708
	Project Mentora	**571**	**571**	410	410
	Gwell Iechyd Meddwl	**263**	**263**	159	159
	Cronfa Arloesi Rhanbarthol	**245**	**245**	150	150
	Cronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol (ISPF)	**224**	**224**	269	269
	Myfyrwyr ÔI-radd Hyfforddedig Meistr	**171**	**171**	255	255
	Cydweithrediad AU ac AB	**124**	**124**	164	164
	Cronfa Arloesi Strategaeth	**0**	**0**	647	647
	Arall	**284**	**284**	301	301
	Llywodraeth Cymru				
	Y Ganolfan Cymraeg i Oedolion	**1,429**	**1,429**	1,573	1,573
	Ymarferwyr Cenedlaethol	**305**	**305**	289	289
	Hwb Addysg Meddygol Gogledd Cymru	**1,371**	**1,371**	68	68
	Ysbyty Enfys	**0**	**0**	283	283
	Arall	**623**	**623**	221	221
		24,911	**24,911**	22,141	22,141

Mae'r cyfansymiau contractau a grantiau ymchwil yn cynnwys incwm a gydnabyddir yn llawn o £30k (2023/24 - £907k) a dderbyniwyd i grantiau cyfalaf lle mae amodau perfformiad wedi'u bodloni. Bydd yr offer cysylltiedig a brynwyd yn cael eu dibrisio dros 5 mlynedd yn unol â Pholisïau Cyfrifo'r Brifysgol.

Nodiadau am y Datganiadau Ariannol (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

		2024/25		2023/24	
		Cyfunol	**Prifysgol**	Cyfunol	Prifysgol
		£'000	**£'000**	£'000	£'000
3	**Grantiau a chontractau ymchwil**				
	Cynghorau ymchwil	**4,390**	**4,390**	4,420	4,420
	Elusennau'r Deyrnas Unedig	**1,271**	**1,271**	1,295	1,295
	Y Deyrnas Unedig - Llywodraeth	**11,937**	**11,937**	11,642	11,642
	Y Deyrnas Unedig - Diwydiant a Masnach	**2,227**	**2,227**	1,581	1,581
	Yr Undeb Ewropeaidd - Llywodraeth	**259**	**259**	2,706	2,706
	Yr Undeb Ewropeaidd - Arall	**51**	**51**	121	121
	Tramor - Arall	**1,125**	**1,125**	512	512
	Ffynonellau eraill	**327**	**327**	257	229
		21,587	**21,587**	22,534	22,506
4	**Incwm arall**				
	Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau	**14,695**	**14,671**	14,408	14,498
	Gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Brifysgol	**4,115**	**4,115**	6,353	6,353
	Incwm arall	**6,656**	**7,126**	7,753	8,256
	Is-gwmnïau				
	NWWMDC Cyf	**1,048**	**0**	1,034	0
	Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf	**3,108**	**0**	2,563	0
		29,622	**25,912**	32,111	29,107
5	**Incwm buddsoddi**				
	Incwm buddsoddi ar waddolion	**339**	**339**	316	316
	Incwm buddsoddi ar gronfeydd cyfyngedig	**58**	**58**	48	48
	Incwm buddsoddi arall	**974**	**974**	1,645	1,645
		1,371	**1,371**	2,009	2,009
6	**Incwm rhoddion a gwaddolion**				
	Gwaddolion newydd	**136**	**136**	48	48
	Rhoddion gyda chyfyngiadau	**663**	**663**	245	245
	Rhoddion anghyfyngedig	**63**	**63**	530	530
		862	**862**	823	823
7	**Costau staff**				
	Cyflogau	**77,499**	**75,356**	81,235	79,427
	Costau nawdd cymdeithasol	**7,969**	**7,783**	7,303	7,146
	Costau ail-strwythuro	**5,055**	**5,055**	0	0
	Symudiad ar ddarpariaeth USS	**0**	**0**	(42,850)	(42,850)
	Symudiad ar ddarpariaeth USS	**(115)**	**(115)**	(665)	(665)
	Costau pensiwn eraill	**9,269**	**9,219**	11,297	11,246
	Cyfanswm	**99,677**	**97,298**	56,320	54,304

Nodiadau am y Datganiadau Ariannol (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

	Nodyn	2024/25 Cyfunol £'000	2024/25 Prifysgol £'000	2023/24 Cyfunol £'000	2023/24 Prifysgol £'000
8 Llog a chostau ariannu eraill					
Llog benthyciad		**931**	**931**	940	940
Llog prydles gyllidol (yn cynnwys tâl cyllid consesiwn gwasanaeth)		**3,787**	**3,787**	3,792	3,792
Tâl net ar gynllun pensiwn	21	**0**	**0**	(4,419)	(4,419)
		4,718	**4,718**	313	313
9 Dadansoddiad o gyfanswm gwariant fesul gweithgaredd					
Adrannau academaidd		[redacted]	[redacted]	58,687	58,788
Gwasanaethau Academaidd		[redacted]	[redacted]	12,487	12,555
Gweinyddiaeth a gwasanaethau canolog		**12,542**	**12,550**	13,543	13,554
Addysgol cyffredinol		**14,451**	**14,466**	19,715	19,734
Cyfleusterau staff a myfyrwyr		**7,935**	**7,935**	8,570	8,582
Adeiladau		**21,605**	**22,413**	24,942	25,754
Amhariad asedau sefydlog		**561**	**561**	2,234	2,234
Preswylfeydd a gweithrediadau arlwyo		**18,647**	**18,646**	18,713	18,764
Grantiau a chontractau ymchwil		[redacted]	[redacted]	19,831	19,837
Gwasanaethau a ddarperir		[redacted]	[redacted]	8,224	4,052
Costau ailstrwythuro		**5,055**	**5,055**	398	398
Symudiad ar ddarpariaeth USS		**0**	**0**	(42,850)	(42,850)
Arall		**274**	**274**	(3,238)	(3,238)
		176,808	173,160	141,256	138,164
Treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:					
Tâl archwilwyr allanol (ac eithrio TAW):					
Gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio		**133**	**113**	287	262
Gwasanaethau sicrwydd eraill		**6**	**6**	14	14
Trethiant / gwasanaethau ac eithrio archwilio		**0**	**0**	13	8
Rhenti prydles weithredol					
Tir ac adeiladau		**344**	**344**	367	367
Arall		**1,162**	**1,162**	1,182	1,182

Nodiadau am y Datganiadau Ariannol (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

	2024/25 Cyfunol £'000	2024/25 Prifysgol £'000	2023/24 Cyfunol £'000	2023/24 Prifysgol £'000
10 Trethiant				
Treth gyfredol				
Treth gorfforaeth y DU o 19% (2024: 19%) ar ddiffyg am y flwyddyn	**0**	**0**	0	0
Cyfanswm tâl treth	**0**	**0**	0	0

Ffactorau'n effeithio ar y tâl treth

Mae'r dreth a aseswyd am y flwyddyn yn is na chyfradd safonol treth gorfforaethol yn y DU. Eglurir y gwahaniaeth isod.

(Diffyg)/Gwarged cyn treth	**(18,290)**	**(18,247)**	29,483	29,569
(Diffyg)/Gwarged wedi'i luosi gan gyfradd safonol treth gorfforaeth yn y Deyrnas Unedig o 19% (2024: 19%)	**(3,475)**	**(3,467)**	5,602	5,618
Gwarged/(Diffyg) o fewn eithriad elusennol	**3,475**	**3,467**	(5,602)	(5,618)
Effaith newid yng nghyfradd treth gorfforaeth	**0**	**0**	0	0
Tâl treth cyfredol	**0**	**0**	0	0

Nodiadau am y Datganiadau Ariannol (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

11 Eiddo, Peirianwaith ac Offer

	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliol	Gwelliannau Prydlesol	Trefniant consesiwn gwasanaeth Tir ac Adeiladau	Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer	Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu	Cyfanswm
Cyfunol						
Cost	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Ar 1 Awst 2024	303,285	11,095	68,653	48,201	6,123	**437,357**
Ychwanegiadau	215	0	0	1,073	8,067	**9,355**
Trosglwyddiadau	1,016	0	0	2,346	(3,362)	**0**
Gwarediadau	0	0	0	(521)	0	**(521)**
Ar 31 Gorffennaf 2025	**304,516**	**11,095**	**68,653**	**51,099**	**10,828**	**446,191**
Dibrisiad						
Ar 1 Awst 2024	88,215	6,958	13,956	38,612	0	147,741
Tâl am y flwyddyn	9,605	374	1,465	4,901	0	16,345
Amhariad	561	0	0	0	0	561
Gwarediadau	0	0	0	(514)	0	(514)
Ar 31 Gorffennaf 2025	**98,381**	**7,332**	**15,421**	**42,999**	**0**	**164,133**
Gwerth net ar bapur						
Ar 31 Gorffennaf 2025	**206,135**	**3,763**	**53,232**	**8,100**	**10,828**	**282,058**
Ar 1 Awst 2024	215,070	4,137	54,697	9,589	6,123	289,612
Prifysgol						
Cost	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Ar 1 Awst 2024	303,141	58	68,653	46,151	6,122	**424,125**
Ychwanegiadau	215	0	0	402	8,067	**8,684**
Trosglwyddiadau	1,016	0	0	2,346	(3,362)	**0**
Gwarediadau	0	0	0	(512)	0	**(512)**
Ar 31 Gorffennaf 2025	**304,372**	**58**	**68,653**	**48,387**	**10,827**	**432,297**
Dibrisiad						
Ar 1 Awst 2024	88,215	14	13,956	36,527	0	138,712
Tâl am y flwyddyn	9,605	1	1,465	4,722	0	15,793
Amhariad	561	0	0	0	0	561
Gwarediadau	0	0	0	(512)	0	(512)
Ar 31 Gorffennaf 2025	**98,381**	**15**	**15,421**	**40,737**	**0**	**154,554**
Gwerth net ar bapur						
Ar 31 Gorffennaf 2025	**205,991**	**43**	**53,232**	**7,650**	**10,827**	**277,743**
Ar 1 Awst 2024	214,926	44	54,697	9,624	6,122	285,413

Ar 31 Gorffennaf 2025, roedd tir ac adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys £38.7m (2024 - £38.7m) mewn perthynas â thir rhydd-ddaliad ac nid yw wedi'i ddibrisio.

Asedau ar brydles a gynhwyswyd uchod:	**£'000**
Gwerth Net ar Bapur:	
Ar 31 Gorffennaf 2024	346
Ar 31 Gorffennaf 2025	**187**

Nodiadau am y Datganiadau Ariannol (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

12 Asedau Treftadaeth

Mae gan y Brifysgol nifer o gasgliadau o Asedau Treftadaeth, yn cynnwys: Casgliadau Celf – oddeutu 600 o ddarluniau olew, dyfrlliw, printiau a lluniadau, yn ogystal â 9 o gerfluniau, yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg i'r unfed ganrif ar hugain; Casgliad Cerameg - yn cynnwys oddeutu 500 o ddarnau sy'n cael eu harddangos ac wedi'u cadw; Casgliad Cerdd - oddeutu 600 o offerynnau cerdd ethnograffig, ynghyd â 325 o offerynnau clai cyn-Golumbaidd; Casgliad Daeareg - tua 8,000 o greigiau a 6,000 o ffosiliau o bob rhan o'r byd; Casgliad Astudiaethau Natur - yn cynnwys tua 40,000 o sbesimenau (gyda tua 500 yn cael eu harddangos); Casgliad Hynafiaethau Cymreig - a hynafiaethau eraill a arddangosir yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd; a Chasgliad Llawysgrifau - mae gan y Llyfrgell tua 16,500 o lyfrau prin neu o bwysigrwydd arbennig ac mae gan yr Adra– Archifau tua 80 o gasgliadau, y rhan fwyaf yn bapurau ystadau a theuluoedd o siroedd Gogledd Cymru, ynghyd â phapurau preifat unigolion amlwg a chasgliad amrywiol o gofnodion llenyddol, hanesyddol a hynafiaethol.
Mae Asedau Treftadaeth y Brifysgol yn cael eu cofnodi a chawsant eu prisio yn ystod 22/23 am £14.6m at ddibenion yswiriant yn unig. Nid yw'r gwerth hwn yn cael ei adlewyrchu yn Natganiadau Ariannol y Brifysgol.

13 Trefniadau consesiwn gwasanaeth

Mae gan y Brifysgol ddau drefniant consesiwn gwasanaeth ar y Fantolen, sef safleoedd y Santes Fair a Ffordd Ffriddoedd, lle mae darparu gwasanaeth wedi dechrau.

Symudiad yn asedau trefniant consesiwn gwasanaeth

Gwerth ased y consesiynau gwasanaeth a gynhwysir ar y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2025 yw £53,232k (1 Awst 2024 £54,697k). Mae'r gostyngiad o £1,465k yn deillio o daliadau dibrisiad yn ystod y flwyddyn.

Symudiad yn rhwymedigaethau trefniant consesiwn gwasanaeth
Cyfanswm y rhwymedigaethau'n ymwneud â'r consesiynau gwasanaeth a gynhwysir ar y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2025 oedd £56,372k (1 Awst 2024 £57,835k). Mae'r gostyngiad o £ 1,463k yn deillio o ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.
Ymrwymiadau yn y dyfodol
Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi ymrwymiadau'r Brifysgol yn y dyfodol mewn perthynas â threfniadau consesiwn gwasanaeth.

	Taladwy mewn 1 flwyddyn	Taladwy mewn 2-5 mlynedd	Taladwy mewn 6 mlynedd neu fwy	Cyfanswm
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Ad-daliadau rhwymedigaethau	1,745	8,818	45,809	**56,372**
Tâl cyllid	3,022	10,777	21,224	**35,023**
Tâl gwasanaeth	3,255	12,658	73,578	**89,491**
	8,022	**32,253**	**140,611**	**180,886**

Mae'r nodiadau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am drefniadau cyfredol consesiwn gwasanaeth y Brifysgol ar y Fantolen:

a) Cynllun Ffordd Ffriddoedd
Ar 6 Hydref 2006 llofnododd y Brifysgol gontract 29 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw llety i 1,136 o fyfyrwyr.
Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Fantolen y Brifysgol.
Dechreuodd y gwasanaeth ar 1 Hydref 2009 a bydd y contract yn gorffen ar 30 Medi 2038.

b) Cynllun y Santes Fair
Ar 23 Gorffennaf 2014 llofnododd y Brifysgol gontract 40 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw llety i 602 o fyfyrwyr.
Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Fantolen y Brifysgol.
Dechreuodd y gwasanaeth ar 25 Medi 2015 a bydd y contract yn gorffen ar 24 Medi 2055.

Nodiadau am y Datganiadau Ariannol (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

14 Buddsoddiadau Anghyfredol

	Is-gwmnïau (Nodyn 28)	Cwmnïau cysylltiedig (Nodyn 28)	Mentrau ar y cyd (Nodyn 15)	Buddsoddiadau Anghyfredol Eraill	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfunol					
Ar 1 Awst 2024	0	50	0	7,399	7,449
Rhyddhau yn ystod y flwyddyn	0	0	0	(143)	(143)
Ailbrisiad	0	0	0	672	672
Ar 31 Gorffennaf 2025	**0**	**50**	**0**	**7,928**	**7,978**
Prifysgol					
Ar 1 Awst 2024	0	50	50	7,399	7,499
Rhyddhau yn ystod y flwyddyn	0	0	0	(143)	(143)
Ailbrisiad	0	0	0	672	672
Ar 31 Gorffennaf 2025	**0**	**50**	**50**	**7,928**	**8,028**

Nodir buddsoddiadau anghyfredol ar gost ac eithrio cronfeydd a reolir gan y Brifysgol a nodir ar werth y farchnad.

	Prifysgol
Mae buddsoddiadau anghyfredol eraill yn cynnwys:	£'000
CVCP Properties plc	33
Laser Micromachining Ltd	80
Cronfeydd a reolir mewn ecwitïau a gwarantau llog sefydlog	7,815
	7,928

Delir cronfeydd a reolir gyda UBS Asset Management (UK) Limited sydd wedi eu trwyddedu gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

15 Buddsoddiad mewn mentrau ar y cyd

Mae gan y Brifysgol gyfran o 50% (50,000 o gyfrannau cyffredin £1) yn P.Madog Offshore Services Limited, sef cwmni wedi'i gofrestru yn Lloegr, sy'n ymgymryd â hurio'r llong ymchwil. Cwmni cyd-fentro yw hwn y mae'r Brifysgol ac O.S. Energy (UK) Limited yn berchnogion cyfartal arno. Caiff y trefniant ei drin fel menter ar y cyd a'i gyfrifo gan ddefnyddio'r dull ecwiti, fel bod 50% o asedau a rhwymedigaethau gros y cwmni'n cael eu hymgorffori ym mantolen gyfunol y Brifysgol a 50% o'i incwm net yn cael ei adrodd yn Natganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr y Brifysgol.

Cyfrif incwm a gwariant	**2024/25**	2023/24
	£'000	£'000
Cyfran o incwm	**593**	867
Cyfran o wariant	**(694)**	(893)
Cyfran o warged am y flwyddyn	**(101)**	(26)
Mantolen	**2025**	2024
	£'000	£'000
Asedau sefydlog	**756**	758
Asedau cyfredol	**455**	429
	1,211	1,187
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	**(75)**	(173)
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	**(509)**	(282)
	(584)	(455)
Cyfran o asedau net	**627**	732

Nodiadau am y Datganiadau Ariannol (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

16 Stoc

	2025		2024	
	Cyfunol	**Prifysgol**	Cyfunol	Prifysgol
	£'000	**£'000**	£'000	£'000
Stociau arlwyo ac adwerthu	**72**	**76**	89	88
	72	**76**	89	88

17 Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill

	2025		2024	
	Cyfunol	**Prifysgol**	Cyfunol	Prifysgol
	£'000	**£'000**	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn:				
Symiau masnach derbyniadwy	**10,803**	**10,014**	12,395	12,263
Symiau derbyniadwy arall – treth i'w adfer	**2**	**0**	0	0
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	**13,675**	**13,095**	12,716	12,323
Symiau dyledus gan is-gwmnïau	**0**	**2,076**	0	2,142
	24,480	**25,185**	25,111	26,728
Symiau sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn:				
Benthyciad i fenter ar y cyd	**0**	**645**	0	190
Rhagdaliad i ymgymeriadau is-gwmni	**0**	**0**	0	0
	24,480	**25,830**	25,111	26,918

18 Buddsoddiadau cyfredol

	2025		2024	
	Cyfunol	**Prifysgol**	Cyfunol	Prifysgol
	£'000	**£'000**	£'000	£'000
Adneuon tymor byr	**40**	**0**	16,321	16,281
	40	**0**	16,321	16,281

19 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwy

	2025		2024	
	Cyfunol	**Prifysgol**	Cyfunol	Prifysgol
	£'000	**£'000**	£'000	£'000
Rhwymedigaethau dan brydlesi cyllidol	**159**	**159**	159	159
Trefniadau consesiwn gwasanaeth (Nodyn 13)	**1,745**	**1,745**	1,464	1,464
Benthyciadau ansicredig	**3,037**	**3,037**	2,953	2,953
Credydwyr	**6,818**	**6,754**	7,966	7,719
Nawdd cymdeithasol a threthi taladwy eraill	**1,311**	**1,247**	1,293	1,255
Croniadau ac incwm gohiriedig	**24,535**	**24,202**	29,017	28,875
Symiau dyledus i fenter ar y cyd	**0**	**33**	0	125
Symiau dyledus i ymgymeriadau is-gwmnïau	**0**	**302**	0	264
	37,605	**37,479**	42,852	42,814

Incwm gohiriedig

Wedi eu cynnwys o fewn croniadau ac incwm gohiriedig mae'r eitemau incwm canlynol sydd wedi eu gohirio nes bod amodau penodol sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi cael eu cyflawni.

Ffioedd Dysgu	**9,594**	**9,573**	1,837	1,816
Arall	**7,938**	**7,938**	8,470	8,470
Grantiau ymchwil a dderbyniwyd ar gyfrif	**7,561**	**7,561**	3,942	3,942
Grantiau corff cyllido	**(1,785)**	**(1,785)**	2,501	2,501
	23,308	**23,287**	16,750	16,729

Nodiadau am y Datganiadau Ariannol (parhad)
Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2025

20 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn

	2025		2024	
	Cyfunol	**Prifysgol**	Cyfunol	Prifysgol
	£'000	**£'000**	£'000	£'000
Incwm gohiriedig	**385**	**0**	0	0
Rhwymedigaethau dan brydles gyllidol	**29**	**29**	188	188
Rhwymedigaethau consesiwn gwasanaeth sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn	**54,627**	**54,627**	56,371	56,371
Benthyciadau ansicredig	**24,505**	24,505	27,339	27,529
	79,546	**79,161**	83,898	84,088
Dadansoddiad o fenthyciadau sicredig ac ansicredig:				
Dyledus o fewn un flwyddyn neu ar gais	**3,037**	**3,037**	2,953	2,953
Dyledus rhwng un a dwy flynedd	**3,122**	**3,122**	3,035	3,035
Dyledus rhwng dwy a phum mlynedd	**9,901**	**9,901**	9,542	9,542
Dyledus ymhen pum mlynedd neu fwy	**11,482**	**11,482**	14,952	14,952
Dyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn	**24,505**	**24,505**	27,529	27,529
Cyfanswm benthyciadau sicredig ac ansicredig	**27,542**	**27,542**	30,482	30,482
